*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 17 EBRILL 2023** yn rhithiol **trwy Zoom.**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Dyfarniadau Cyflog Diffoddwyr Tân a Gweithredu Diwydiannol Posibl**

8. **Alldro Dros Dro 2022-23**

9. **Adolygiad Blynyddol o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24**

10. **Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - i'w cymeradwyo**

11. **Datganiad Polisi Tâl 2023-24**

12. **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**

13. **Ailbenodi Aelodau Annibynnol**

14. **Adroddiad Cynnydd ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

## 15. Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030

## 16. Y Diweddaraf am y Ganolfan Hyfforddi Newydd

## 17. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## <u>RHAN II</u>

Yn unol ag Adran 100 A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 18. Dim

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 16 Ionawr 2023** yn rhithwir trwy **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.00 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts (gadawodd am 11:03) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Ken Taylor | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Marc Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Richard Fairhead | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Pam Bass | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Louisa Phillips | Rheolwr Technegol TGCh |
| Euros Lake | Archwilio Cymru |
| Nick Selwyn | Archwilio Cymru |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

Croesawyd y Cynghorydd Michelle Walker i'r cyfarfod. Nodwyd y penodwyd y Cynghorydd Walker yn lle'r Cynghorydd Brian Blakely, tad Michelle, a fu farw'n ddiweddar yn anffodus. Cafwyd munud o dawelwch.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Datganodd y Cynghorydd Rob Triggs fuddiant yn eitem Gweithredu Diwydiannol Rhan II gan ei fod yn aelod allan o'r fasach o Undeb y Brigadau Tân.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 HYDREF 2022**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Nid oedd materion yn codi i'w cofnodi.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i ddarparu ar gyfer y cyfarfod hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y gwnaeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) eu mynychu yn eu rhinwedd eu swydd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023.

6.2 Nodwyd bod y Prif Swyddog Tân, y Cadeirydd, PSTC MacArthur a'r Trysorydd, ers i'r papur gael ei ysgrifennu, wedi cyfarfod ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe Sir yng Ngogledd Cymru ddydd Gwener 13 Ionawr 2023 er mwyn trafod y gyllideb.

6.3 Diolchwyd i'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a swyddogion perthnasol am y gwaith helaeth a wnaed gydag Arweinwyr Awdurdodau Lleol y Gogledd.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

## 7 ALLDRO ARIANNOL 2022-23

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur Alldro Ariannol 2022-23 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa refeniw a gwariant cyfalaf ar gyfer 2022/23, fel ar 30 Tachwedd 2022.

7.2 Nodwyd y byddai gwybodaeth reoli am lefelau salwch ymhlith staff o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cael ei darparu i Aelodau yn y dyfodol.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, fel y manylir o fewn yr adroddiad;**

**(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a phroblemau â'r gadwyn gyflenwi;**

**(iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog parhaus; a**

**(iv) cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi.**

## 8 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/26 A CHYLLIDEB 2023/24

8.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur y Gyllideb a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r gyllideb refeniw derfynol ar gyfer 2023/24 ac ardollau perthnasol ar awdurdodau cyfansoddol, cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer 2023/24, a nodi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/26.

8.2 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno tri opsiwn, ar ôl ymgynghori ag Aelodau, ac yn nodi'r risgiau a'r ansicrwydd sylweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

8.3 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 15 o'r adroddiad. Nodwyd bod yr Aelodau eisoes wedi cadarnhau nad oedd Opsiwn 1 yn fforddiadwy.

8.4 Tynnwyd sylw'r aelodau at baragraffau 21 i 23 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar y camau yr oedd angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r arbedion a ddisgrifiwyd yn Opsiwn 3.

8.5 Nodwyd bod Adolygiad Cyflenwi Tân yn cael ei gynnal ar y pryd ac y byddai canlyniadau hwn yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau ym mis Ebrill 2023.

8.6 Yn y man hwn, atgoffodd y Clerc yr Aelodau o'u cyfrifoldeb i weithredu er lles pennaf yr Awdurdod, ac y dylai'r effaith ar eu cynghorau cyfansoddol fod yn eilradd i hyn wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Serch hynny, dylid ystyried goblygiadau'r Dreth Gyngor hefyd.

8.7 Gofynnodd un Aelod a oedd y pryniant tir sylweddol y cyfeirir ato yn yr adroddiad yn angenrheidiol. Mewn ymateb, dywedwyd bod angen gwneud hyn er mwyn disodli canolfan hyfforddi'r tŷ mwg poeth sy'n cael ei defnyddio ar gyfer hyfforddi ar hyn o bryd, ac a oedd wedi cyrraedd diwedd ei oes. Eglurwyd nad oedd gofyn i Aelodau gymeradwyo'r gwariant ar gyfer y pryniant tir hwn ar hyn o bryd, dim ond ei gydnabod, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn gosod cynigion manwl ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd gerbron yr Aelodau.

8.8 Cydnabuwyd bod rhywfaint o gyllid wedi'i dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei rhwystrau ariannol ei hun, ac y byddai'n rhaid i'r Gwasanaeth lyncu'r gost hon bellach.

8.9 Mynegodd un Aelod bryder o ran yr oedi arfaethedig wrth brynu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer Tanau yn yr Awyr Agored gan feddwl tybed a oedd modd buddsoddi yn hanner y PPE angenrheidiol eleni a gohirio hanner i'r flwyddyn nesaf. Ymatebwyd bod hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth a'i fod yn opsiwn y gellid edrych arno.

8.10 Gofynnodd un Aelod iddo gael ei nodi bod cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol (ALlau), yn ôl ei amcangyfrifon, wedi codi 30% i gyd ers 2017, er y bu cyfraddau chwyddiant yn gymharol isel dros y cyfnod hwn, a bod hyn eisoes wedi cael effaith ar dalwyr y Dreth Gyngor.

8.11 Diolchodd y Trysorydd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am eu cymorth o ran cael y gyllideb wedi'i chymeradwyo gan Arweinwyr ALl. Dywedodd na fyddai'n argymell cynnydd is na 9.9% gan fod hyn eisoes yn cymryd llawer iawn o risg.

8.12 Tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw'r Aelodau at y risgiau sy'n gysylltiedig â chyllideb Opsiwn 3 a gofynnwyd iddynt ystyried y rhain cyn gwneud penderfyniad.

8.13 Gwnaed cynnig bod Aelodau yn cymeradwyo cyllideb Opsiwn 3 a oedd yn disgrifio 9.9% o gynnydd yn yr ardoll i'r ALlau. Cafodd y cynnig hwn ei eilio'n briodol gyda'r mwyafrif o blaid, dau yn ymatal ac un yn gwrthwynebu.

**8.14 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r gwaith cynllunio a wnaed i leihau gofyniad y gyllideb ar gyfer 2023/24, gan gynnwys risgiau ac ansicrwydd cysylltiedig;**

**(ii)** cymeradwyo cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2023/24, yn unol ag argymhelliad y swyddogion gyda chyfanswm gofyniad cyllideb o £43.31m (Opsiwn 3) gyda'r newidiadau i wasanaethau'n dod â'r cynnydd i lawr i 9.9% yn dilyn ymgynghori ag Aelodau;

**(iii)** cymeradwyo'r ardollau ar awdurdodau bilio, yn seiliedig ar **£3.9m (+9.9%)** o gynnydd cyfartalog mewn cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol, yn ogystal â'r Cyfraniadau Grant Pensiwn i'w trosglwyddo i setliad grant cynnal refeniw terfynol y Cynghorau, fel y nodir yn Atodiad 4;

**(iv) cymeradwyo cyllideb gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2023/24, fel y nodir yn Atodiad 3; a**

**(v) cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.**

## 9 DIWEDDARIAD CYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur bapur Adnewyddu'r Contract Ynni, yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am weithgarwch rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23 a chyflwynodd i'r aelodau'r Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig (y Strategaethau) gan ymgorffori'r Datganiad Refeniw Lleiaf ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024.

9.2 Tynnwyd sylw'r aelodau yn benodol at dudalennau 26 i 58 o'r pecyn.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r sefyllfa canol blwyddyn ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23;**

**(ii) cymeradwyo'r Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys a'r Datganiad Darpariaeth Refeniw Lleiaf ar gyfer 2023/24, yn amodol ar unrhyw welliannau sydd eu hangen, yn dilyn cymeradwyo'r cyllidebau refeniw a chyfalaf terfynol ar gyfer 2023/24; a**

**(iii) os bydd newidiadau i'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24, dirprwyo cymeradwyaeth o'r Strategaethau hyn a'r Datganiad Darpariaeth Refeniw Lleiaf i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2023.**

**10 CYFLWYNIAD I RÔL ARCHWILIO CYMRU – EUROS LAKE, ARCHWILIO CYMRU**

10.1 Cyflwynwyd Euros Lake a Nick Selwyn o Archwilio Cymru i'r Aelodau a chafwyd cyflwyniad byr ar rôl Archwilio Cymru. Cytunwyd y byddai'r cyflwyniad yn cael ei anfon allan at yr Aelodau.

10.2 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi cynnwys y cyflwyniad.**

**11. ADRODDIAD LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON – ARCHWILIO CYMRU**

11.1 Cyflwynodd PSTC Millington bapur yr Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon a oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon Archwilio Cymru yn dilyn eu harchwiliad o'r Awdurdod, yn ogystal â disgrifio'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i'w canfyddiadau.

11.2 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**
**(ii) chefnogi'r Gwasanaeth wrth inni barhau i ymdrechu tuag at gyflawni niwtraliaeth carbon sero net erbyn 2030.**

**12. ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH I'W GYMERADWYO**

12.1 Cyflwynodd Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, yr Adroddiad Bioamrywiaeth. Roedd yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth yr Awdurdod ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd hefyd yn rhoi gwybod am gynllunio arfaethedig yn y dyfodol ac adrodd am gamau gweithredu gan yr Awdurdod mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth o fewn ei ystâd.

12.2 Nodwyd bod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno'n flaenorol gerbron y Panel Gweithredol.

12.3 **PENDERFYNWYD:**
**(i) cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Bioamrywiaeth a Chynllun Gweithredu 2022.**

**13 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT**

13.1 Cyflwynodd DBST Forshaw y Cynllun Gwella a Llesiant y bwriadwyd iddo adolygu amcanion tymor hir yr Awdurdod sydd yn ei Gynllun Corfforaethol 2021-24.

**13.2 PENDERFYNWYD:**
**(i) cadarnhau bwriad yr Awdurdod i barhau ar drywydd ei saith amcan hirdymor presennol yn 2023/24; a**

**ii) gofyn bod fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun Corfforaethol 2021-24 yn cael ei baratoi gan Swyddogion i'w gymeradwyo ym mis Ebrill 2023.**

## 14 YMCHWILIAD ARENA MANCEINION

14.1 Rhoddodd PSTC Millington gyflwyniad ar y papur ar Ymchwiliad Arena Manceinion a gafodd ei lunio er mwyn rhoi trosolwg o gynnwys a goblygiadau adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion – Cyfrol 2 a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

**14.2 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.**

## 15 ADOLYGIAD THEMATIG Y PRIF YMGYNGHORYDD TÂN I HYFFORDDIANT GWEITHREDOL

15.1 Cyflwynodd DBST Forshaw bapur Adolygiad Thematig y Prif Ymgynghorydd Tân i Hyfforddiant Gweithredol a oedd yn rhoi diweddariad yn dilyn cyhoeddi adolygiad Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub Cymru i hyfforddiant yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, o'r enw 'Hyfforddiant Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub: Adolygiad Thematig'.

15.2 Holodd un Aelod a oedd diffoddwyr tân bellach yn cael hyfforddiant o ran cerbydau trydan, ac mewn ymateb dywedwyd bod strategaeth hyfforddi newydd y Gwasanaeth yn cynnwys cwrs gloywi ar wrthdrawiadau ar y ffordd a oedd hefyd yn cwmpasu technolegau tanwydd amgen.

**15.3 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**

**(ii) nodi'r cynllun gweithredu sydd wedi ei roi ar waith, i ystyried argymhellion adolygiad y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub o fewn amserlenni rhesymol.**

## 16 MATERION BRYS

16.1 Nid oedd materion brys.

Ar ddiwedd Rhan I o'r agenda, gadawodd y Cyng. Rob Triggs y cyfarfod oherwydd ei ddatganiad o fuddiant ac yna cytunwyd i symud i Ran II o'r cyfarfod.

## 17 DIWEDDARIAD AR WEITHREDU DIWYDIANNOL

17.1 Cyflwynodd PST Docx yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiad y bleidlais ynghylch y cynnig cyflog o 5% ar gyfer diffoddwyr tân a gweithredwyr ystafell reoli. Roedd hefyd yn

tynnu sylw'r Aelodau at bosibilrwydd gweithredu diwydiannol, a'r trefniadau parhad busnes sy'n cael eu rhoi ar waith.

16.2 Cadarnhawyd y byddai cyfanswm o ddau beiriant tân atgyfnerthu ar gael i gyflenwi yn ystod cyfnodau o streic. Byddai'r rhain yn cael eu criwio gan uwch reolwyr oedd bellach wedi cael hyfforddiant i ddiweddaru eu sgiliau. Byddai'r Gwasanaeth yn ymgynghori â gorsafoedd unigol yn nes at amser unrhyw weithredu diwydiannol er mwyn canfod pwy fyddai ddim yn cymryd rhan mewn streic, ac a fyddai felly hefyd ar gael.

16.3 Ers ysgrifennu'r papur hwn, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi annog y Gwasanaeth i gyflwyno cais Cymorth Milwrol i Awdurdodau Sifil (MACA). Ni fyddai gallu'r fyddin i helpu yn hysbys tan y bydd cais wedi'i gyflwyno.

16.4 Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnig tâl dwy flynedd lleol diwygiedig o 6% ar gyfer 2022 a 5% ar gyfer 2023 bellach wedi ei gynnig i Frigâd Dân Llundain, er nad oedd unrhyw arwydd eto y byddai'n cytuno i hyn. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn, byddai'n rhoi gweddill y wlad mewn sefyllfa anodd gan nad oedd cynnig tebyg yn fforddiadwy yn ardaloedd rhai o'r Gwasanaeth eraill.

**16.5 PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Diwedd y cyfarfod: 11:45 o'r gloch.**

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.llyw.cymru) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swydd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi bod mewn sawl cyfarfod a digwyddiad, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Dylai’r aelodau:

i) nodi’r wybodaeth a ddarperir.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod y Prif Swyddog Tân (CFO) yn rheolaidd. Fe wnaethant hefyd gyfarfod cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân (FBU) cyn cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023.

6 Ar 13 Ionawr mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithiol gydag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr o chwe Awdurdod Lleol y gogledd i drafod cyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ar gyfer 2023-24.

7 Ar 26 Ionawr bu'r Cadeirydd a’r Prif Swyddog Tân yng nghyfarfod cyntaf ‘Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol' y Gwasanaethau Tân ac Achub, wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Weinidog, Hannah Blythyn AS.

8. Ar 27 Ionawr, aeth y Cadeirydd i'r 'Seremoni Cyflawniad' yng Ngorsaf Dân Amlwch a chyflwynodd dystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cwrs Ffenics.

9. Ar 6 Chwefror, bu'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân mewn cyfarfod ymgynghorol rhithiol o'r Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyflogau, ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân rhanbarthol eraill.

10. Ar 11 Chwefror, aeth y Dirprwy Gadeirydd i'r 'Seremoni Cyflawniad' yng Ngorsaf Dân Rhuthun a chyflwynodd dystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cwrs Ffenics.

11. Ar 17 Chwefror, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod rhithiol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

12. Ar 20 Chwefror, aeth y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod rhithiol o Banel Tân ac Achub CLlLC ynghyd â Chadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru.

13. Ar 7/8 Mawrth bu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân yng Nghynhadledd Tân ac Achub yr LGA yn Nottingham. Tra yn y gynhadledd, ymunodd y Cadeirydd hefyd o bell ag ail gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd ar 8 Mawrth.

14. Ar 13 Mawrth, bu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd mewn seremoni wobrwyo yn Venue Cymru ar gyfer staff a oedd yn derbyn medalau am wasanaeth hir.

15. Ar 17 Mawrth, aeth y Cadeirydd i'r 'Seremoni Cyflawniad' yng Ngorsaf Dân Rhuthun a chyflwynodd dystysgrifau i'r bobl ifanc oedd wedi cwblhau'r cwrs Ffenics. Diolch eto i'r Cynghorydd Arwyn Herald Roberts am ei gefnogaeth yn tynnu lluniau.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r aelodau yn eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb deithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/<br>Hawliau Dynol/y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is also available in English.*

**Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx** |
| Pwnc | **Dyfarniadau Cyflog Diffoddwyr Tân a Gweithredu Diwydiannol Posibl** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar hynt yr anghydfod ynghylch cyflogau diffoddwyr tân a gweithredu diwydiannol. posibl.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae'r Prif Swyddog Tân (PST) wedi rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar hynt y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân, a pharatoadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ar gyfer diwydiant diwydiannol posibl.

3. Yn ystod y trafodaethau ar 7 Chwefror 2023, cyflwynodd y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), ar ran cyflogwyr y gwasanaeth tân, gynnig diwygiedig. Roedd y cynnig hwn yn cynnwys codiad cyflog o 7% wedi'i ôl-ddyddio i fis Gorffennaf y llynedd a 5% arall o fis Gorffennaf 2023.

4. Yna cynhaliodd Undeb y Frigâd Dân (FBU) bleidlais ymhlith aelodau gydag argymhelliad i dderbyn y cynnig cyflog. Canlyniad y bleidlais hon oedd derbyn y cynnig, gyda 84% o'r holl aelodau cymwys yn pleidleisio, a 96% o'r rhain yn pleidleisio dros dderbyn y cynnig.

5. Ar ran y Gwasanaeth, croesawodd y PSA y setliad sy'n dod â'r bygythiad uniongyrchol o weithredu diwydiannol i ben. Yna rhoddodd yr holl baratoadau ar gyfer parhad busnes o'r neilltu yn swyddogol.

6. Dylid nodi nad oes cyllid canolog ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig cyflog hwn, sy'n golygu y bydd yn rhaid dod o hyd i'r arian o gyllideb y Gwasanaeth. O ganlyniad, bydd y ffocws eleni ar roi opsiynau i'r Aelodau drwy'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys; i ddod o hyd i'r cydbwysedd priodol rhwng yr heriau sy'n ein hwynebu fel gwasanaeth tân ac achub i amddiffyn pobl Gogledd Cymru a sicrhau bod gennym gyllideb gynaliadwy.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

7. Rhoddwyd diweddariad llafar gan y PST i Aelodau'r Panel Gweithredol ar 20 Mawrth 2023, fel rhan o faterion yn codi o'r set flaenorol o gofnodion. Ar yr un diwrnod rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio mewn modd tebyg.

**ARGYMHELLIAD**

8. Gofynnir i'r aelodau

   i) nodi bod cynnig cyflog y NJC i gyflogeion ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd wedi'i dderbyn;
   ii) nodi bod paratoadau ar gyfer gweithredu diwydiannol wedi dod i ben; a
   iii) nodi'r goblygiadau ariannol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Gall y Gwasanaeth ganolbwyntio nawr ar gyflawni ei amcanion Llesiant, gan gynnwys darparu opsiynau o adolygiad o'r ddarpariaeth frys. |
| Cyllideb | Roedd y dyfarniad cyflog yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd ar gyfer 2023/24. Bydd y diffyg o £1miliwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer eleni ond bydd angen ei gynnwys yn y trafodaethau ar y gyllideb ar gyfer 2024/25. |
| Cyfreithiol | O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (CCA) mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd i gynllunio ar gyfer unrhyw darfu ar ddarpariaeth y Gwasanaeth, sy'n cynnwys effaith gweithredu diwydiannol. |
| Staffio | Yn unol â thelerau ac amodau cenedlaethol, fe wnaeth pob cyflogai ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd o lefel Diffoddwr Tân i Reolwr Ardal dderbyn y cyflogau newydd a'r tâl ôl-ddyddiedig ym mis Mawrth 2023. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Lleihad yn y risg o ddirywiad mewn cysylltiadau diwydiannol. Cynnydd mewn risgiau ariannol. |

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2022/23** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa o ran gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2022/23, fel yr oedd ar 28 Chwefror 2023.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cymeradwywyd y gofyniad cyllideb net gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £39.41m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

3 Rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £41.38m sy'n cynnwys prosiectau a ohiriwyd yn ystod pandemig Covid, setliadau cyflog cenedlaethol uwchlaw'r ddarpariaeth gyllidebol o 2% a phwysau cyffredinol oherwydd chwyddiant. Bydd defnyddio arian wrth gefn a glustnodwyd, y gronfa gyffredinol a defnyddio darpariaethau'n lliniaru'r costau ychwanegol ac ni ragwelir y bydd angen ardoll atodol.

4 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb cyfalaf 2022/23 o £2.91m ar 20 Rhagfyr 2021. Cynyddodd hyn i £3.3m yn sgil dwyn cynlluniau ymlaen o 2021/22 a phrosiectau a ariannwyd gan grantiau. Rhagwelir y bydd tanwariant o £0.372m oherwydd llithriant yn y rhaglen er bod angen cyllid o £0.467m oherwydd pwysau costau mewn cynlluniau a gwblhawyd.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i aelodau:

(i) nodi'r rhagamcanion alldro cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad;
(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a materion cadwyn gyflenwi;
(iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog parhaus; a
(iv) cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a rhai cyffredinol.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen gan yr Aelodau.

## CEFNDIR

7 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa o ran alldro gwariant cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

8 Cafodd y gyllideb net o £39.412m ei chymeradwyo ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Rhagfyr 2021. Yn dilyn gwaith cynllunio pellach, cadarnhawyd y gofyniad cyllideb net cyffredinol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Mehefin 2022, a'r adeg hynny nodwyd hefyd y byddai gwariant a ohiriwyd o 2021/22 yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Yn ogystal, nodwyd y risg benodol sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog gan fod y dyfarniadau cyflog cenedlaethol yn weddill.

9 Mae costau staff yn cynrychioli 76% o'r gwariant gros. Pennir y gyllideb ar y sefydliad staffio sydd wedi'i gymeradwyo a'r gweithgarwch a ragwelir.

10 Roedd y broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog yn 2% i'r holl staff. Cwblhawyd a chytunwyd ar y cynnig cyflog i staff llywodraeth leol yn cynnwys codiad o £1,925 ar draws pob gradd. Mae hyn yn cyfateb i tua 6.6% o'i gymharu â'r rhagdybiaeth cynllunio o 2%.

11 Mae dyfarniad cyflog o 7% wedi'i dderbyn ar gyfer rolau diffoddwyr tân a diffoddwyr tân ystafell reoli o fis Gorffennaf 2022, a chytunwyd ar ddyfarniad o 5% o fis Gorffennaf 2023. Cynigir y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn 2022/23 ar gyfer dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Amcangyfrifir bod hyn yn £0.700m ar hyn o bryd, gan gynnwys staff CPLlL.

12 Mae'r rhagolygon nad ydynt yn ymwneud â chyflogau'n adlewyrchu'r pwysau anochel hysbys o ran costau a gaiff ei brofi mewn perthynas â chostau cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau a chostau tanwydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd pellach yn parhau oherwydd pwysau chwyddiant cyffredinol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi sy'n arwain at wariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelwyd.

13 Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, derbynnir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grant, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

14 Mae costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a chostau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Pan osodwyd y gyllideb, ni ragwelwyd y cynnydd sylweddol yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn ystod 2022/23. Mae'r cynnydd dilynol wedi arwain at effaith andwyol ar y sefyllfa ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y rhagolwg.

**ALLDRO REFENIW**

15 Mae'r adroddiad yn rhagamcanu sefyllfa gytbwys gyffredinol ond o ystyried y pwysau chwyddiant bu'n rhaid cynnwys trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Manylir ar y dadansoddiad isod.

| | Cyllideb (£000) | Rhagolwg (£000) | Amrywiant (£000) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 30,130 | 30,936 | 806 | 2.68% |
| Tir ac Adeiladau | 2,901 | 2,901 | 0 | 0.00% |
| Cludiant | 1,204 | 1,493 | 289 | 24.01% |
| Cyflenwadau | 4,919 | 5,692 | 773 | 15.71% |
| Taliadau Trydydd Parti | 451 | 451 | 0 | 0.00% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2,263 | 2,513 | 250 | 11.05% |
| Incwm | -2,456 | -2,604 | -148 | 6.03% |
| **Rhagolwg Alldro** | **39,412** | **41,382** | **1,970** | **5.00%** |
| Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | | -925 | -925 | |
| Defnyddio Darpariaethau | | -345 | -345 | |
| Defnyddio'r Gronfa Gyffredinol | | -700 | -700 | |
| **Defnydd o gyllid mewnol** | | **-1,970** | **-1,970** | |
| **Gwariant yn erbyn yr ardoll** | **39,412** | **39,412** | **-** | |

**COSTAU GWEITHWYR**

16 Mae costau gweithwyr yn rhan sylweddol o'r gyllideb (76%) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi a gwasanaethau gweithwyr, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

17 Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith ym mis Ebrill 2022. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran recriwtio i swyddi gwag, ond mae'n profi'n heriol i recriwtio i swyddi arbenigol. Er bod y swyddi hyn yn parhau i fod yn hollbwysig i gyflawni'r amcanion corfforaethol, mae'r arbedion swyddi gwag wedi'u defnyddio i liniaru'r costau uwch mewn perthynas â'r dyfarniadau cyflog a goramser.

18 Mae ymarfer recriwtio llawn amser diweddar wedi arwain at benodi 24 o recriwtiaid newydd; dechreuodd 12 ym mis Medi a 12 ym mis Ionawr. Bydd y swyddi newydd hyn yn ymateb i ymddeoliadau hysbys a disgwyliedig er, oherwydd y cyfnod gofynnol o hyfforddiant, bu'n rhaid mynd y tu hwnt i'r lefelau sefydliad arferol i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae gweithredu'n parhau i gynyddu nifer y diffoddwyr tân rhan amser ac mae'n faes pwysig i ganolbwyntio arno er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd a'u cynnal.

19 Disgwylir i’r costau goramser sy’n gysylltiedig â chynnal argaeledd gwasanaeth ac ar gyfer salwch fod yn £0.900m ar ddiwedd y flwyddyn.

20 Cafwyd gwariant o £0.301m mewn perthynas â dyfarniadau tâl gwyliau ôl-ddyddiedig. Roedd hyn yn angenrheidiol yn dilyn achos cyfreithiol cenedlaethol mewn perthynas â’r elfennau tâl y dylid eu cynnwys yn y cyfrifiad tâl gwyliau. Arweiniodd newidiadau i gyfraniadau pensiwn prentisiaid yn dilyn trosglwyddo o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) i’r cynllun diffoddwyr tân at gyfraniadau cyflogwr ychwanegol o £0.044m. Caiff y costau hyn eu hariannu drwy’r darpariaethau a sefydlwyd yn 2021/22.

21 Mae’r gorwariant net mewn costau staffio yn dod i £0.806m ac mae’n cynnwys y canlynol:

- costau dyfarniadau cyflog yn ystod y flwyddyn;
- goramser ychwanegol ar gyfer salwch a chynnal argaeledd;
- tâl gwyliau ôl-ddyddiedig;
- tâl gwyliau ychwanegol;
- recriwtio ychwanegol i ddiffoddwyr tân amser cyflawn;
- swyddi dros dro i gyflawni prosiectau penodol; llai
- gostyngiadau yn deillio o swyddi gwag presennol.

## COSTAU NAD YW’N YMWNEUD Â CHYFLOGAU

22 Mae’r gyllideb nad yw’n ymwneud â chyflogau yn wynebu pwysau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys costau tanwydd ac ynni sy'n parhau i fod yn anrhagweladwy oherwydd problemau’n ymwneud â phrisiau a chyflenwad. Yn ogystal, mae argaeledd a chostau nwyddau eraill megis cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a rhannau fflyd hefyd yn peri pryder o ystyried cymhlethdod y cadwyni cyflenwi ac ansicrwydd byd-eang.

23 Cynhelir adolygiad o wariant nad yw’n ymwneud â chyflogau gan ddeiliaid cyllidebau i sicrhau bod y rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol.

## Tir ac Adeiladau

24 Mae costau tir ac adeiladu adeiladau yn rhagamcanu cyllideb gytbwys a gyflawnwyd yn dilyn derbyn ad-daliadau ychwanegol yn dilyn apeliadau prisio ardrethol mewn perthynas ag ardrethi annomestig cenedlaethol.

25 Yn ogystal, mae costau o £0.5m wedi'u trosglwyddo i gyfalaf mewn perthynas â gwaith yng Ngorsafoedd Tân y Rhyl a Dolgellau.

26 Mae'r ffigurau alldro yn cynnwys y costau rhagarweiniol y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod blaenorol, mewn perthynas â datblygu'r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd (£0.25m).

27 Mae ansefydlogrwydd y farchnad a chostau cynyddol nwy a thrydan yn her ariannol fawr i'r Awdurdod. Y gorwariant rhagamcanol presennol ar gyfer cyfleustodau yw £0.15m. Mae'r rhagamcan hwn yn cynnwys cymorth Llywodraeth y DU i fusnesau gan gynnwys cyrff sector cyhoeddus tan 31 Mawrth 2023. Mae costau ynni yn cael eu monitro fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru.

**Cludiant**

28 Mae'r gyllideb cludiant yn rhagweld amrywiad o £0.289m. Mae costau cynyddol mewn perthynas â thanwydd a rhannau cerbydau yn achosi pwysau ar y gyllideb hon.

**Cyflenwadau**

29 Y gyllideb ar gyfer cyflenwadau net yw £4.919m a'r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd yw £0.773m, sy'n cynnwys mentrau yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

30 Mae pwysau chwyddiant sylweddol mewn nifer o feysydd busnes-gritigol ac mae camau'n cael eu cymryd i'w cyfyngu a'u lliniaru, lle bo modd.

31 Mae'r sefyllfa alldro a ragwelir yn cynnwys costau ar gyfer meddalwedd Diogelwch Tân newydd, newid offer gweithredol hanfodol a gwaith prosiect mewn perthynas â'r adolygiadau amrywiol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled y Gwasanaeth. Cynlluniwyd y rhain yn dilyn cau blwyddyn ariannol 2021/22 a byddant yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**Taliadau Trydydd Parti**

32 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint a Heddlu Gogledd Cymru.

33 Mae'r gwariant hwn yn cael ei ragamcanu o fewn y gyllideb ar hyn o bryd.

**ARIANNU CYFALAF**

34 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw i ariannu gwariant cyfalaf.

35 Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn cynrychioli'r isafswm y mae'n rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf, a fydd wedi'i ariannu i ddechrau trwy fenthyca. Mae'n rhan o holl arferion cyfrifyddu'r Awdurdod, a'i nod yw sicrhau y gall yr Awdurdod dalu'r dyledion sydd ganddo o brynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

36 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod bennu swm o MRP bob blwyddyn ariannol, y mae'n ei ystyried yn ddarbodus drwy gyfeirio at Ofyniad Cyllido Cyfalaf wedi'i gyfrifo (CFR). Yr MRP ar gyfer 2022/23 yw £1.94m.

37 Yn ogystal, mae'r gyllideb yn dal y costau llog mewn perthynas â benthyciadau'r Awdurdod. Oherwydd y sefyllfa economaidd gyfnewidiol, mae cost benthyca wedi cynyddu'n sylweddol bellach, sydd wedi arwain at bwysau cyllidebol presennol o £0.25m.

38 Mae'r sefyllfa hon yn cael ei monitro'n ofalus, ar y cyd â chynghorwyr y trysorlys, er mwyn manteisio ar gyfraddau llog ffafriol, pan fyddant ar gael.

39 Ar hyn o bryd, mae £0.30m wrth gefn i wrthbwyso costau llog uwch.

**INCWM**

40 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig ar gyfer ffioedd a thaliadau a grantiau.

41 Mae ffioedd a thaliadau yn ymwneud yn bennaf ag ailgodi tâl am adeiladau a rennir â chyrff eraill.

| | Cyllideb £000 | Rhagamcan £000 | Amrywiant £000 |
|---|---:|---:|---:|
| Grantiau | 2,179 | 2,189 | 10 |
| Ffioedd a Thaliadau | 277 | 415 | 138 |
| **Cyfanswm** | **2,456** | **2,604** | **148** |

42 Cynyddodd incwm arall oherwydd yr elw o hyfforddiant prentisiaethau (£118k) a gwaredu cerbydau (£30k).

**Cyllid Grant**

43 Cyfanswm y dyraniadau cyllid grant 2022/23 yw £2.179m (2021/22: £2.397m). Ceir dadansoddiad o'r cyllid grant ar gyfer 2022/23 isod. Mae'r holl grantiau'n cael eu monitro'n ofalus trwy gydol y flwyddyn ariannol i nodi unrhyw amrywiadau ac i alluogi cymryd camau adferol.

| | Dyraniad £000 |
|---|---:|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157 |
| Offer Diogelwch yn y Cartref | 223 |
| Ymgysylltu â Ieuenctid a Phobl Ifanc | 148 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 154 |
| Cyfraniadau Pensiwn Diffoddwyr Tân | 1,081 |
| Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **2,179** |

**RHAGLEN GYFALAF**

44 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb cyfalaf 2022/23 o £2.91m ar 20 Rhagfyr 2021. Cynyddodd hyn i £3.3m yn sgil dwyn cynlluniau ymlaen o 2021/22 a phrosiectau a ariannwyd gan grantiau. Rhagwelir y bydd tanwariant o £0.372m oherwydd llithriant yn y rhaglen er bod angen cyllid o £0.467m oherwydd pwysau costau mewn cynlluniau a gwblhawyd.

45 Mae arian grant yn ymwneud â chyfleusterau gwell i fynd i'r afael â materion halogi a iechyd a diogelwch yng Ngorsafoedd Tân Dolgellau a'r Rhyl, gan gynnwys gosod peiriannau golchi Offer Anadlu. Dechreuodd y gwaith hwn yn ystod 2022/23 ac roedd angen gwaith ychwanegol o £50k. Mae dyraniad cyllideb pellach o £0.466m wedi'i gynnwys yn 2023/24 ar gyfer gwaith hanfodol ar y tŷ mwg poeth yn Nolgellau ac ailfodelu sydd ar y gweill yng Ngorsaf Dân y Rhyl i ddarparu peiriannau golchi Offer Anadlu.

46 Roedd y rhagamcaniad yn rhagdybio'n flaenorol y byddai 3 thwr hyfforddi yn cael eu cwblhau eleni. Er bod y tendrau wedi'u dyfarnu i gontractwyr a chaniatâd cynllunio wedi'i roi, mae'r gwaith hwn bellach wedi llithro i 2023/24.

47 Oherwydd problemau parhaus yn y gadwyn gyflenwi, bu oedi hefyd o ran derbyn faniau amlbwrpas, a bellach disgwylir eu derbyn ym mis Ebrill 2023.

48 Mae manylion y cynlluniau isod:

| Cynllun | Cynllun Diwygiedig £'000 | Rhagolwg £'000 | Swm i'w Ddwyn Ymlaen £'000 |
|---|---|---|---|
| Amnewid Peiriannau Tân | 1248 | 1263 | |
| Faniau Gorsaf Aml-Bwrpas | 160 | - | 160 |
| Offer Gweithdy | 20 | 13 | |
| Amnewid Tyrau Hyfforddi | 160 | - | 307 |
| Adeiladau – To Caernarfon | 150 | 166 | |
| Adeiladu – Ailwifro Caergybi | 95 | 158 | |
| Peiriannau Tân (dwyn ymlaen o 2021/22) | 923 | 925 | |
| Tyrau Hyfforddi (dwyn ymlaen o 2021/22) | 160 | - | |
| Gweinydd Ystafell Reoli | 167 | 136 | |
| Offer Gweithredol | 92 | 92 | |
| Tŷ Mwg Dolgellau | 146 | 196 | |
| **Cyfanswm Cynllun Cyfalaf** | **3321** | **2949** | **467** |

49 Mae cyllid y cynllun cyfalaf fel a ganlyn:

| Cyllid | Swm £'000 |
|---|---|
| Benthyg | 2575 |
| Cyllid Grant | 238 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 136 |
| **Cyfanswm** | **2.949** |

**BENTHYG**

50 Ariennir gwariant cyfalaf yn bennaf trwy fenthyca allanol. Yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn fenthyca mewnol.

51 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyca cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifwyd gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad allanol gan fod arian sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio fel ateb dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i'r arian wrth gefn gael ei ddefnyddio, bydd angen disodli'r benthyca mewnol gyda benthyca allanol.

52 Yn seiliedig ar y rhagamcaniad presennol, bydd y CFR yn £28.963m ar 31 Mawrth 2023.

53 Rhagwelir y bydd benthyciadau'r Awdurdod yn £26.461 miliwn ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cynnwys £6.0 miliwn o fenthyciadau tymor byr dros dro, gan gyrff sector cyhoeddus eraill a £20.461 miliwn o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

| Benthyciadau | £m |
|---|---:|
| Benthyciadau ar 1 Ebrill 2022 | 24.435 |
| Benthyciadau Newydd | 16.000 |
| Ad-daliadau | 13.974 |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 26.461 |

**DEFNYDD O GRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI**

54 Nod cronfeydd ariannol wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn gweithgareddau yn y dyfodol a gweithredu fel rhwyd ddiogelwch rhag ofn y bydd heriau ariannol tymor byr yn deillio o weithgareddau neu bwysau na ellir eu rhagweld.

55 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wedi clustnodi £5.57m wrth gefn sydd wedi ei gronni yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithriad mewn recriwtio a gweithgareddau yn sgil pandemig Covid.

56 Yn 2021/22 neilltuwyd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i ariannu costau a ddylai fod wedi'u hysgwyddo yn 2021/22, ond roedd problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn golygu na ellid cwblhau'r rhain a bu oedi. Yn ogystal, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u sefydlu i ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system a gwelliannau i wasanaethau.

57 Mae'r alldro dros dro yn rhagdybio y bydd cronfeydd wrth gefn o £0.925m yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Adolygir y defnydd o gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod buddsoddiad digonol yn yr isadeiledd i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaeth arfaethedig sy'n cynnwys gwaith atal ac ymateb brys. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr Awdurdod yn cynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r safonau penodedig. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n fanwl i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb gymeradwy yn cael eu nodi'n briodol a'u hadrodd i'r Aelodau. |

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Adolygiad Blynyddol o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1. Cyflwyno Cynllun Corfforaethol 2021-24 wedi'i ddiweddaru i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'w gymeradwyo yn dilyn ei adolygiad blynyddol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol 3 blynedd ar gyfer 2021-24 a oedd yn nodi ei saith amcan gwella a llesiant hirdymor, a'r camau gweithredu yr oedd yn bwriadu eu cymryd yn y flwyddyn gyntaf 2021- 22.

3. Ym mis Hydref 2022, cytunodd yr Aelodau na fyddai'r amcanion gwella a llesiant yn newid ar gyfer y flwyddyn olaf 2023-24.

4. Mae Cynllun Corfforaethol 2023-24 wedi'i ddiweddaru i gynnwys camau gweithredu a gyflawnwyd yn 2022-23, ynghyd â'r blaenoriaethau yn erbyn pob amcan ar gyfer ei flwyddyn olaf.

5. Cyflwynwyd y cynllun drafft diwygiedig i Banel Gweithredol yr Awdurdod ar 20 Mawrth 2023, gyda sylwadau o'r cyfarfod wedi'u cynnwys yn y fersiwn terfynol hwn o'r cynllun.

## ARGYMHELLIAD

6. Gofynnir i aelodau:

   i) nodi golwg adolygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023-24 ar ei newydd wedd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol;
   ii) nodi bod y data sydd ynddo yn destun archwiliad terfynol; a
   iii) cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.

**GWYBODAETH**

7. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, caiff y rhain eu trin fel un peth.

8. Mae heriau allweddol yn parhau i'r Awdurdod wrth iddo symud i mewn i flwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- argaeledd criwiau tân ar-alwad;
- cynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân;
- cael digon o gapasiti corfforaethol i fodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol.

9. Mae adolygiad blynyddol 2023-24 yr Awdurdod o'i Gynllun Corfforaethol 2021-24 yn parhau i wneud y canlynol:

- cadarnhau amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod;
- amlinellu pa gamau y bwriedir eu cyflawni neu eu datblygu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn 2023-24;
- adlewyrchu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod, gan gynnwys y tri a eglurwyd gan y Prif Swyddog Tân yn yr asesiad o'r sefyllfa;
- ystyried canfyddiadau ac argymhellion Archwilio Cymru;
- ystyried argymhellion Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru o'i adolygiadau thematig;
- ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig lle mae'r amcanion yn cyd-fynd â chynlluniau'r Awdurdod ei hun;
- sicrhau parodrwydd ar gyfer unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol sy'n deillio o Fframwaith Cenedlaethol wedi'i ddiweddaru, ac unrhyw argymhellion ychwanegol gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol;
- cyd-fynd â chyllideb refeniw, cynllun cyfalaf a chynllun ariannol tymor canolig yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun yn cadarnhau amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn egluro'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud tuag at eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cyllidebau cyfalaf a refeniw'r Awdurdod y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023-24 yn adlewyrchu'r camau a gymerir yn ystod y flwyddyn honno tuag at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cynllunio gwella a llesiant. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar y lefelau staffio ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Bydd effaith camau gweithredu penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Yn lleihau'r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol a methu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Corfforaethol 2021 - 2024

(Adolygwyd Mawrth 2023)










This publication is available in English

# Cynnwys

Rhagair .......... 3
Awdurdod Tân Gogledd Cymru .......... 4
Diogelu, Atal, Ymateb .......... 7
Ein Cyllideb ar gyfer 2023-24 .......... 8
Mae cyfanswm y gyllideb o £43,314,000 yn cynnwys incwm ychwanegol o £2,024,000 o grantiau a ffioedd, sydd heb ei gymryd i ystyriaeth ar gyfer y gwariant arfaethedig a ddangosir isod. .......... 8
Bydd bron i dri chwarter y gyllideb yn cael ei gwario ar gostau cyflogau gweithwyr a chostau gweithwyr eraill. .......... 8
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Fframwaith Tân Cenedlaethol .......... 8
Mesur Gwelliant .......... 10
Datganiad Llesiant .......... 11
Amcanion Corfforaethol .......... **Error! Bookmark not defined.**
Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru. .......... 13
Amcan 2: Parhau i weithio'n gydweithredol i gynorthwyo cymunedau i gynyddu eu cydnerthedd. .......... 14
Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. .......... 15
Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid. .......... 16
Amcan 5: Cynnal gweithlu sy'n addas o gydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg. .......... 17
Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. .......... 18
Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael. .......... 19
Dweud eich Dweud: .......... 20

DRAFT

# Rhagair



Y Prif Swyddog Tân
Dawn Docx



Cadeirydd yr Awdurdod Tân
Dylan Rees

Croeso i ddiweddariad newydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24.

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn parhau i fod yn ymrwymedig i fuddsoddi yn y dyfodol ac yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau am flynyddoedd i ddod. Mae llawer iawn wedi'i gyflawni eisoes gan staff sy'n dangos lefel eithriadol o hyblygrwydd a chydnerthedd yn barhaus wrth gynnal y gwasanaethau a ddarperir trwy gyfnod heriol ac ansicr.

Mae'r Awdurdod wedi mynd trwy gyfnod sylweddol o drawsnewid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Mae hefyd wedi parhau i ymateb i effeithiau pandemig COVID-19, cymdeithas sy'n newid, potensial gweithredu diwydiannol o fewn y gweithlu a'r pwysau ariannol ar gyllideb yr Awdurdod oherwydd chwyddiant ac effeithiau byd-eang eraill.

Fe welwch yn y Cynllun Corfforaethol a ddiweddarwyd sut y bydd yr Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol a risgiau sy'n dod i'r amlwg yn ystod 2023-24 wrth ddarparu gwasanaeth tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru sy'n ymroddedig i'w genhadaeth sef 'Gwneud Gogledd Cymru'n ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi'.

Gan ystyried yr holl risgiau sy'n dod i'r amlwg, bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i gyflawni ar draws ei dri phrif faes blaenoriaeth: argaeledd criwiau tân ar-alwad, cynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân a chael digon o gapasiti corfforaethol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy gwblhau adolygiad darpariaeth frys, mabwysiadu argymhellion o'n hadolygiad o brofiad staff system dyletswydd rhan amser a sefydlu strategaeth hyfforddi a datblygu newydd wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddiant trochol newydd.

Mae ein blaenoriaethau yn cyd-fynd â nodau llesiant Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac ymrwymiad yr Awdurdod i greu Gogledd Cymru sy'n gynaliadwy am genedlaethau i ddod. Mae amcanion corfforaethol uchelgeisiol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant pobl a chymunedau; gan gyfrannu at amgylchedd glanach; a mwy o ymwybyddiaeth o'r hinsawdd. Bydd datblygu Strategaeth Amgylcheddol yn sail i'n gwaith i gyflawni hyn. Mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar geisio cael dulliau cyfathrebu effeithiol a chysylltedd â phobl yn y gymuned, partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn cynyddu amlygrwydd a chydnerthedd.

DRAFT

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei sefydlu fel rhan o'r broses o ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.

Yr Awdurdod yw'r corff sy'n atebol i'r cyhoedd ac sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân sicrhau bod personél, gwasanaethau ac offer yn cael eu darparu sy'n bodloni'r holl ofynion arferol yn effeithlon a sicrhau y darperir hyfforddiant ar gyfer personél o'r fath mewn perthynas â diffodd tân.

Cyfrifoldeb y Prif Swyddog Tân yw darparu'r gwasanaethau hyn a darparu cyngor proffesiynol i ATAGC. Mae'r Awdurdod Tân yn rheoli ei gyfrifoldeb trwy Gyfarfodydd Awdurdod Tân llawn a dau bwyllgor, y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod ATAGC yn rhedeg yn iawn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ATAGC ar ein gwefan.

DRAFT

Fel pob corff yn y sector cyhoeddus, rhaid i'r Awdurdod weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys:

Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;

Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017; Deddf Argyfyngau Sifil 2004;

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; Deddf Cydraddoldeb 2010;

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig 2018;


Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cenhadaeth yr Awdurdod yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. I gefnogi'r genhadaeth hon, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio i ostwng nifer y tanau mewn cartrefi a marwolaethau o dân ledled y rhanbarth drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr, a bydd yn ymchwilio ac yn dadansoddi gwybodaeth i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob math o dân a pheryglon eraill.

Bydd yr Awdurdod yn parhau hefyd i hybu addysg a gweithio ar y cyd â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle cyfartal yn flaenoriaeth sylfaenol, ac mae'r Awdurdod yn ceisio cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai ei chael yn anodd cael cyflogaeth tra hefyd yn hybu tegwch a chynhwysiant yn y gweithle. Gellir gweld ei werthoedd craidd yn y darlun isod.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth a'r Awdurdod drwy fynd i

[wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru]



## Amdanom ni

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn helpu i ddiogelu poblogaeth amcangyfrifedig o 687,098 o bobl yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Mae ardal y Gwasanaeth oddeutu 6,150 cilometr sgwâr, yn amrywio o ardaloedd gwledig llai poblog, i ardaloedd trefol â mwy o drigolion; mae hyn yn cynnwys rhwydwaith ffyrdd o 35,119 cilometr ac arfordir sy'n mesur 400 cilometr.

| Arwynebedd (Km²) | Poblogaeth | Anheddau | Eiddo Annomestig | Hyd Ffyrdd (Km) | Ardaloedd Awdurdodau Lleol |
|---|---|---|---|---|---|
| KM² |  |  |  |  | Ynys Môn<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Gwynedd<br>Wrecsam |
| **6,150** | **687,098** | **329,382** | **33,606** | **35,119** | **42.25%** |

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tua 898 o staff mewn rolau gwasanaeth gweithredol a chorfforaethol. Mae 44 o orsafoedd tân ar draws ardal Gogledd Cymru sy'n gartref i amrywiaeth o gerbydau brys ac offer arbenigol, sy'n helpu i gefnogi ein diffoddwyr tân gweithredol mewn digwyddiadau.

| Diffoddwyr Tân Llawn Amser | Diffoddwyr Tân Ar-Alwad | Staff Rheoli | Staff Gwasanaethau Corfforaethol | Nifer y Gorsafoedd Tân | Peiriannau Argyfwng |
|---|---|---|---|---|---|
| **281** | **446** | **30** | **141** | **44** | 54 Peiriant Tân<br>3 Peiriant Ysgol ac Esgynlawr<br>30 o Beiriannau Gweithredol Eraill |
| Yn ôl Cyfrif Pen | Yn ôl Cyfrif Pen | Yn ôl Cyfrif Pen | Yn ôl Cyfrif Pen | | |

*ar 2 Mawrth 2023*

DRAFT

# Diogelu, Atal, Ymateb

Fel gwasanaeth brys rydym ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i ddigwyddiadau brys.

## Ymateb

Mae ein gweithredwyr Ystafell Reoli wedi'u hyfforddi'n drylwyr i gymryd manylion eich galwad frys.







Oeddech chi'n gwybod ein bod ni yn ystod 2022-23 wedi:

- delio â **XX,XXX** o alwadau brys;
- mynychu **X,XXX** o ddigwyddiadau brys, ac o'r rhain;
- roedd **XXX** yn gysylltiedig â thân;
- roedd **XXX** yn achosion brys nad oedd yn gysylltiedig â thân, a;
- roedd **XXX** yn amlwg yn alwadau diangen pan gyrhaeddwyd atynt;
- mynychu **XXX** o danau damweiniol mewn cartrefi;
- helpu i ddiffodd **XXX** o danau yn yr awyr agored.

## Atal

Mae ein timau diogelwch tân ymroddedig yn gweithio mewn cymunedau preswyl i hyrwyddo diogelwch tân.





Oeddech chi'n gwybod ein bod ni yn ystod 2022-23 wedi:

- cwblhau **XX,XXX** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o'r rhain;
- roedd **XXX%** wedi'u hatgyfeirio gan bartner asiantaeth;
- nodwyd bod **XXX** yn achosion risg uchel;
- darparu **X,XXX** o sgyrsiau mewn ysgolion i blant a phobl ifanc;
- helpu i chwilio am **XXX** o bobl wedi mynd ar goll y nodwyd eu bod yn risg uchel.

## Diogelu

Mae ein staff diogelwch tân busnesau arbenigol yn sicrhau bod rheoliadau cyfreithiol yn cael eu bodloni.




Oeddech chi'n gwybod ein bod ni yn ystod 2022-23 wedi:

- cwblhau **XX,XXX** o archwiliadau diogelwch tân ar safleoedd busnes;
- cyflwyno cyfanswm o **XX** o hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau gwahardd a rhybuddion ffurfiol;
- llwyddo i gael **X** erlyniad;
- gweithio'n agos â ffermwyr a thirfeddianwyr i reoli gwaith llosgi dan reolaeth a lleihau galwadau i'r Ystafell Reoli.


DRAFT


# Ein Cyllideb ar gyfer 2023-24

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian ar draws yr holl wasanaethau a ddarparwn gyda chyllid a godir gan yr awdurdodau lleol a wasanaethwn: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam, Ynys Môn.

Mae cyfanswm y gyllideb o £43,314,000 yn cynnwys incwm ychwanegol o £2,024,000 o grantiau a ffioedd, sydd heb ei gymryd i ystyriaeth ar gyfer y gwariant arfaethedig a ddangosir isod.

Bydd bron i dri chwarter y gyllideb yn cael ei gwario ar gostau cyflogau gweithwyr a chostau gweithwyr eraill.




Cyfran costau tâl gweithwyr a ddangosir fesul adran (nid yw hyn yn cynnwys 'costau gweithwyr eraill').

## Yn costio £63.04 y flwyddyn
**(fesul pen o'r boblogaeth)**

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Fframwaith Tân Cenedlaethol


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhestru saith nod llesiant ar gyfer Cymru gyfan, a gellir eu gweld yn y ffigwr isod. Bwriad y nodau hyn yw hyrwyddo ymdeimlad o bwrpas cyffredin, ac annog pobl a sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i helpu i gyflawni'r nodau er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd ar wefan swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi gwybodaeth i helpu cyrff cyhoeddus i ddatblygu eu 'teithiau' tuag at wella llesiant pobl yng Nghymru. Mae'r diogelwyr taith yn cynnwys enghreifftiau a chamau ymarferol y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio i ddatblygu eu hamcanion llesiant eu hunain. Mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r diogelwyr taith i fapio ei saith amcan llesiant yn ôl nodau llesiant cenedlaethol Cymru, gan helpu i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gynaliadwy. Hefyd, wrth osod ei amcanion, mae'r Awdurdod wedi ystyried y Fframwaith Tân Cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ystyried y canlynol:

- Atebolrwydd cyhoeddus;
  - Darparu esboniad clir o hyd a lled y gwaith (e.e. diffodd tanau, diogelwch tân, ayyb) a chost a maint cymharol pob un;
  - Amcanion y gwasanaeth, y cynnydd a wnaed wrth eu cyflawni, ac unrhyw gyfyngiadau ar gynnydd pellach.

- Cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir;
  - Ystyried y negeseuon a amlinellir yn y Fframwaith Tân Cenedlaethol;
  - Deall y proffiliau risg amrywiol sydd gan gymunedau;
  - Ystyriaeth i heriau ariannol parhaus;
  - Cyfrannu at y nodau llesiant;
  - Deall meysydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn ehangach mewn cymunedau;
  - Ystyriaeth i farn dinasyddion, yn seiliedig ar ymgysylltu'n deg a chytbwys.

- Cysylltiadau clir a thryloyw gyda chynlluniau gwella;
  - Darparu adroddiadau agored ar berfformiad, gan gynnwys adrodd ynghylch asesiadau cymheiriaid ac adroddiadau'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub.




DRAFT

# Mesur Gwelliant

Cyflwynodd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 dri dangosydd perfformiad statudol.

| **DANGOSYDDION STATUDOL:** | **2020-21** | | **2021-22** | | **2022-23** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Cyfradd** | **Nifer** | **Cyfradd** | **Nifer** | **Cyfradd** |
| Tanau yr aethpwyd atynt | 1,770 | 25.34 | 1,879 | 26.70 | X,XXX | XX.XX |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,314 | 33.13 | 2,517 | 35.79 | X,XXX | XX.XX |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 105 | 1.50 | 207 | 2.94 | X,XXX | XX.XX |
| Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt | 509 | 7.29 | 751 | 10.68 | X,XXX | XX.XX |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar boblogaeth o 10,000 | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaethau ac anafiadau tân | 50 | 7.11 | 58 | 8.25 | X,XXX | XX.XX |
| Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a gychwynnwyd yn ddamweiniol | 47 | 6.68 | 50 | 7.11 | X,XXX | XX.XX |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar boblogaeth o 100,000 | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau mewn anheddau wedi'u cyfyngu i ystafell tarddiad y tân | 339 | 87.60 | 375 | 87.62 | X,XXX | XX.XX |
| Fel canran o nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | | | | | | |

Gan ddefnyddio’r ffigurau poblogaeth, rydym yn gallu trosi rhif y digwyddiad yn ffigwr ‘cyfradd’, sy’n ein galluogi i gymharu ein perfformiad yn erbyn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill.

Gall cymharu ag eraill helpu i nodi meysydd lle’r ydym yn perfformio’n arbennig o dda a meysydd y gallem eu gwella o bosibl. Serch hynny, rydym yn ofalus i ddefnyddio cymariaethau fel canllaw yn unig, oherwydd gall ffactorau lleol megis nodweddion gwledig a threfol ardal, ei phroffil demograffig a hyd yn oed y tywydd effeithio ar ein gweithgaredd o flwyddyn i flwyddyn.

DRAFT

# Datganiad Llesiant

Rhaid i'r Awdurdod "ddatblygu'n gynaliadwy" er mwyn cynorthwyo i sicrhau'r gwelliant hwnnw ym mhoblogaeth Cymru ar gyfer y dyfodol. Cafodd yr amcanion sydd yn y cynllun hwn eu datblygu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a'u dyfeisio yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda phenaethiaid adrannau a gweithdai gyda'r Aelodau.

Datblygwyd yr amcanion hefyd yn unol â'r "**pum ffordd o weithio**" a argymhellir, fel y diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Edrych i'r tymor hir fel nad yw'r hyn sy'n digwydd nawr ddim yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr heriau hirdymor sy'n wynebu Gogledd Cymru, sy'n cynnwys y newidiadau demograffig a ragwelir sef poblogaeth sy'n heneiddio ac yn cynyddu, a'r cyfyngiadau ariannol y disgwylir y byddant yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus.

- Mae'r Awdurdod wedi cadw'r gwaith ataliol yn ganolog, gan gydnabod bod atal tanau a sefyllfaoedd peryglus eraill rhag digwydd yn gwneud mwy o synnwyr nag ymateb yn unig, ac y gallent helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion.

- Gan ddilyn dull integredig, ystyried sut gallai ei amcanion llesiant ei hun effeithio ar ei gilydd ac ar y gwaith o gyflawni nodau llesiant Cymru.

- Cofio'r amrywiaeth gyfoethog o bobl sydd yng Ngogledd Cymru, a'u hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori'n eang ac wedi ceisio barn y cyhoedd a chynrychiolwyr grwpiau penodol wrth benderfynu ar ei amcanion.

- Gweithio'n gydweithredol ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion, ac fel arall, i helpu eraill i gyflawni eu hamcanion nhw. Mae'r Awdurdod wedi parhau i feithrin perthnasoedd gwaith rhagweithiol â chymunedau ac amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynllunio a chydweithredu ar wahanol lefelau a thrwy wahanol fforymau.


# Amcanion Corfforaethol

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol 2021-24 lle nododd ei saith amcan gwella a llesiant. Ym mis Hydref 2022, cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i barhau i fynd ymlaen â'r un amcanion yn 2023-24.

Wrth ddatblygu'r cynllun ar gyfer 2023-24, fe wnaethom unwaith eto ystyried effaith dylanwadau eraill megis newid yn yr hinsawdd, seilwaith cenedlaethol, poblogaeth a demograffeg a sut y gallwn weithio gyda'n partneriaid i gyflawni ein cynlluniau. Buom yn ystyried amcanion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), lle'r ydym yn aelodau statudol ac yr ydym yn gweithio ar y cyd â hwy i sicrhau gwelliannau o ran rhagolygon cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r gofynion a'r disgwyliadau ar y Gwasanaethau Tân ac Achub yn esblygu felly rydym hefyd wedi edrych i gwmpasu argymhellion sy'n codi o Ymchwiliadau Cyhoeddus i ddigwyddiadau megis Tân Twr Grenfell 2017, Bom Arena Manceinion 2017 a COVID-19 a sicrhau ein cydnerthedd ar gyfer digwyddiadau eraill nas rhagwelwyd a allai effeithio ar y cyflawni neu ar ein cynlluniau.

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn a'r hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni cynnydd yn 2023-2024 yn erbyn yr amcanion hyn.




DRAFT

# Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Gweithio ar y Cyd | Hirdymor |

Byddwn yn atal, ac yn amddiffyn rhag, argyfyngau er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ein gweithgareddau ataliol wedi bod yn hynod ddylanwadol o ran lleihau nifer yr achosion brys yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tuedd yr ydym yn awyddus i'w chynnal a'i gwella. Un o'r prif ysgogwyr ar gyfer ein rhaglen ymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth rydym yn ei chael oddi wrth sefydliadau eraill ac yn ei rhannu, sy'n ein galluogi i ddatblygu ymgyrchoedd penodol yn seiliedig ar dystiolaeth ystadegol.

Rhai o'r pethau rydym wedi'u cyflawni:

- cynnal xx o archwiliadau diogel ac iach gyda xx o'r rheini yn cael eu cynnal mewn cartrefi a gafodd eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall;
- gwreiddio arferion diogelu yn y gweithgareddau o ddydd i ddydd, a sicrhau bod y rhain yn gyson â pholisïau a chyfarwyddyd cenedlaethol;
- parhau i ddatblygu a chynnal ymyriadau a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithgareddau wedi'u targedu;
- gweithio â sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed;
- rhoi'r datblygiadau a'r uwchraddiadau technolegol diweddaraf ar waith i wella effeithlonrwydd, cywirdeb a diogelwch;

DRAFT

Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- cynnal 17,500 o archwiliadau diogel ac iach gydag o leiaf 25% o'r rheini yn cael eu cynnal mewn cartrefi a gafodd eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall;
- ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth a chymorth cyfathrebu digidol gan gynnwys Safonau Seiberddiogelwch ac Achredu;
- bwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddiant a datblygu trochol newydd i gynnig ystod ehangach o senarios hyfforddi a chyflwyno gwelliannau mewn hyfforddiant;
- parhau i gynnal archwiliadau diogelwch tân yn seiliedig ar y rhaglen arolygu ar sail risg;
- parhau i greu gweithle cynhwysol sy'n galluogi'r holl staff i berfformio hyd eithaf eu gallu a chwrdd ag anghenion amrywiol ein cymunedau;
- gwella iechyd, ffitrwydd a lles staff trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, monitro gweithredol ac addysg.



# Amcan 2: Parhau i weithio’n gydweithredol i gynorthwyo cymunedau i gynyddu eu cydnerthedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy’n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Gweithio ar y Cyd | |

Mae dull yr Awdurdod o atal ac o ddarparu cyngor, addysg ac ymyriadau diogelwch tân wedi cyfrannu at leihad yn nifer a difrifoldeb y digwyddiadau brys yr aethpwyd atynt ar draws Gogledd Cymru. Mae'r dull hwn yn cynnwys gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni. Mae atal tanau ac ymateb yn gyflym i argyfyngau yn helpu i osgoi neu leihau’r gost ddynol, colledion yswiriedig a heb yswiriant, cost atgyweiriadau a chynhyrchiant a gollwyd, a gwneud ardal yn llai deniadol i fewnfuddsoddi.

Gall gwella diogelwch preswylwyr a busnesau drwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyrraeth, yn ogystal â nodi cyfleoedd i leihau troseddu, megis cynnau tanau’n fwriadol ddod â manteision economaidd i unigolion, cymunedau a busnesau.

Rhai o’r pethau rydym eisoes wedi’u cyflawni:

- gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr/porwyr, i ganfod lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd â mwy o risg o danau awyr agored/glaswelltir, ac i helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys;
- cynnal adolygiad o'n hymateb i danau yn yr awyr agored, gan gynnwys lles criwiau;
- parhau i feithrin perthynas â phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys (JESG), a grwpiau llifogydd mewndirol ac achub o ddŵr er mwyn gwella cyd-alluoedd yr asiantaethau i helpu pobl y mae llifogydd yn effeithio arnynt;
- gweithio’n gydweithredol â chymunedau sydd â diffoddwyr tân ar-alwad i wella cydnerthedd y gofal tân yn eu hardaloedd.

Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella rhagor ar y dulliau cyfathrebu ac integreiddio â phartneriaid;
- parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo gweithgareddau a dysgu;
- gweithio ar y cyd â'n partneriaid a'n cymunedau i ddatblygu cynlluniau i leihau tanau yn yr awyr agored ac argyfyngau sy'n ymwneud â'r hinsawdd ac ymateb iddynt;
- gweithredu argymhellion o'n hadolygiad tanau yn yr awyr agored.



DRAFT

# Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru gydnerth | |
| Gweithio ar y Cyd | Hirdymor | Dull Integredig | |

O ystyried yr ansicrwydd ariannol a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf.

Mae'r pwysau ar y gwasanaethau tân ac achub felly yn debygol o ddod o sawl maes gan gynnwys, recriwtio a chadw diffoddwyr tân gweithredol a'r potensial i ehangu rôl diffoddwr tân. Bydd rhesymoli costau'r Awdurdod a rheoli cyllideb fantoledig dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn helpu i gynnal gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy gwydn i newidiadau demograffig a newidiadau eraill.

DRAFT

Rhai o'r pethau rydym eisoes wedi'u cyflawni:

- ailintegreiddio gwasanaethau ariannol a oedd yn arfer bod ar gontract allanol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- datblygu system effeithiol i reoli asedau, sydd o blaid dyrannu adnoddau yn y modd gorau posibl;
- adeiladu ar y mesurau cyfredol i fonitro perfformiad gweithredol gan griwiau tân cyn, yn ystod, ac ar ôl digwyddiadau;
- cynnal adolygiad i brofiadau staff a gyflogir o dan y System RDS (diffoddwyr tân ar-alwad);
- cynnal adolygiad o drefniadau darparu hyfforddiant a datblygiad, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol i gefnogi anghenion diffoddwyr tân ar-alwad.

Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- cwblhau'r adolygiad ymateb brys ac yn ymgynghori ar y canlyniadau gyda rhanddeiliaid perthnasol cyn rhoi argymhellion ar waith;
- mabwysiadu Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar gyfer Ystafelloedd Rheoli fel rhan o adolygiad o'n trefniadau staffio yn yr Ystafell Reoli a sgiliau'r gweithlu gyda'r nod o wella ein cydnerthedd;
- cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau'r adolygiad o brofiadau staff a gyflogir o dan y System RDS (diffoddwyr tân ar-alwad);
- mireinio prosesau pensiynau a chyflogres a gweithredu modiwlau cyllideb.



# Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy’n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru gydnerth |
| Atal | Gweithio ar y Cyd | Hirdymor | Dull Integredig |

Mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i wella’r ffordd y mae’n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl ynglŷn â’r gwasanaethau a ddarperir ganddo, ac er ei fod yn cyrraedd mwy o bobl, mae’n cydnabod bod modd gwella hyn bob amser.

Mae deall cymunedau, gwrando arnynt a’u cynrychioli yn rhan hollbwysig o waith yr Awdurdod. Mae cymdeithas yn newid felly mae angen newid y ffordd o gyfathrebu â phobl er mwyn sicrhau bod negeseuon yr Awdurdod yn cyrraedd pawb, gan gynnwys grwpiau a chymunedau sy’n cael eu tangynrychioli.

Rhai o’r pethau rydym eisoes wedi’u cyflawni:

- ymgysylltu â chyflogwyr lleol, cymunedau a’r rhai y mae tân ac argyfyngau eraill yn effeithio’n uniongyrchol arnynt er mwyn datblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd ataliol;
- hybu ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod y meysydd sydd â’r risgiau mwyaf yn cael eu blaenoriaethu, er enghraifft, tanau a achosir drwy goginio;
- sicrhau bod y cytundebau rhannu gwybodaeth presennol yn gyfoes, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo hynny’n briodol;
- parhau i adrodd ar gynnydd canfyddiadau arolwg iechyd a llesiant o’r holl staff, a hyrwyddo gweithgareddau ymhob rhan o’r Gwasanaeth;
- gwella’r adrodd ynghylch y defnydd o ynni, i leihau carbon, gan gynnwys datblygu cronfa ‘Buddsoddi i Arbed’ ar gyfer prosiectau lleihau carbon yn y dyfodol.

DRAFT

Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- caffael a gosod offer storio i leihau lledaeniad halogyddion tân;
- gweithredu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru Gyfan;
- parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ac adolygu'r arolwg staff teulu tân;
- parhau i ddarparu ymyriadau a rhaglenni/gweithgareddau Plant a Phobl Ifanc;
- cyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2023 gan yr holl bartneriaid strategol ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Ddiogelach.



# Amcan 5: Cynnal gweithlu sy'n addas o gydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru gydnerth |
| Atal | Gweithio ar y Cyd | Hirdymor | Dull Integredig |

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn bwysig denu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth sy'n bodoli yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Ni ellir gorbwysleisio hyn, felly mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i ddiwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod; sef ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant; awydd i geisio rhagori; amddiffyn cymunedau a chydnabod pa mor werthfawr yw ei bobl.

Drwy Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Pobl a Threfniadaeth, bydd yr Awdurdod yn cefnogi ffyrdd newydd o ddefnyddio sgiliau a phroffesiynoldeb y gweithlu.

DRAFT

## Rhai o'r pethau rydym eisoes wedi'u cyflawni:

- datblygu arferion cyflogaeth sy'n cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai, fel arall, ei chael yn anodd cael gwaith, a blaenoriaethu camau gweithredu i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- mabwysiadu modelau gweithio ystwyth a hyblyg, a fydd yn cyfrannu at gymdeithas carbon isel drwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio ar gyfer gwaith;
- parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth yn y Gwasanaeth;
- cyfrannu at 'Strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Pobl a Threfniadaeth';
- gwella ffyrdd o gefnogi staff i fod yn arweinwyr y dyfodol;
- cyflwyno strwythur newydd i gynyddu nifer y staff yn ein cymunedau.

## Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- parhau i ganolbwyntio ar recriwtio, datblygu a chadw gweithlu hynod fedrus, brwdfrydig a dwyieithog;
- parhau i weithio tuag at adnewyddu ardystiad y Wobr Iechyd Corfforaethol Platinwm;
- datblygu proses adnabod a rheoli talent i ddisodli'r rhaglen datblygiad proffesiynol bresennol;
- dechrau Blwyddyn 1 y Strategaeth Hyfforddi Gweithredol 3 blynedd;
- adolygu ac ymateb yn briodol i argymhellion Adolygiadau Thematig Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru.



# Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau’r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy’n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru gydnerth |
| Atal | Gweithio ar y Cyd | Hirdymor | Dull Integredig |

Yn 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan ei huchelgais i sicrhau sector cyhoeddus sy’n garbon niwtral erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth gyhoeddi Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy’n ceisio cefnogi’r sector cyhoeddus i bennu man cychwyn, monitro ac adrodd ynghylch cynnydd i gyfeiriad carbon-niwtraliaeth.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo rôl bwysig yn amddiffyn yr amgylchedd ac yn lleihau ei effaith ar yr amgylchedd. Mae wedi ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol, ac i ystyried hynny ym mhob maes o'i waith o atal tân i dechnoleg ecogyfeillgar.

Mae’r Awdurdod yn ymwybodol hefyd o’i swyddogaeth yn helpu pobl Gogledd Cymru i ddeall effaith y tywydd a’r newid hinsawdd, a’r heriau a ddaw gyda hynny. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo swyddogaeth arweinyddol ei hun o ran ei weithrediadau ei hun, gan gynnwys y modd mae’n defnyddio adnoddau, wrth iddo gyflawni ei weithgareddau mewn modd sy'n helpu i gynnal y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

DRAFT

Rhai o’r pethau rydym eisoes wedi’u cyflawni:

- sefydlu Bwrdd Strategol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod;
- canfod ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd a’u rhoi ar waith;
- gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru i ddeall newid hinsawdd o safbwynt rhanbarthol;
- gweithio gyda thirfeddianwyr i ostwng nifer yr achosion o danau yn yr awyr agored, a’u hannog i roi gwybod am losgi dan reolaeth.

Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- cefnogi gyda’r gwaith o gyflwyno Strategaeth Amgylcheddol 2022-2030;
- parhau i ddatblygu ein gwaith monitro ac adrodd ar y defnydd o ynni ac allyriadau carbon;
- datblygu adroddiadau ar nwyon tŷ gwydr yn unol â threfniadau adrodd carbon Llywodraeth Cymru.



# Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru lewyrchus | Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Cymru gydnerth |
| Atal | Gweithio ar y Cyd | Hirdymor | Dull Integredig |

Mae gwerth cymdeithasol yn derm a ddefnyddir wrth ddisgrifio'r buddion cymharol i bobl a chymunedau yn sgil dewis rhai camau gweithredu neu gyflwyno newidiadau. Mae ychwanegu gwerth cymdeithasol yn golygu ystyried a oes modd i'r hyn sy'n cael ei gynnig gael ei wneud yn wahanol er mwyn gwella bywydau pobl.

Mae'r Awdurdod eisoes yn gwneud nifer o weithgareddau sy'n gwneud mwy na dim ond cyflawni'r dyletswyddau statudol sy'n ofynnol.

Mae sawl ffordd o ychwanegu gwerth cymdeithasol. Mae'n golygu sicrhau bod yr Awdurdod, wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, yn ystyried mwy na'r gost yn unig. Mae angen ystyried yr agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ochr yn ochr ag ystyriaethau gwerth am arian yn ystod prosesau tendro. Drwy wreiddio gwerth cymdeithasol yn ei brosesau caffael, gall yr Awdurdod sicrhau budd cymdeithasol am yr arian mae'n ei wario.

Rhai o'r pethau rydym eisoes wedi'u cyflawni:

- sicrhau bod y gwaith o gaffael cyfarpar gweithredol newydd yn cynnwys ystyried sut i waredu ar 'ddiwedd oes';
- sicrhau bod fframweithiau caffael a chontractau yn mesur gwerth cymdeithasol;
- hybu gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd o fewn y Gwasanaeth.

Yn ystod 2023-2024 byddwn yn:

- cynnal adolygiad caffael yn dilyn penodi rheolwr caffael newydd;
- parhau â'n rhaglen adeiladu i ddisodli tyrau hyfforddi gyda gosodiadau twr dur newydd;
- parhau i ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach i gymunedau Gogledd Cymru;
- adolygu ein trefniadau rheoli iechyd a phresenoldeb.



DRAFT

## Dweud eich Dweud:

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn ein helpu i wneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflwyno ein gweithgareddau a rhoi gwybodaeth i chi.

| | |
|---|---|
| Ysgrifennwch atom: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| Rhowch alwad: | 01745 535250 |
| Gyrrwch e-bost atom: | corporateplanning.Helpdesk@tangogleddcymru.llyw.cymru |
| trwy ein gwefan: | www.tangogleddcymru.llyw.cymru |
| Neu dilynwch ni ar: | Twitter<br>@northwalesfire<br><br>Facebook<br>ww.facebook.com/northwalesfireservice |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg – byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.

DRAFT

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Cynlluniau Llesiant drafft y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Ngogledd Cymru i'r Aelodau i'w cymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn bartner statudol ar bob un o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

3 Mewn ymateb i'w ddyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob bwrdd gynnal asesiad llesiant a chyhoeddi cynllun llesiant lleol blynyddol. Mae pob cynllun yn nodi sut y bydd aelodau'r BGC yn bodloni eu cyfrifoldebau.

4 Ynghlwm wrth y papur eglurhaol hwn mae'r tri chynllun drafft a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod gymeradwyo pob cynllun.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL NEU BWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Panel Gweithredol ar 20 Mawrth 2023. Nododd aelodau'r panel debygrwydd dyheadau pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac argymhellwyd y dylid eu cymeradwyo.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau

i. sylwi ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a
ii. chymeradwyo'r tri chynllun llesiant yn rhinwedd eu rôl fel yr Awdurdod Tân ac Achub.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynlluniau llesiant ymhlith gofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Rhaid i unrhyw weithgaredd cefnogi gael ei gyfyngu i gyllidebau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru y cytunwyd arnynt. |
| Cyfreithiol | Fel partner statudol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddyletswydd gyfreithiol i gymeradwyo'r cynlluniau llesiant hyn. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae triniaeth gyfartal o ran cyflog yn rhan bwysig o amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod. |
| Risgiau | Mae diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yn arwain at risg cyfreithiol a risg i enw da. |

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

# CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN 2023-2028

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| **1** | **Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| **2** | **Cefndir i'r Cynllun Llesiant** |
| **3** | **Yr Asesiadau Llesiant Lleol** |
| **4** | **Ein Hamcanion Llesiant** |
| **5** | **Sut wnaethom ddatblygu'r Amcanion Llesiant** |
| **6** | **Y camau nesaf** |
| **Atodiad 1:** | **Prif negeseuon o'r Asesiadau Llesiant 2022** |
| **Atodiad 2:** | **Sut byddwn yn gweithredu i'r dyfodol (y pum ffordd o weithio)** |
| **Atodiad 3:** | **Sut byddwn yn cyrraedd y saith nod llesiant** |


## 1. Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

**Mae gennym weledigaeth i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymunedau yn ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor.** Nod y Cynllun Llesiant yw amlinellu sut yr ydym am gyflawni hyn a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Gwynedd a Môn.  Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus byddwn yn cydweithio i gyflawni uchelgais cyffredin ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Bydd y sefydliadau unigol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Mae ymgysylltu gyda chymunedau yn greiddiol i lwyddiant y cynllun, ac mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ddarparu arweiniad clir er mwyn cyrraedd ei amcanion.

Mae gennym gymunedau cryf a balch gyda thraddodiad o helpu'n gilydd a chydweithio. Bydd rôl y cymunedau hyn yn ganolog wrth gyflawni'r amcanion llesiant sydd wedi eu nodi yn y cynllun hwn.

Dylai'r amcanion a'r camau i'w cyflawni, ar ôl eu cwblhau, gysylltu a chefnogi ei gilydd oherwydd natur drawsbynciol yr amcanion. Dylai pob aelod o'r BGC allu chwarae eu rhan yn llawn wrth gyflawni'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y cynllun.

Ers i ni ddechrau edrych ar yr hyn y gallem ei wneud i wella lles yng Ngwynedd a Môn, mae'r rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw wedi gwneud bywydau pobl hyd yn oed yn anoddach. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cymunedau wrth weithredu'r cynllun llesiant dros y pum mlynedd nesaf.

**Aled Jones-Griffiths**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**

## 2. Cefndir i'r Cynllun Llesiant

Yn 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfraith newydd yng Nghymru o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Digwyddodd hyn yn dilyn sgyrsiau gyda miloedd lawer o bobl ledled Cymru am y "Cymru yr ydym ei eisiau".

Mae'r gyfraith hon yn rhoi dinasyddion Cymru yng nghanol pob peth y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i wella Cymru yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol, ac mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei chalon. Golyga hyn fod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gwella lles pobl heddiw heb wneud unrhyw beth a allai wneud pethau'n waeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn; mewn geiriau eraill, ein teuluoedd, ifanc a hen, a'n ffrindiau a'n cymdogion i gyd.

Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Mae hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn well am wneud penderfyniadau drwy osod dyletswydd ar sefydliadau i feddwl am y tymor hir, i gydweithio ac i ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.

Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio wedi eu cynllunio i gefnogi cyrff cyhoeddus i gwrdd ag anghenion presennol eu cymunedau, a sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol. Dyma'r saith nod llesiant cenedlaethol:




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus unigol weithredu'n gynaliadwy a defnyddio'r pum ffordd ganlynol o weithio:

**Atal** **Hirdymor** **Cynnwys** **Integreiddio** **Cydweithio**



Yn ogystal â'r disgwyliad i weld pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio yn y modd hwn, mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi penderfynu cydweithio fel un Bwrdd ar y cyd er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus ar draws yr ardal yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl Gwynedd a Môn.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant ein hardal a chreu Cynllun Llesiant gyda'r nod o gydweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl a chymunedau yn ein hardal ni.

**Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn:**

Pum aelod statudol y Bwrdd yw:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Aelodau gwahoddedig y Bwrdd yw:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Prifysgol Bangor
- Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cymru

Mae cyfle i wahodd cyrff / mudiadau / sefydliadau / partneriaid eraill i eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn pan fydd amcanion a chamau gweithredu penodol yn dod i'r amlwg.

# 3. Yr Asesiadau Llesiant Lleol

Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech ar Ynys Môn.  Mae'r wybodaeth yn dod â data lleol, negeseuon o waith ymgysylltu â chymunedau a gwaith ymchwil cenedlaethol ynghyd. Mae'r Llyfrynnau Gwybodaeth ar gyfer pob ardal ar gael ar ein gwefan.  [www.llesiantgwyneddamon.org/cy](www.llesiantgwyneddamon.org/cy)

Man cychwyn yn unig oedd yr asesiad – braslun o lesiant yr ardal oedd yn mynd law yn llaw â'r llyfrynnau ardal er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Gwynedd a Môn yn well. Wedi ystyried y data a barn pobl leol, daeth y Bwrdd i'r casgliad mai dyma yw'r materion sy'n bwysig i drigolion Gwynedd a Môn:

- Ymateb i dlodi a chostau byw
- Gwella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella iechyd a lles meddyliol
- Newid hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau net sero
- Hybu defnydd o'r iaith Gymraeg
- Galluogi profiad cyfartal a mynediad i natur
- Cynllunio gweithlu i'r dyfodol sy'n ateb anghenion y gymuned a'r economi leol
- Sicrhau tai i bobl leol
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus

Gwelwch **Atodiad 1** am fanylion pellach ar y prif negeseuon a gasglwyd o'r Asesiadau Llesiant.

## 4. Ein Hamcanion Llesiant:

Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant, mae'r Bwrdd wedi adnabod **tri Amcan Llesiant**:

- Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i ddiogelu a gwella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.

Mae'r **iaith Gymraeg** yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Rydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg. Enghraifft dda o hyn ydi'r gwaith sydd wedi ei gwblhau gan yr Is-grŵp Iaith i ysgogi a grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â sefydliadau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ysgogi siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgil allweddol. Mae gweithrediadau penodol i'r Gymraeg o dan bob amcan isod.

Ar gyfer y tri amcan, mae'r tablau isod yn darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â pham y cawsant eu dewis, pa gamau yr ydym yn ystyried eu cymryd i'w cyflawni a sut maent yn cyfrannu at bob un o'r Nodau Llesiant.

| **Amcan Llesiant 1: Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau** |
|---|
| **Uchelgais:**<br>Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hirdymor tlodi. Byddwn yn ceisio cael dealltwriaeth fanwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Asesiadau Llesiant i gael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi. |
| **Be fyddwn yn ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:**<br>• Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i optimeiddio'r defnydd o ddata sydd ar gael er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o oblygiadau byw mewn tlodi yn ein cymunedau. Dylai hyn gynnwys:<br>  ○ Deall y grwpiau yn y boblogaeth a'r ardaloedd daearyddol sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dlodi a'r mecanweithiau y mae hyn yn digwydd drwyddo<br>  ○ Mapio allan gwasanaethau cymorth sydd ar gael rŵan i fynd i'r afael â thlodi ar draws y ddwy sir<br>  ○ Cynnal dadansoddiad o'r bylchau a nodi cyfranogwyr i gefnogi datrysiadau cyffredinol a datrysiadau wedi'u targedu<br>• Byddwn yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngwynedd a Môn gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid. |

| |
|---|
| • Byddwn yn gweithredu caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, er budd y gadwyn gyflenwi leol a hyrwyddo economi gylchol yn lleol.<br>• Byddwn yn cynnig swyddi amrywiol, o safon, gyda chyflogau da sydd yn rhan allweddol o gadw pobl yn eu cymunedau, ac o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal yr iaith Gymraeg.<br>• Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngwynedd a Môn gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.<br>• Byddwn yn cefnogi cynhwysiant digidol ac yn hyrwyddo gwytnwch i droseddu seiber drwy rannu gwybodaeth am sgamiau ar-lein. |
| **Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?**<br>Rydym yn gweithio ar gyfres o ddangosyddion mesuradwy i gyd-fynd â’r cynllun gweithredu manwl ym mis Awst 2023. |

| **Amcan Llesiant 2: Rydym am weithio gyda’n gilydd i ddiogelu a gwella lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial** |
|---|
| **Uchelgais:**<br>Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i’r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a’u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac yn annibynnol o fewn eu cymunedau i’r hir dymor. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein plant a’n pobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod ac yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg y partneriaid allweddol i sicrhau’r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc. |
| **Be fyddwn yn ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:**<br>• Byddwn ni'n cwmpasu datblygiad Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ac yn gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â bylchau o ran darparu gwasanaethau a chymorth i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.<br>• Byddwn ni'n hyrwyddo strategaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gynnal pwysau iach.<br>• Byddwn yn gweithredu i drosglwyddo’r iaith Gymraeg o un genhedlaeth i’r nesaf drwy greu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd i ddysgu, clywed a defnyddio’r iaith tu hwnt i giatiau’r ysgol.<br>• Byddwn yn edrych i gefnogi cyfleoedd i bobol ifanc ddatblygu i fod yn arweinwyr y dyfodol.<br>• Byddwn yn ymrwymo i gynlluniau’r Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru sy’n cwmpasu’r gweithgarwch i amddiffyn poblogaeth gogledd Cymru gan gynnwys gwaith penodol i ddiogelu pobl ifanc.<br>• Byddwn yn cefnogi’r Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br>• Byddwn yn gweithio i sicrhau bod plant, pobl ifanc a’u teuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu yn ein gofal, yn wydn ac yn barod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar Sgiliau Gwyrdd a sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y dyfodol.<br>• Byddwn yn sicrhau bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau nad yw’r cymunedau gwledig yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn y Gymraeg. |

- Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli o safon, profiad gwaith a phrentisiaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth yn y system am effeithiau Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma, a'r cyfleoedd i atal amlygiad, lliniaru risgiau a mynd i'r afael a niwed.
- Rydym yn ymrwymo i fod yn Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n Wybodus am Drawma.
- Rydym yn ymrwymo i hyrwyddo'r fframwaith Pum Ffordd i Lesiant ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

**Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?**
Rydym yn gweithio ar gyfres o ddangosyddion mesuradwy i gyd-fynd â'r cynllun gweithredu manwl ym mis Awst 2023.

## Amcan Llesiant 3: Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon

**Uchelgais:**
Byddwn yn cydweithio yn lleol i gefnogi ein cymunedau i leihau allyriadau carbon a cheisio lliniaru effaith newid hinsawdd. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod gwarchod yr amgylchedd naturiol yn rhan amlwg o gyflawni ei flaenoriaethau a bydd yn thema gyffredin sy'n rhedeg ar draws yr holl amcanion llesiant.

**Be fyddwn yn ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:**

- Byddwn yn cynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd Lleol.
- Byddwn yn ceisio cyflawni gweithgaredd datgarboneiddio o fewn ein gwasanaethau a'n cymunedau.
- Byddwn yn cefnogi'r gwaith ar adnabod ein rhwydweithiau ynni lleol.
- Byddwn yn defnyddio ein tirwedd i storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.
- Byddwn yn hyrwyddo a gweithredu Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru.
- Byddwn yn optimeiddio cyfleoedd iechyd gwyrdd trwy bresgripsiwn cymdeithasol.
- Byddwn yn gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog mynediad cyfartal i'n hamgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys mynediad i fannau gwyrdd o gefn gwlad a mannau arfordirol glas.
- Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r buddion a ddaw yn sgil ein hasedau naturiol unigryw a chynyddu ein harlwy twristiaeth gynaliadwy.
- Byddwn yn gweithio gydag ac yn cefnogi cymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol ac yn grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol.
- Byddwn yn cydweithio ar gamau gweithredu yn deillio o *Strategaeth (drafft) Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd*.
- Byddwn yn cydweithio i gynyddu a gwella sgiliau er mwyn cael gweithlu lleol fedr ymateb i'r anghenion i redeg economi werdd.

**Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?**
Rydym yn gweithio ar gyfres o ddangosyddion mesuradwy i gyd-fynd â'r cynllun gweithredu manwl ym mis Awst 2023.

## 5. Sut rydym wedi datblygu'r Amcanion Llesiant:

Wedi ystyried y prif negeseuon a amlygwyd yn yr Asesiadau Llesiant, cynhaliwyd cyfres o weithdai dros Haf 2022 gydag aelodau'r Bwrdd er mwyn canfod barn ynglŷn â pha feysydd i'w blaenoriaethu. Gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, rhoddodd y gweithdai gyfle i aelodau adlewyrchu ar y Cynllun Llesiant blaenorol wrth ystyried y cwestiynau canlynol:

**A. Edrych yn ôl ar Gynllun Llesiant 2017-22:**

- Sut wnaethom ni yn erbyn y ddau amcan/naw thema yn y cynllun blaenorol?
- Beth sydd wedi newid a dylanwadu ar lesiant ein cymunedau yn y pum mlynedd diwethaf?

**B. Edrych ymlaen at Gynllun Llesiant 2023-28:**

- Gan edrych ar yr asesiadau llesiant wedi'u diweddaru ar gyfer 2022, beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y BGC?
- A oes blaenoriaethau lle mae gweithredu eisoes yn digwydd yn effeithiol tu allan i sgôp y BGC?
- Beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod y BGC yn ychwanegu gwerth gyda'i gilydd yn hytrach na gweithio ar wahân?
- Beth fyddai'n sicrhau bod y Cynllun Llesiant newydd yn llwyddiant?

Wrth i'r Bwrdd feddwl am yr amcanion lleol i'r dyfodol dilynwyd argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn dweud

'*Wrth bennu ei amcanion lleol, rhaid i fwrdd hefyd ystyried yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf a baratowyd gan y Comisiynydd. Bydd hwn yn rhoi asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.'*

Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen cydweithio ynddynt er mwyn gwneud gwir wahaniaeth.  Ar ôl dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill maent wedi blaenoriaethu tri maes penodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma.  Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, credwn fod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

## 6. Beth yw'r camau nesaf?

Mae'r Cynllun Llesiant yn ddogfen fyw fydd yn newid a datblygu dros amser. Er ein bod wedi cadarnhau ein hamcanion llesiant a'r hyn fyddwn yn wneud er mwyn gwireddu'r amcanion hynny, amlinelliad sydd yn y cynllun hwn o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud. Bydd gwaith pellach i wneud er mwyn datblygu ein rhaglenni gwaith.

Y cam nesaf fydd llunio rhaglenni gwaith manwl ac adnabod camau gweithredu Tymor Byr, Canolig a Hir ar gyfer yr amcanion llesiant. Bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu a Sgrwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd adroddiad blynyddol ar gynnydd y cynllun hwn yn cael ei baratoi hefyd.

Mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i roi eu barn trwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant, ac mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y Cynllun terfynol.

Er bod y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi dod i ben rydym yn parhau i fod yn awyddus i glywed gennych. Er mwyn gwneud hynny neu dderbyn mwy o wybodaeth am waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ewch i www.llesiantgwyneddamon.org.

post@llesiantgwyneddamon.org

Rhif ffôn: 01766 771000

Gofynnwch am:

Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

## ATODIAD 1 – Prif negeseuon o'r Asesiadau Llesiant 2022:

Mae'r llyfrynnau yn edrych ar lesiant yng nghyd-destun y pedwar prif bennawd yn y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Mae pennawd ychwanegol wedi ei ychwanegu, sef 'Poblogaeth ac Iaith' gan fod y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y thema benodol yma i'r ardal.

**Poblogaeth ac Iaith:**

- Rhagwelir y bydd mwy o bobl dros 75 oed i'r dyfodol sy'n golygu bod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.
- Ystyrir Ynys Môn a Gwynedd yn gadarnleoedd i'r Gymraeg ond gwelwyd gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.
- Mae ein cymunedau yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

**Amgylcheddol:**

- Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Ynys Môn a Gwynedd yn adnodd pwysig. Mae arfordir, llynnoedd ac afonydd, corsydd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant ein trigolion. Mae'n arwain at gymunedau sydd o dan risg uchel o lifogydd, tywydd eithriadol a thirlithriadau ac yn rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.
- Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio. Yn Ynys Môn a Gwynedd ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy'n storio'r carbon sy'n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.
- Mae amaethyddiaeth yn sector bwysig i Fôn a Gwynedd ac mae angen cefnogi ein ffermwyr i ddatblygu ffermio sy'n fwy cynaliadwy er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio.
- Mae cynnal dyfodol gwyrdd yn flaenoriaeth i gymunedau Môn a Gwynedd. Mae sgyrsiau efo trigolion wedi amlygu'r awch am ardaloedd eco-gyfeillgar sy'n gwneud y mwyaf o'u hadnoddau naturiol.

**Cymdeithasol:**

- Mae pryder am lefel gordewdra ymysg plant 4-5 oed ar draws y rhanbarth, â'r canran uchaf o blith holl siroedd rhanbarth Gogledd Cymru yma yn ein hardal ni. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a'r cyfnod clo.
- Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hirdymor ar iechyd y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid Hir) a gwaethygu nifer yr anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.
- Amlygwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad. Roedd amlder gwasanaethau bws yn golygu ei bod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac mae'n debygol o effeithio'n waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn.
- Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau'r ddwy sir ac amlygwyd hyn ym mharodrwydd trigolion i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.
- Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau'r ddwy sir. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

**Economaidd:**

- Rhagwelir newidiadau mewn sectorau gwaith ac yn y patrwm gwaith i'r dyfodol. Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.
- Mae canran uchel o bobl Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio yn y galwedigaethau crefftau medrus (sy'n cynnwys ffermwyr a gweithwyr amaeth). Mae Brexit a'r lleihad mewn grantiau a chymorth ariannol wedi cael effaith ar y sector yma.
- Mae tlodi o bob math yn bryder ar draws y ddwy sir. Mae gennym un o'r canrannau uchaf yng Nghymru o dlodi tanwydd. Roedd yr ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod ble mae costau byw o bob math yn codi.
- Mae swyddi cyflogau isel yn bryder mawr ac roedd sicrhau swyddi gwerth uchel yn flaenoriaeth i gymunedau a thrigolion y ddwy sir. Yn ogystal â'i effaith ar yr economi, mae hefyd yn ei gwneud yn anodd cadw pobl ifanc yn y sir, ac felly'n effeithio ar yr iaith Gymraeg.
- Mae prisiau a fforddiadwyedd tai yn un o brif bryderon cymunedau lleol ar draws y ddwy sir ac yn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd. Pryder arall y mae cymunedau wedi sôn amdano yw'r sefyllfa ail dai / tai haf. Un dangosydd yw'r cynnydd mewn 'troseddau casineb' sydd wedi ei adrodd gan yr Heddlu.
- Mae twristiaeth yn cyfrannu at economïau Môn a Gwynedd ac yn sector gwaith pwysig, ond hefyd yn her ychwanegol i wasanaethau lleol a byd natur. Fe gafodd Covid-19 effaith negyddol ar sector llety a bwyd y wlad o ganlyniad i'r cyfyngiadau, ac mae hyn wedi bod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.
- Mae pryder am gyflwr economi leol y 'stryd fawr' neu 'ganol y dref'. Amlygwyd hyn ym Mangor, Caergybi a sawl tref arall.
- O'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan, mae canran uchel o ymadawyr ysgol blwyddyn 11 yn ein hardal yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).
- Mae darpariaeth gofal plant yn ddarpariaeth bwysig i economi ein hardaloedd. Mae diffyg darpariaeth gynaliadwy yn effeithio ar gymunedau mewn rhai ardaloedd yn y ddwy sir a cheir pryder hefyd am nifer y darpariaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

**Diwylliannol:**

- Mae'r amgylchedd naturiol yn adnodd hollbwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd gan ei bod yn galluogi ein trigolion i fod yn actif yn yr awyr iach.
- Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Ynys Môn a Gwynedd ac mae pryder bod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae mannau gwyrdd yn hollbwysig i lesiant trigolion, ond mae angen gwneud yn siŵr fod mynediad hygyrch atynt fel bod modd i bawb eu defnyddio.
- Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cynnig cyfle i fagu balchder mewn bro a hanes (y Dirwedd Llechi a Chestyll Edward I), ond mae pryder ynghylch eu heffaith ar dwristiaeth a bod angen sicrhau buddion i gymunedau lleol.
- Roedd trigolion yn mynegi balchder bod gennym ddiwylliant cryf, bywiog sy'n cael ei adlewyrchu yn y nifer o gymdeithasau, eisteddfodau, Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau a chyngherddau sy'n cael eu cynnal yn lleol.

Linc i'r wefan: [www.llesiantgwyneddamon.org/cy](www.llesiantgwyneddamon.org/cy)

# Atodiad 2: Sut byddwn yn gweithredu i'r dyfodol?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor arweiniol. Mae pump o'r rhain yn cydymffurfio â'r **pum ffordd o weithio** a amlinellir yn y Ddeddf a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol. Bydd yr egwyddorion yma yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu i'r dyfodol:

| | |
|---|---|
| ***Hyrwyddo'r iaith Gymraeg*** | *Mae'r iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Mae'n amcan sy'n torri ar draws holl waith y Bwrdd a rydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.* |
| ***Lleihau anghydraddoldeb*** | *Byddwn yn parhau i dargedu adnoddau lleol a chenedlaethol o bwys i daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch sylweddol rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r cymunedau mwyaf difreintiedig.* |
| **Meddwl am y tymor hir** | Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. |
| **Atal problemau** | Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i atal problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn y tymor hir. |
| **Cydweithio yn well** | Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion. |
| **Integreiddio** | Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni. |
| **Cynnwys ein cymunedau** | Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis. |

# Cynllun Lles 2023 i 2028

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych o dan y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ceisio gwneud Conwy a Sir Ddinbych yn le mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.

DRAFFT

## Cynnwys

Cyflwyniad .....................................................................................................................4

Sut mae'r Cynllun Lles wedi cael ei ddatblygu? ....................................................................6

Datganiad Lles a'n Hamcanion ..............................................................................................7

**Lles** - Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw. .........................12

**Economi** – Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol .......................................................................................................................18

**Cydraddoldeb** – Mae'r rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau .............23

**Tai** – Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da. ...............................................................29

Darparu'r cynllun a monitro cynnydd ....................................................................................34

DRAFT

# Cysylltu â Ni

Am fwy o wybodaeth ar ein Cynllun Llesiant neu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn gyffredinol cysylltwch â ni ar:

**Post**: Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bwlch Post 1

Conwy

LL30 9GN

**E-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Phone:** 01492 574059

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu 18001 cyn y rhif y maent ei angen.

**Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.**

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn y Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.**

DRAFT

# Cyflwyniad

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn falch o gyflwyno'r Cynllun Lles Lleol hwn ar gyfer ein dwy sir. Mae'n ganlyniad y gwaith a ddechreuwyd yn 2021 ac mae'n cynrychioli ein casgliadau ar yr hyn rydym yn teimlo yw'r prif faes sy'n cyflwyno'r angen neu'r her fwyaf i'n cymunedau, a ble rydym yn teimlo y gall y BGC wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu gwaith da sydd eisoes yn digwydd o fewn partneriaethau a sefydliadau presennol.

Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod i gyrraedd y pwynt hwn, ond megis dechrau siwrnai'r BGC yw hyn. Mae'r cynllun hwn yn amlinelliad o'r hyn yr hoffem ei gyflawni, ond mae yna fwy o waith i'w wneud i ddatblygu ein rhaglen waith a byddem yn croesawu eich mewnbwn i'r rhan hon o'n sgwrs barhaus gyda'n cymunedau. Os hoffech gael eich hysbysu am ein gwaith, cyfrannu neu ddarparu adborth i ni, gallwch weld ein manylion cyswllt ar y dudalen flaenorol.

Gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw bod BGC yn rhoi cyfle cyffrous i wasanaethau cyhoeddus ddod at ei gilydd i herio problemau difrifol yn ein hardaloedd cymunedol. I gyflawni'r nod hwn, bydd y Bwrdd yn chwarae mwy o **Rôl Arweiniol** gyda'r Cynllun hwn nag a ganiatawyd gan y cynllun blaenorol, gan dueddu i ganolbwyntio gormod ar ddarpariaeth weithredol. Trwy hyn gobeithir y bydd y Bwrdd yn gallu rhoi cyfeiriad a rennir cryf a chyfrifoldeb am newid hirdymor effeithiol, gan ddefnyddio ein llais ar y cyd fel partneriaid i ddylanwadu ac eirioli ar ran ein cymunedau.

Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni fod yn realistig am y cyfyngiadau ariannol a wynebir gan ein sectorau, ond ar yr un pryd ystyried hyn fel cyfle ar gyfer newid gwirioneddol effeithiol a pharhau'n agored i weithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r holl bartneriaid ar y bwrdd wedi ymrwymo i gydweithio i gyflawni gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol sy'n atal problemau rhag codi yn yr hirdymor. Rydym eisiau cefnogi ein cymunedau i fod yn ffyniannus, gwydn ac iachach. Rydym yn dymuno cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru mwy cyfatal a chyfrifol ar lefel fyd-eang, ble mae gennym gymunedau cydlynol a diwylliant bywiog.

DRAFT

## Ynglŷn â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Yn Ebrill 2016, sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fwrdd statudol, a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi defnyddio grym o fewn y Ddeddf i uno eu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn un BGC ar gyfer rhanbarth Conwy a Sir Ddinbych.

Mae BGC yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella lles eu sir. Mae hyn yn golygu fel grŵp bod yn rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal Conwy a Sir Ddinbych drwy weithio i gyflawni'r 7 nod Lles isod.

Mae Aelodaeth yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau y rhestrir isod. Fodd bynnag bydd aelodaeth yn cael ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol i gyflawni'r blaenoriaethau. Mae gennym wefan pwrpasol hefyd lle gall y cyhoedd gael mynediad i'r Asesiad a Chynllun Llesiant Lleol, yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd, papurau cyfarfodydd bwrdd, newyddlenni ac i ganfod mwy o wybodaeth am ein partneriaid.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cefnogaeth Gymundedol a Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Swyddfa Commisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru

DRAFT

## Sut mae'r Cynllun Lles wedi cael ei ddatblygu?

Roedd y cam cyntaf yn natblygiad y Cynllun Lles yn cynnwys aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu ein Hasesiad Lles Lleol i'r ardal, sydd ar gael i'w weld ar-lein. Rydym ni wedi cymryd y dull gweithredu ar y cyd hwn er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cael ei greu yn defnyddio arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth holl bartneriaid.

Mae'r asesiad yn anelu i gasglu'r cryfderau a'r pwyntiau cadarnhaol am bobl, cymunedau a mannau Conwy a Sir Ddinbych. Mae hefyd yn disgrifio'r heriau a'r cyfleodd a wynebir nawr ac i'r dyfodol. Cafodd ei lywio gan ddata, ymchwil cenedlaethol a lleol, ac yn bennaf oll, adborth a roddwyd i ni drwy ymgysylltu â'n preswylwyr, ymwelwyr a busnesau drwy 'Sgwrs y Sir'.

Yn ystod haf a'r hydref 2021 fe wnaethom siarad â chynifer o bobl â phosibl i ganfod eu barn am beth sy'n gweithio'n dda yng Nghonwy a Sir Ddinbych ac ar beth y mae angen i ni ganolbwyntio rŵan ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fe wnaethom ofyn i bobl siarad am eu profiadau a'u cymunedau er mwyn i ni ddeall ychydig mwy am bryderon a chryfderau lleol. Roeddem hefyd yn ymgysylltu â chroestoriad eang o'r gymuned, gan gynnwys:

- Grwpiau a fforymau cymunedol, yn cynnwys ystod o ddiddordebau cymunedol mewn cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig.
- Preswylwyr.
- Pobl anabl.
- Rhwydweithiau busnes.
- Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.
- Pobl ifanc (drwy ysgolion a chyngor yr ysgol).
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru.
- Sefydliadau sector cyhoeddus eraill.

Fel yng ngweddill Cymru, mae gwaith ymgysylltu ac ymgynghori wedi profi'n heriol yn ystod y pandemig Covid-19. Er hynny, yn ogystal ag ymgysylltu â'r grwpiau uchod, roeddem wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i hybu Sgwrs y Sir, gan gynnwys y defnydd o sianeli partner mewnol a rhwydweithiau staff, fel Bwletin Conwy, newyddlen Llais y Sir, Sir Ddinbych, e-fwletinau Busnes a rhestr bostio; ond hefyd drwy

DRAFT

gyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg.   Roeddem hefyd yn monitro Sgwrs y Sir i sicrhau ein bod yn derbyn adborth gan bob ystod oed, pob rhan ddaearyddol o'r sir a phob maes diddordeb pwnc.   Er ein bod yn hyderus ein bod wedi estyn allan at groestoriad eang o'r gymuned, o ran nodwedd a ddiogelir a daearyddol, rydym yn teimlo y gallwn wneud mwy wrth i ni weithio tuag at wella dyfnder ymgynghori gyda rhai grwpiau o bobl sydd wedi eu tangynrychioli.

Ar ddechrau 2022 roeddem wedi dechrau trafod canfyddiadau ein Hasesiad Lles yn fwy manwl a nodi'r materion strategol ble gallem wneud gwahaniaeth ar y cyd fel grŵp o bartneriaid.   Cefnogwyd y gwaith hwn gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. O'n dadansoddiad, roedd y Bwrdd wedi cyflwyno rhestr faith o faterion strategol.   Yna cynhaliwyd cyfres o weithdai yn yr haf 2022 i flaenoriaethu meysydd â'r angen mwyaf ynghyd â themâu Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd a datblygu atebion posibl.   Gwnaed hyn drwy ystyried y synergeddau rhwng blaenoriaethau, effaith y gallai'r BGC ei gael, y goblygiadau hirdymor a ble'r oedd gwaith yn cael ei wneud eisoes. Roedd hyn wedi arwain at ailddiffinio'r cynllun yn un maes blaenoriaeth yn canolbwyntio ar **Gonwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.**

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gyda'r cyhoedd a phartneriaid ar ein cynllun drafft rhwng Awst a Thachwedd 2022.   Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych. Ar ôl dadansoddi'r holl adborth a chwblhau'r drafft terfynol ym mis Tachwedd 2022, roedd sefydliadau partner wedi trafod a chadarnhau eu hymrwymiad i'n Cynllun Lles cyn ei gymeradwyo'n llawn ym Mawrth 2023.

## Datganiad Lles a'n Hamcanion

Ein nod yw gwneud **Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal â llai o amddifadedd.** Fel y disgrifiwyd uchod, mae ein Hasesiad Lles sydd yn archwilio data a barn bobl leol drwy lygad Nodau Lles Cymru, wedi ein cefnogi i osod y nod hwn ar gyfer ein hardal.  Mae ein hamcanion felly yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r nodau cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi hyder i ni ein bod yn canolbwyntio'n hadnoddau ar gyflawni'r amcanion cywir a fydd o'r budd mwyaf i'n cymunedau.

Roedd ein hasesiad o les lleol yn cynnwys chwedeg o destunau ar ystod o bynciau, wedi eu trefnu fesul y saith nod lles cenedlaethol. Amlygwyd pedair ar ddeg o'r rhain fel



DRAFT

meysydd oedd yn peri pryder penodol neu gyfle. Daeth 'Cymru sy'n fwy cyfartal' i'r brig fel un oedd yn cysylltu themâu asesu lles yn fwy cyffredin, yn cyd-fynd â'r achosion craidd canlynol rydym wedi eu nodi fel rhai sy'n cyfrannu at anfantais economaidd-gymdeithasol neu anghydraddoldeb yn ein siroedd:

- Costau byw
- Angen am isadeiledd ffisegol a digidol gwell
- Diffyg hyder a dyhead
- Bylchau mewn sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth
- Argaeledd tai iach
- Mynediad at wasanaethau
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Effaith Covid-19

Bydd ein cynllun yn ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd a materion yn ymwneud â thlodi yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn yr hirdymor, yn cynnwys anghydraddoldeb Cymdeithasol, Amgylcheddol, Diwylliannol ac Economaidd. Golyga'r dyhead hwn ei bod yn bosibl na fyddwn yn gweld manteision ein cynllun o fewn ei gyfnod penodol, ond ein bod yn edrych ymlaen at anghenion dwy, tair a phedair cenhedlaeth i'r dyfodol. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar feysydd ble, drwy gydweithio y gallwn wneud gwahaniaeth a chael effaith hirdymor. Fodd bynnag, nid ydym yn dymuno dyblygu gwaith. Mae ein Cynllun yn ymwneud â dadansoddi byrddau partneriaeth eraill sydd eisoes yn gweithio i wella rhanbarth Gogledd Cymru, fel gyda diogelwch cymunedol neu dwf economaidd.

Mae'n bwysig i ni hefyd bod cynaliadwyedd a'r argyfwng hinsawdd yn amlwg ym mhopeth a wnawn. Rhaid i unigolion a chymunedau beidio bod dan anfantais neu gael eu gadael ar ôl gan y newidiadau angenrheidiol sydd ar y gweill oherwydd Newid yn yr Hinsawdd a rhaid i ni sicrhau ein bod ninnau hefyd yn manteisio ar y cyfleoedd sydd i ddod.

Datblygiad cynaliadwy yw egwyddor pwysicaf gweithgareddau BGC Conwy a Sir Ddinbych ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r 5 ffordd at waith (cydweithio, atal, integreiddio, hirdymor a chyfraniad) i gyflawni blaenoriaethau Lles. Wrth ddatblygu ein maes blaenoriaeth bu i ni ganolbwyntio ar y **tymor hir** drwy edrych ar dueddiadau data blaenorol, cyfredol, a rhagolygon ar gyfer y dyfodol, a hefyd drwy drafod dyheadau hir

DRAFT

dymor ymgyngoreion ar gyfer pob nod lles cenedlaethol. Galluogodd edrych ar dueddiadau'r dyfodol – ac ystyried peryglon a chyfleoedd cysylltiedig – ni i gynnwys yr egwyddor o **atal.** Roedd **ymgysylltu** yn egwyddor allweddol. Rydym wedi buddsoddi llawer o amser mewn cynnal trafodaethau gyda'n cymunedau yn ogystal â gweithdai sy'n canolbwyntio gyda gweithwyr proffesiynol. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y rhain yn cynrychioli ein hardaloedd cymunedol (gan adlewyrchu oedran, rhyw, statws cymdeithasol, galwedigaethau ac ati). Nid yw datblygu ein cynllun a'i ddarparu yn gallu ac ni fydd wedi'i ynysu i un partner Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn unig, a bydd angen **cydweithio** parhaus ac ymrwymiad holl bartneriaid i sicrhau ei lwyddiant.

Bydd gwaith cynllunio manwl pellach yn cael ei gynnal yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun i ddiffinio rhaglen waith ac amserlenni. Mae'r 'cynllunio manwl' hwn ble mae cydgynhyrchu a chyfraniad manwl yn gallu digwydd. Ble mae yna amser i bobl gyfrannu a thrafodaethau perthnasol, pendant i'w cynnwys. Dylid nodi nad yw'r amcanion hyn yn cael eu hystyried yn rhai byr dymor eu natur, felly maent yn debygol o gael eu cyflawni dros y tymor canolig i'r hirdymor. Fodd bynnag, dylem hefyd dderbyn nad yw popeth o fewn y Cynllun o fewn rheolaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn arbennig yn yr hirdymor. Er enghraifft, bydd llwyddiant ein heconomi yn dibynnu ar fwy o ffactorau y tu allan i'n cylch dylanwad nag o'i fewn.

Isod mae'r egwyddorion fydd yn berthnasol i Sut y Byddwn yn Gweithio i gyflawni'r Cynllun hwn. Dilynir hyn gan y pedwar thema allweddol y bydd y BGC yn ei ddwyn ymlaen i gefnogi ei nodi i wneud **Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.**

## Sut y byddwn yn gweithio

Mae'n bwysig i ni fod y BGC yn cael ei sefydlu yn y ffordd gywir o ddechrau'r Cynllun Lles hwn, i sicrhau ei fod yn cyflawni'r buddion cywir ar gyfer ein cymunedau yn y ffordd mwyaf effeithiol ac effeithlon. Wrth ymgymryd â'n holl weithgareddau, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar y cyd yn ei rôl partneriaeth i:

- **Arweinyddiaeth:** Darparu cyfeiriad a rennir cryf a chyfrifoldeb am newid hirdymor effeithiol, gan ddefnyddio ein llais ar y cyd fel partneriaid i ddylanwadu ac eirioli ar ran ein cymunedau.

DRAFT

- **Cyd-gynhyrchu:** Mabwysiadu amgylchedd ac annog rhwydweithiau cryf, sy'n hybu ymgysylltu ystyrlon a chyfathrebu gyda'n cymunedau, cefnogi diwylliant ble mae cydgynhyrchu a chyfraniad yn ffynnu.

- **Tegwch:** Hybu tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein holl waith.

- **Gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth:** Cynnal trefniadau llywodraethu sy'n caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn ar sail tystiolaeth, gweithredu ar argymhellion a wnaed drwy ymchwil ac ymgysylltu o ansawdd.

- **Tryloywder:** Trefniadau rheoli perfformiad clir a thryloyw ar waith.

- **Asesu:**Sicrhau bod ein gweithgareddau a'n penderfyniadau yn cael eu hasesu ar gyfer eu heffaith yn yr hirdymor o'r Nodau Lles, yr egwyddor datblygiad cynaliadwy a phump ffordd o weithio. Mae hyn yn cynnwys cymryd i ystyriaeth anghenion tymor byr a hirdymor, defnyddio 'Meddwl am y Dyfodol' i nodi a mynd i'r afael â tharddiad achosion yr ydym yn eu hwynebu ac atal yn hytrach nag ymateb i ddigwyddiadau risg uchel ble bynnag bo hynny'n bosibl.

- **Myfyrio:** Defnyddio'r cyngor a roddwyd gan swyddfa Comisiynydd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i ganolbwyntio ar ein trafodaethau wrth i ni gymryd camau ymlaen.

- **Datblygiad:** Archwilio a chefnogi cyfleoedd ar y cyd ar gyfer hyfforddi a datblygu gweithlu fel cyfleoedd secondiad rhwng ein sefydliadau.

- **Iaith:** Cefnogi a hybu'r Gymraeg ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, integreiddio strategaethau Cymraeg partneriaid.

Byddwn yn defnyddio'r naw egwyddor hyn ar gyfer ein holl waith wrth i ni gymryd camau ymlaen a nodwyd i gefnogi ein nod i wneud **Sir Ddinbych a Chonwy yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.** Dyma'r pethau y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd y tu hwnt i rolau a chyfrifoldebau presennol ein haelodau unigol a byddant yn ein helpu i ddiffinio ein

DRAFT

camau a strwythuro'r cynllunio manwl fydd yn cefnogi gweithrediad y Cynllun hwn. Byddant hefyd yn ein helpu i gynnal a'n dal i gyfrif drwy fonitro a mesur ein cynnydd a'n llwyddiant.

DRAFFT

## Lles - Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw.

### Beth ydym yn ei wybod nawr?

Mae ein Hasesiad Lles yn edrych ar fygythiadau i iechyd a lles. Materion sy'n achosi pryder penodol yw:

- Datblygu gwytnwch i wrthfiotigau a chyffuriau a meddyginiaethau eraill.
- Y potensial ar gyfer lledaeniad cyflym clefydau heintus mewn byd cynyddol rhyngddibynnol a rhyng-gysylltiedig (pandemig).
- Effaith posibl Newid Hinsawdd a thywydd eithafol ar iechyd y cyhoedd.
- Effaith Covid-19 ar iechyd meddwl ac emosiynol (cyfyngiadau, newid ymateb a gorbryder cysylltiedig â haint, a cholli strwythurau cefnogaeth gymdeithasol i bobl).
- Mae cymunedau yn wynebu heriau sylweddol i gwrdd â'u costau byw, gyda mwy o berygl o dlodi bwyd a thanwydd.
- Mae rhagfynegiadau hirdymor yn awgrymu y bydd y materion hyn ond yn cynyddu neu'n gwaethygu dros amser.

Roedd ein cymunedau wedi mynegi eu dymuniad i gael eu cefnogi a'u grymuso i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda ffocws o dan arweiniad cymunedol. Roedd ein hymatebwr yn dweud "Hoffwn weld hyd yn oed mwy o fuddsoddiad mewn adnoddau i helpu'r sir cyfan fynd i'r afael â Newid Hinsawdd a gwneud cynnydd yn gynt gyda datrysiadau i leihau carbon. Rwyf eisiau gweld Cynghorau gyda'r adnoddau i helpu'r gymuned gael effaith hefyd, yn hytrach nag ond canolbwyntio ar swyddogaethau mewnol."

### Pa gamau allwn ni eu cymryd?

I gefnogi'r maes hwn, isod mae rhai o'r camau y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd fel partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod pum mlynedd y cynllun hwn:

- Ymgysylltu â phreswylwyr i wella mynediad cyfartal ac arwyddbostio i'r wybodaeth, cyngor a chymorth cywir a gwasanaethau sy'n cefnogi pobl gyda'r hyn maent ei angen i ffynnu, gan gynnwys addysg, iechyd a lles a chyflogaeth.

- Ysgogi a chefnogi grwpiau cymunedol i helpu pobl barhau'n wydn; er enghraifft, cefnogi ffordd o fyw iach neu roi cymorth gyda chostau pwysau byw.
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r rheiny sydd mewn perygl o dlodi tanwydd. Byddwn hefyd yn dechrau nodi camau i ddiogelu bwyd ac ynni yn yr hirdymor ac amddiffyn ein hadnoddau naturiol.
- Cefnogi cynlluniau cludiant cynaliadwy a gwyrdd sydd yn gwella ansawdd aer cyffredinol, yn cynnwys cynlluniau teithio llesol ac iach sydd yn annog cerdded a beicio.
- Lleihau allyriadau carbon a chynyddu capasiti ynni adnewyddadwy.
- Annog a chefnogi cymunedau i leihau ac ymdopi gydag effeithiau Newid Hinsawdd, dod â'r arbenigedd cywir ynghyd, gan gynnwys profiad byw, i ddarparu a gwneud penderfyniadau gwell. Yn benodol, ymgysylltu â'r gymuned ac asesu'r risg o Newid Hinsawdd lleol yn helpu i flaenoriaethu ble mae angen addasu.
- Mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur ac anghenion lles cymunedau, amddiffyn, adfer a datblygu bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog mynediad cyfartal i'n hamgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys mynediad i fannau cefn gwlad gwyrdd a mannau arfordirol glas.

## Pwy fydd yn ymwneud â chyflawni ein camau?

Holl sefydliadau partner BGC ac eraill o bosibl gan gynnwys:

- Cyngor ar Bopeth
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru
- Sefydliadau'r trydydd sector

## Pa lefelau atal fydd ein camau yn eu cyflawni?

Ataliad eilaidd: Targedu camau tuag at feysydd ble mae yna berygl uchel o broblem yn codi. Dull wedi'i dargedu, sy'n uno'r egwyddor o gyffredinoliaeth gynyddol.

DRAFT

## Sut beth fyddai llwyddiant?

| Tymor byr (1 i 5 mlynedd) | Tymor Canolig (5 i 10 mlynedd) | Tymor Hir (10+ mlynedd) |
|---|---|---|
| Ein dealltwriaeth o effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau yn gwella.<br><br>Pan wynebir digwyddiad hinsawdd brys, mae niwed i bobl neu eiddo wedi gostwng drwy gyngor a chefnogaeth glir.<br><br>Mae preswylwyr hefyd yn gallu cael mynediad i gyngor a chefnogaeth maent ei angen i gefnogi eu hiechyd a'u lles a lleihau effaith costau byw cynyddol.<br><br>Mae yna fwy o fioamrywiaeth a mwy o fynediad cyfartal i fannau cefn gwlad gwyrdd a mannau arfordirol glas, o fudd i les preswylwyr. | Mae allyriadau carbon o'n hystadau yn gostwng ac mae cynefinoedd naturiol yn wydn.<br><br>Mae caledi yn sgil tlodi yn lleihau a'r nifer o'r sawl sy'n wynebu tlodi bwyd a thanwydd yn gostwng.<br><br>Mae'r defnydd o gynlluniau teithio cynaliadwy a llesol yn cynyddu.<br><br>Ymgysylltu cymunedol wedi'i gynllunio a'i gydlynu sy'n ystyrlon. | Mae amhariad o ddigwyddiadau hinsawdd yn llai cyffredin.<br><br>Mae pobl a chymunedau yn ffynnu ac yn wydn i heriau.<br><br>Mae heriau hirdymor yn cael eu cydnabod a chynllunio ar eu cyfer. |

## Cysylltiadau i themâu eraill yn ein Cynllun Lles

**Economi – Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol:**

DRAFT

Bod ag economi iach, ble mae pobl mewn gwaith diogel a gwerth chweil, gwella lles ac yn datblygu gwytnwch cymdeithasol ac economaidd.

**Cydraddoldeb – Mae'r rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau:**

Sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu clywed a helpu i ddatblygu penderfyniadau a gwasanaethau, gwella lles a datblygu gwytnwch cymdeithasol a diwylliannol.

**Tai – Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da:**

Mae tai o ansawdd da, fforddiadwy ac effeithiol o ran ynni yn gwella lles unigolyn a chymuned ac yn datblygu gwytnwch yn erbyn costau byw cynyddol, tlodi tanwydd a newid hinsawdd.

## Sut y byddwn yn cymhwyso'r 5 ffordd o weithio

### Cydweithio

Mae pob sefydliad BGC yn cydnabod ei rôl unigol ac ar y cyd i ddarparu'r cyngor a'r cymorth mae ein cymunedau ei angen i ddatblygu gwytnwch a ffynnu.

### Cyfranogi

Bydd y BGC yn parhau i gyfrannu ac ymgysylltu â'n cymunedau i archwilio pa wybodaeth a chefnogaeth maent ei angen i ddatblygu eu gwytnwch cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.

### Integreiddio

Mae'r BGC yn cydnabod bod lles cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol yn drawsbynciol a bydd yn mabwysiadu dull integredig i gefnogi ei gymunedau o ran meithrin gwytnwch a lleihau amddifadedd yn yr ardaloedd hyn.

### Atal

DRAFT

Bydd y BGC yn cefnogi ein cymunedau i ddod yn fwy gwydn a pharod i ymateb i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol gan atal gostyngiadau pellach mewn lles meddwl a chorfforol.

### Hirdymor

Bydd y BGC yn cefnogi ein cymunedau drwy ddull cytbwys, gan sicrhau nad yw gwella lles cymunedol yn y tymor byr yn cyfaddawdu datblygu gwytnwch pellach a lleihau amddifadedd yn yr hirdymor.

## Sut fydd ein camau yn cynyddu ein cyfraniad i'r Amcanion Lles

### Ffyniannus

Drwy gefnogi mynediad i gyngor, gwybodaeth a chymorth mae ein cymunedau eu hangen, bydd y BGC yn helpu i leihau effaith costau byw cynyddol, mwyhau incwm a gwella cyfraniad cyffredinol i'r gymuned leol.

### Iachach

Drwy gefnogi mynediad i gyngor, gwybodaeth a chymorth mae ein cymunedau ei angen, bydd y BGC yn helpu pobl i gael eu hysbysu'n well a gwneud newidiadau ffordd o fyw iachach, gan arwain at fywydau iachach.

### Gwydn

Drwy gefnogi a dylanwadu lleihau Newid Hinsawdd ac addasiadau yn ein cymunedau, bydd y BGC yn helpu pobl i fod yn fwy parod a pharatoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.

### Cyfartal

Drwy gefnogi mynediad cyfartal at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau, bydd y BGC yn helpu ein cymunedau i gael mynediad i'r wybodaeth a'r cymorth maent ei angen mewn ffordd nad yw'n creu anfantais.

DRAFT

**Cymunedau Cydlynol**

Drwy barhau i gyfrannu a chymryd rhan yn ein cymunedau, bydd y BGC yn helpu pobl i gysylltu a gallu cyfrannu at eu cymunedau mewn ystod o ffyrdd.

**Y Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Mae ein cymunedau yn gallu cael mynediad i gefnogaeth yn eu dewis iaith. Bydd y BGC yn annog a gwella'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

**Cyfrifoldeb byd-eang**

Mae pob sefydliad BGC yn cydnabod ei rôl unigol ac ar y cyd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r defnydd o adnoddau naturiol a gwarchod yr amgylchedd a chynefinoedd naturiol. Bydd y BGC yn cefnogi ein cymunedau i helpu i leihau effaith byd-eang Newid Hinsawdd.

DRAFT

## Economi – Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol

### Beth ydym yn ei wybod nawr?

Mae ein Hasesiad Lles yn edrych ar gyfleoedd gwaith yn ein siroedd. Mae'n dweud wrthym:

- Nid nifer y swyddi sydd ar gael yn unig sy'n bwysig, ond pa fathau o gyfleoedd cyflogaeth y maent yn eu cynnig, a pha mor dda y maent yn cyd-fynd â'r newidiadau yn yr economi fyd-eang ynghyd â'r blaenoriaethau lleol. Mae cyflogaeth am dâl da yn effeithio nid yn unig ar les economaidd unigolion a chymunedau, ond gall gynorthwyo gyda lles meddyliol gan ei fod yn meithrin ymdeimlad o bwrpas ac ymdeimlad o berthyn mewn cymdeithas.
- Yn ogystal â'r camgymhariad rhwng y nifer o swyddi a'r nifer o breswylwyr sy'n gweithio, mae'r ardal yn cynnwys cyflog wythnosol sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer swyddi llawn amser - £451 yng Nghonwy a £501 yn Sir Ddinbych (o'i gymharu â £540 i Brydain yn gyffredinol).
- Mae yna hefyd gyfrannau uwch o swyddi rhan amser yn cael eu cynnig yn yr ardal na'r cyfartaledd cenedlaethol - 46% o weithwyr yng Nghonwy a 39% o weithwyr yn Sir Ddinbych yn rhan amser, o'i gymharu â 32% ar draws Prydain a 35% yng Nghymru.

O fewn yr hinsawdd economaidd presennol, roedd swyddi a chyflogaeth yn faes canolbwynt drwy gydol yr ymgysylltu. Roedd un ymatebwr wedi rhoi'r adborth canlynol pan ofynnwyd beth y gellir ei wella yn yr ardal i fodloni nodau lles yn y dyfodol: "cymorth a chefnogaeth i gael pobl i swyddi a chadw swyddi. Hoffi gweld mwy o swyddi lefel is parhaol yn yr ardal ac nid gwaith tymhorol yn unig. Mwy o fentrau ble mae Cynghorau yn darparu profiad gwaith i bobl â phrofiad gwaith cyfyngedig a phrofiad gwaith i bobl ag anabledd."

### Pa gamau allwn ni eu cymryd?

I gefnogi'r maes hwn, isod mae rhai o'r camau y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd fel partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod pum mlynedd y cynllun hwn:

- Cydweithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddarparu prosiectau a mentrau a fydd yn ysgogi twf economaidd, gan gynnwys: Mae hyn yn cynnwys prosiectau Uchelgais Gogledd Cymru a Bargen Dwf Gogledd Cymru.
- Mwyhau'r buddion a ddaw gyda'n hasedau naturiol unigol a chynyddu ein cynnig twristiaeth gynaliadwy.
- Gweithio gyda phartneriaid (gan gynnwys ysgol, colegau a phrifysgolion) i sicrhau fod pobl o bob oedran, gan gynnwys y rhai diamddiffyn a'r rhai dan ein gofal ni, yn gadarn ac yn barod am gyflogaeth, addysg bellach, neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar Sgiliau Gwyrdd ar gyfer y dyfodol.
- Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, profiad gwaith a phrentisiaethau.
- Hybu swyddi sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar y cyd i helpu gyda recriwtio a chadw staff.
- Deddfiadau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, o fudd i'r gadwyn gyflenwi leol a hybu economi gylchol yn lleol.
- Drwy weithio'n rhanbarthol, ac o fewn cyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, byddwn yn galluogi pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.

## Pwy fydd yn ymwneud â chyflawni ein camau?

Holl sefydliadau partner BGC ac eraill o bosibl gan gynnwys:

- Ysgolion, colegau, prifysgolion a gwasanaethau ieuenctid
- Gyrfa Cymru
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Partneriaethau fel y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Uchelgais Gogledd Cymru, bwrdd uchelgais datgarboneiddio Gogledd Cymru.

## Pa lefelau atal fydd ein camau yn eu cyflawni?

Ataliad eilaidd: Targedu camau tuag at feysydd ble mae yna berygl uchel o broblem yn codi. Dull wedi'i dargedu, sy'n uno'r egwyddor o gyffredinoliaeth gynyddol.

DRAFT

## Sut beth fyddai llwyddiant?

| Tymor byr (1 i 5 mlynedd) | Tymor Canolig (5 i 10 mlynedd) | Tymor Hir (10+ mlynedd) |
|---|---|---|
| Mae'r sawl sydd angen gwaith yn cael eu cefnogi i gael gwaith.<br><br>Mae yna gynnig sgiliau gwell sy'n galluogi pobl i gael mynediad i gyflogaeth gyda thâl gwell. | Mae busnesau yn cael eu denu i Gonwy a Sir Ddinbych, gan ddefnyddio'r sail sgiliau cadarn, a rhoi'r cyfleoedd cywir i bobl gael gwaith.  Mae hyn yn cynnwys economi carbon isel, adfywiol a swyddi gwyrdd cynaliadwy. | Mae ein heconomi gwyrdd, cynaliadwy yn ffynnu.<br><br>Mae cyfartaledd incwm aelwyd yn cynyddu. |

## Cysylltiadau i themâu eraill yn ein Cynllun Lles

**Lles - Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw:**

Sicrhau fod gan bobl fynediad i'r wybodaeth a'r cymorth maent ei angen i helpu gyda chostau byw cynyddol a thlodi bwyd a thanwydd a gwarchod adnoddau naturiol a bwyd yn yr hirdymor, yn helpu i wella gwytnwch ein heconomi leol.

**Cydraddoldeb – Mae'r rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau:**

Mae sicrhau fod pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau na glywir yn aml a'r sawl o dan anfantais economaidd-gymdeithasol â mynediad teg i gyflogaeth, dysgu a gofal iechyd, yn helpu i wella gwytnwch ein heconomi leol.

**Tai – Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da:**

Darpariaeth ddigonol o dai effeithlon o ran ynni, fforddiadwy, o ansawdd da, ble gall pobl fyw yn annibynnol ac yn iach yn helpu i wella gwytnwch y gymuned leol.

DRAFT

## Sut y byddwn yn cymhwyso'r 5 ffordd o weithio

### Cydweithio

Mae pob sefydliad BGC yn cydnabod ei rôl unigol a chyfun i hybu swyddi sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu gyda recriwtio a chadw staff.

### Cyfranogi

Bydd y BGC yn ymgysylltu gydag asiantaethau a phartneriaid eraill i sicrhau gweithlu medrus a gwydn ac ysgogi twf mewn sectorau allweddol, gan gynnwys y sector amgylcheddol.

### Integreiddio

Mae'r BGC yn cydnabod bod economi leol ffyniannus yn cael effaith uniongyrchol ar les cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a bydd yn mabwysiadu dull integredig i gefnogi ei gymunedau o ran meithrin gwytnwch a lleihau amddifadedd yn yr ardal hon.

### Atal

Bydd y BGC yn cefnogi ein cymunedau i fod yn fwy gwydn ac wedi paratoi yn well i ymateb i newidiadau economaidd, datblygu gweithlu cynaliadwy drwy atal diweithdra cynyddol a denu pobl ifanc i weithio yn y rhanbarth.

### Hirdymor

Bydd y BGC yn cefnogi ein cymunedau i ddatblygu gweithlu cynaliadwy gyda sail sgiliau cadarn, cefnogi economi ffyniannus sy'n denu busnesau i'r rhanbarth, gan roi'r cyfleoedd cywir i bobl ar gyfer gwaith.

## Sut fydd ein camau yn cynyddu ein cyfraniad i'r Amcanion Lles

### Ffyniannus

Drwy sicrhau fod pobl o bob oedran yn barod ar gyfer gwaith, addysg bellach neu hyfforddiant, bydd y BGC yn helpu pobl i gael y sgiliau a'r wybodaeth i gael swyddi o ansawdd da, sy'n cefnogi cymunedau lleol a'r economi ehangach.

DRAFT

**Iachach**

Drwy weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid i ddatblygu gweithlu cynaliadwy, bydd y BGC yn helpu pobl i gael mynediad i waith diogel a gwerth chweil a chyfleoedd sgiliau, gan gyfrannu'n gadarnhaol at eu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol.

**Gwydn**

Drwy weithio gyda'n cymunedau a phartneriaid i ysgogi twf economaidd mewn sectorau allweddol, bydd y BGC yn helpu i ddatblygu gweithlu gwydn ac economi ffyniannus.

**Cyfartal**

Drwy weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer gwaith, hyfforddiant ac addysg bellach, bydd y BGC yn helpu pobl o bob gallu a chefndir i gael cyfle i gyflawni eu potensial.

**Cymunedau Cydlynol**

Drwy weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith, addysg bellach a hyfforddiant, bydd y BGC yn helpu i gefnogi pobl i fyw a gweithio yn eu cymunedau, gan ddatblygu'r economi leol.

**Y Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Drwy weithio i fwyhau buddion ein hasedau naturiol unigryw a thwristiaeth gynaliadwy, bydd y BGC yn helpu i ddiogelu diwylliant a threftadaeth y rhanbarth, gan gynnwys y Gymraeg.

**Cyfrifoldeb byd-eang**

Drwy weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid i ddatblygu economi leol gadarn, gan gynnwys yr economi werdd a chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol, bydd y BGC yn helpu'r economi leol i leihau'r effaith byd-eang newid hinsawdd.

DRAFT

## Cydraddoldeb – Mae'r rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau

### Beth ydym yn ei wybod nawr?

Mae ein Hasesiad o'r Effaith yn edrych ar gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn ein cymunedau yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae'n dweud wrthym:

- Mae'r sawl o gefndiroedd amrywiol neu ag anabledd yn aml yn wynebu rhwystrau i gyflogaeth, dysgu a gofal iechyd. Mae ein poblogaeth yn fwy amrywiol ac rydym angen adlewyrchu hyn yn y gwasanaethau a ddarperir, i sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bawb.
- Rydym angen adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth yn well wrth gynnwys pobl pan wneir penderfyniadau, gan sicrhau sylwadau gan bob grŵp.
- Mae pobl â nodweddion a ddiogelir yn fwy tebyg o fyw yn y 10% mwyaf difreintiedig o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yng Nghymru. Maent yn fwy tebyg o ddioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, ac effeithir arnynt yn anghymesur gan effaith y pandemig. Maent hefyd, felly yn fregus i bwysau chwyddiant costau byw.
- Bydd effeithiau Newid Hinsawdd hefyd yn cynyddu anghyfartaleddau o fewn ein cymunedau.

Mae ein hymgysylltiad grwpiau na glywir ganddynt yn aml yn awgrymu ein bod angen cydweithio i sicrhau nad ydym yn rhoi gormod o faich ar yr un cymunedau gyda cheisiadau niferus am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg a'n bod yn adborth ynglŷn â'r camau a gymerwyd ar sail eu hymgysylltiad.

### Pa gamau allwn ni eu cymryd?

I gefnogi'r maes hwn, isod mae rhai o'r camau y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd fel partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod pum mlynedd y cynllun hwn:

- Cefnogi Cynllun Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru i helpu i wireddu gweledigaeth Cymru fel cenedl gwrth-hiliaeth a deall sut mae hynny'n edrych i'n cymunedau.

DRAFT

- Lleihau anghyfartaleddau drwy sicrhau fod profiadau pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau nas clywir yn aml, a'r rheiny dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu clywed ac yn llywio penderfyniadau a datblygu ein gwasanaethau.
- Mynd i'r afael â'r baich emosiynol i'r sawl sy'n byw gydag effeithiau tlodi ac eithrio cymdeithasol, eu trin gyda'r parch a'r urddas maent yn ei haeddu.
- Drwy weithio gyda'n partneriaid a rhwydweithiau, byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â bylchau yn ein Hasesiad Lles, comisiynu ymchwil ansawdd ac ymgysylltu.
- Meithrin cydlyniant cymunedol drwy sicrhau fod pobl yn cael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth a chamfanteisio.
- Sicrhau bod newid i Gymru sero net yn deg.

## Pwy fydd yn ymwneud â chyflawni ein camau?

Holl sefydliadau partner BGC ac eraill o bosibl gan gynnwys:

- Cyngor ar Bopeth
- Joseph Rowntree Foundation
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru
- Sefydliadau'r trydydd sector

## Pa lefelau atal fydd ein camau yn eu cyflawni?

Atal cynradd: Datblygu gwytnwch - creu'r amodau ble nad yw problemau yn codi yn y dyfodol. Agwedd gyffredinol.

## Sut beth fyddai llwyddiant?

| **Tymor byr (1 i 5 mlynedd)** | **Tymor Canolig (5 i 10 mlynedd)** | **Tymor Hir (10+ mlynedd)** |
|---|---|---|
| Mae heriau sy'n wynebu cydlyniant cymunedol a diogelwch personol a bylchau mewn gwasanaeth | Cydgynhyrchu a datblygu gwasanaethau drwy gynnwys y sawl o grwpiau na glywir ganddynt yn aml. | Mae anghyfartaledd yn cael ei ddileu o ddarpariaeth gwasanaeth, gan ganiatáu i bawb gael mynediad i'r |

DRAFT

| Tymor byr (1 i 5 mlynedd) | Tymor Canolig (5 i 10 mlynedd) | Tymor Hir (10+ mlynedd) |
|---|---|---|
| neu ddarpariaeth cyngor sy’n anfanteisio’r sawl â nodwedd a ddiogelir neu’r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn cael eu nodi ar unwaith gyda datrysiadau uniongyrchol.<br><br>Rydym yn deall ac yn gweithredu ar effeithiau anghymesur newid hinsawdd ar y sawl sy’n profi amddifadedd a rheoli trosglwyddiad i Gymru sero net yn deg. | Mae pobl yn hyderus y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu i’w hamddiffyn a’u helpu nhw.<br><br>Mae’r cymunedau mwyaf diamddiffyn sy’n agored i amryw o anghyfartaleddau iechyd wedi eu hamgylchynu gan amgylchedd sy’n ei gwneud yn haws rheoli a chymryd camau i wella iechyd a lles - er enghraifft, lleihau cymunedau’n wynebu llygredd aer a llifogydd. | gwasanaeth maent ei angen i ffynnu.<br><br>Mae holl breswylwyr yn ddiogel rhag niwed, camdriniaeth neu gamfanteisio.<br><br>Mae’r sawl sy’n profi amddifadedd yn cael eu diogelu rhag effeithiau Newid Hinsawdd. |

## Cysylltiadau i themâu eraill yn ein Cynllun Lles

**Lles - Mae cymunedau’n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu’r cynnydd mewn costau byw:**

Sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau na glywir yn aml a’r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael mynediad teg a chyfartal i’r wybodaeth a’r cymorth maent ei angen i’w helpu gyda chostau byw cynyddol a’r tlodi bwyd a thanwydd a diogelu bwyd ac adnoddau naturiol yn yr hirdymor, yn helpu i leihau anghyfartaleddau a dileu rhwystrau.

**Economi – Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus sy’n barod at y dyfodol:**

DRAFT

Mae sicrhau fod pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau na glywir yn aml a'r sawl o dan anfantais economaidd-gymdeithasol â mynediad teg i gyflogaeth, dysgu a gofal iechyd, yn helpu i leihau anghyfartaleddau a dileu rhwystrau.

**Tai – Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da:**

Mae sicrhau fod pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau na glywir yn aml a'r sawl o dan anfantais economaidd-gymdeithasol â mynediad teg i dai effeithiol o ran ynni, fforddiadwy, o ansawdd da ble gall pobl fyw yn annibynnol ac yn iach, yn helpu i leihau anghyfartaleddau a dileu rhwystrau.

## Sut y byddwn yn cymhwyso'r 5 ffordd o weithio

### Cydweithio

Mae pob sefydliad BGC yn cydnabod ei rôl unigol ac ar y cyd i leihau anghyfartaleddau a sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol, na glywir yn aml a'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael cyfle i wneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau.

### Cyfranogi

Bydd y BGC yn parhau i ymgysylltu a sicrhau bod profiad byw o gymunedau amrywiol yn llywio penderfyniadau a datblygu ein gwasanaethau.

### Integreiddio

Mae'r BGC yn cydnabod bod mynediad cyfartal i'n cymunedau yn rhan annatod o ddarparu ein blaenoriaethau ac felly yn sail i ddarparu ein Cynllun Lles.

### Atal

Bydd y BGC yn gweithio gyda'n partneriaid a rhwydweithiau i ymgymryd ag ymchwil o ansawdd ac ymgysylltu i fynd i'r afael â bylchau yn ein Hasesiad Lles gyda'r nod o barhau i atal anghyfartaleddau yn y dyfodol a dileu rhwystrau.

DRAFT

### Hirdymor

Bydd y BGC yn gweithio gyda phartneriaid, rhwydweithiau a chymunedau i sicrhau bod anghyfartaledd yn cael ei ddileu o ddarpariaeth gwasanaeth, gan alluogi pawb i gael mynediad i'r cyngor, cymorth a'r gwasanaethau maent eu hangen i ffynnu.

## Sut fydd ein camau yn cynyddu ein cyfraniad i'r Amcanion Lles

### Ffyniannus

Drwy ddileu rhwystrau a lleihau anghyfartaleddau, bydd y BGC yn helpu pobl o bob gallu a chefndir i gael y cyfle i gyflawni eu potensial.

### Iachach

Drwy gynnwys ac ymgysylltu â phobl o amrywiol gymunedau i wneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau, bydd y BGC yn helpu pobl i wynebu llai o anghyfartaleddau iechyd.

### Gwydnwch

Drwy weithio gyda'n cymunedau a phartneriaid i leihau anghyfartaleddau a lleihau rhwystrau, bydd y BGC yn helpu i fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a gwneud cymunedau yn fwy gwydn.

### Cyfartal

Drwy weithio gyda'n partneriaid i leihau anghyfartaledd a dileu rhwystrau, bydd y BGC yn cefnogi ein cymunedau a phawb sy'n byw ynddynt, beth bynnag eu cefndir neu amgylchiadau.

### Cymunedau Cydlynol

Drwy weithio gyda'n partneriaid i amddiffyn pobl rhag niwed, camdriniaeth a chamfanteisio, bydd y BGC yn helpu i feithrin cydlyniant cymunedol.

DRAFT

**Y Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Drwy weithio gyda'n partneriaid i leihau anghyfartaleddau a lleihau rhwystrau, bydd y BGC yn helpu i gefnogi'r amrywiol ddiwylliannau o fewn ein cymunedau a diogelu'r iaith Gymraeg.

**Cyfrifoldeb byd-eang**

Drwy gefnogi ein cymunedau i ymateb i effeithiau newid hinsawdd, bydd y BGC yn helpu i sicrhau bod y camau a gymerir i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn deg ac yn gymesur.

DRAFFT

## Tai – Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

## Beth ydym yn ei wybod nawr?

Mae ein Hasesiad Lles yn edrych ar y ddarpariaeth tai yn ein siroedd. Mae'n dweud wrthym:

- Bod tai o ansawdd da a charbon isel yn hanfodol ar gyfer lles unigolyn a chymuned, gan ddarparu diogelwch, preifatrwydd, iechyd da a lle ar gyfer hunaniaeth bersonol, twf a datblygiad.
- Mae'r galw am gefnogaeth digartrefedd wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, sy'n cynnwys maint gwaith achos cyffredinol sy'n ymwneud â gwaith ataliol. Wrth i gyllid dynhau a chostau godi, byddwn yn gweld cynnydd pellach yn y nifer sy'n ddigartref.
- Mae amgylchedd corfforol unigolyn, gan gynnwys mynediad i fannau gwyrdd, yn chwarae rôl allweddol; gyda iechyd gwael yn gysylltiedig â digartrefedd, llety o ansawdd gwael a thlodi tanwydd. Mae ffactorau risg iechyd meddwl gwael yn effeithio'n anghymesur ar bobl o grwpiau risg uwch ac wedi eu gwthio i'r cyrion, gan gynnwys pobl ddigartref. Roedd astudiaeth ddiweddar wedi canfod yr adroddwyd am fwy o gleifion oedd wedi marw o hunanladdiad â phroblemau economaidd, gan gynnwys digartrefedd (Canolfan Iechyd Meddwl a Diogelwch, 2016)
- Yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2021, roedd 439 o gartrefi newydd wedi eu hadeiladu yn yr ardal (310 ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 124 yn Sir Ddinbych), er gwaethaf Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) yn rhagweld y gofyn am anheddau newydd blynyddol o tua 950 o gartrefi ar draws y ddau awdurdod lleol.
- Roedd mynediad i dai fforddiadwy wedi'i amlygu fel pryder penodol ymhlith preswylwyr drwy Sgwrs y Sir. Yn Awst 2021, cyfartaledd pris tŷ ar gyfer eiddo ym Mwrdeistref Sirol Conwy oedd £202,485, a £181,538 yn Sir Ddinbych.

Mae'r dyfyniad uniongyrchol hwn o'r dadansoddiad ar-lein, ble gofynnwyd i'r ymatebwr beth gellir ei wella, yn rhoi blas o'r adborth a phryderon a roddwyd drwy gydol yr ymgysylltu ac yn arbennig grwpiau ffocws y cyhoedd a chynghorwyr. "Mwy o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Mae prisiau tai wedi cynyddu'n sydyn dros y flwyddyn ddiweddaf ac allan o gyrraedd llawer o bobl, gan gynnwys pobl ifanc sy'n methu aros yn eu cymunedau."

## Pa gamau allwn ni eu cymryd?

I gefnogi'r maes hwn, isod mae rhai o'r camau y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd fel partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod pum mlynedd y cynllun hwn:

- Cefnogi dull Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru i atal digartrefedd a sicrhau bod unrhyw achosion ohono yn brin, yn fyr ac nid yn cael ei ailadrodd.
- Adolygu faint o dai sydd ar gael yn ein sir i sicrhau bod yna ddarpariaeth o ansawdd sy'n ateb anghenion preswylwyr, eu cynorthwyo i arwain bywydau annibynnol mewn llety priodol am gymaint â phosibl.
- Nodi'r rhwystrau sy'n ymwneud ag amgylchedd uniongyrchol pobl, fel mannau gwyrdd a glas, sy'n effeithio ar ansawdd eu bywyd a chyfranogiad dinesig.
- Gweithio gyda'n cymunedau i nodi a goresgyn rhwystrau i dai, gan sicrhau mynediad teg i gyngor a gwybodaeth ar ddewisiadau sydd ar gael a llwybrau i dai.
- Eirioli safonau tai sy'n cefnogi iechyd da pobl a theuluoedd sy'n byw ynddynt, gan gynnwys hybu tai carbon isel sy'n fforddiadwy i'w rhedeg ac yn wydn o ran effeithiau newid hinsawdd.
- Dod â phartneriaid hen a newydd ynghyd i adolygu dulliau arloesol ar gyfer darparu ac uwchraddio tai.

## Pwy fydd yn ymwneud â chyflawni ein camau?

Holl bartneriaid BGC ac o bosibl cyrff eraill, gan gynnwys:

- Dŵr Cymru
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Tai Iach
- Y Sector Rhentu Preifat
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
- Rheoli Adeiladu

## Pa lefelau atal fydd ein camau yn eu cyflawni?

Gwaith ataliol trydyddol: Ymyrryd unwaith y bydd yna broblem, i'w atal rhag gwaethygu a'i atal rhag ailddigwydd yn y dyfodol. Dull ymyrryd.

DRAFT

## Sut beth fyddai llwyddiant?

| Tymor byr (1 i 5 mlynedd) | Tymor Canolig (5 i 10 mlynedd) | Tymor Hir (10+ mlynedd) |
|---|---|---|
| Mae preswylwyr yn cael eu hysbysu'n well am ddewisiadau tai a llwybrau i dai.<br><br>Tai diogel.<br><br>Mae'r sawl sy'n wynebu digartrefedd yn cael cymorth i ddod o hyd i lety o fewn amserlen resymol. | Mae nifer ac ansawdd tai yn cynyddu.<br><br>Mae achosion o ddigartrefedd yn lleihau. | Bydd anghenion tai yn cael ei ddiwallu.<br><br>Bydd achosion o ddigartrefedd yn brin, yn fyr ac ni fydd yn cael ei ailadrodd.<br><br>Mae cartrefi yn fwy effeithiol o ran ynni. |

## Cysylltiadau i themâu eraill yn ein Cynllun Lles

**Lles - Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw:**

Bydd sicrhau bod gan bobl fynediad i'r wybodaeth a'r cymorth maent ei angen yn eu helpu i gael mynediad i'r datrysiadau tai cywir, sy'n gwella eu hansawdd bywyd a lles.

**Cydraddoldeb – Mae'r rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau:**

Sicrhau bod pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau na glywir yn aml a'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn ymwneud â gwneud penderfyniadau a datblygu gwasanaethau ac nad ydynt wedi eu heithrio yn gymdeithasol yn eu helpu i gael mynediad i'r datrysiadau tai cywir.

**Economi – Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol:**

Bydd sicrhau gweithlu medrus a chynaliadwy yn helpu i ddarparu'r adnoddau mae'r sector tai eu hangen i fodloni'r galw am dai.

DRAFT

## Sut y byddwn yn cymhwyso’r 5 ffordd o weithio

### Cydweithio

Mae pob sefydliad BGC yn cydnabod ei rôl unigol ac ar y cyd i helpu ein cymunedau gael mynediad i dai o ansawdd da a chefnogi atal digartrefedd.

### Cyfranogi

Bydd y BGC yn ymgysylltu gydag asiantaethau a phartneriaid eraill yn yr ardal hon i gefnogi mynediad i dai o ansawdd ac atal digartrefedd.

### Integreiddio

Mae’r BGC yn cydnabod bod mynediad i dai o ansawdd da yn cael effaith uniongyrchol ar les cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a bydd yn mabwysiadu dull integredig i gefnogi ei gymunedau o ran meithrin gwytnwch a lleihau amddifadedd yn yr ardal hon.

### Atal

Bydd y BGC yn gweithio gyda phartneriaid a rhwydweithiau i helpu i leihau ac atal digartrefedd a lleihau rhwystrau sy’n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd pobl a chyfranogiad dinesig, gan atal gostyngiad lles ymhellach.

### Hirdymor

Bydd y BGC yn gweithio gyda phartneriaid, rhwydweithiau a chymunedau i sicrhau bod darpariaeth tai yn gynaliadwy ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

## Sut fydd ein camau yn cynyddu ein cyfraniad i’r Amcanion Lles

### Ffyniannus

Drwy gefnogi darpariaeth tai o ansawdd da y gall pobl eu fforddio, bydd y BGC yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl.

DRAFT

**Iachach**

Drwy gefnogi darpariaeth tai o ansawdd da, fforddiadwy, bydd y BGC yn helpu i wella lles cymunedol, diogelwch, preifatrwydd, iechyd da a lle ar gyfer hunaniaeth bersonol, twf a datblygiad.

**Gwydnwch**

Drwy gefnogi darpariaeth tai fforddiadwy, o ansawdd da, bydd y BGC yn helpu i leihau amddifadedd sy’n gysylltiedig â digartrefedd a thai o ansawdd gwael, gan wneud cymunedau yn fwy gwydn.

**Cyfartal**

Drwy gefnogi mynediad teg i gyngor, gwybodaeth a chymorth cysylltiedig â thai, bydd y BGC yn helpu i leihau anghyfartaleddau cysylltiedig â thai a dileu rhwystrau.

**Cymunedau Cydlynol**

Drwy gefnogi darpariaeth tai fforddiadwy, o ansawdd da, bydd y BGC yn helpu pobl i allu aros yn eu cartrefi a byw yn eu cymuned leol.

**Y Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Drwy gefnogi pobl leol i aros yn eu cymunedau lleol, bydd y BGC yn helpu i ddiogelu a gwarchod yr iaith a’r diwylliant Cymraeg.

**Cyfrifoldeb byd-eang**

Drwy gefnogi darpariaeth tai effeithiol o ran ynni, o ansawdd da, bydd y BGC yn helpu pobl i chwarae eu rhan i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a lleihau newid hinsawdd.

DRAFT

## Darparu’r cynllun a monitro cynnydd

Yn ei rôl fel Bwrdd y Rhaglen, bydd darparu’r Cynllun hwn yn cael ei fonitro gan y BGC drwy adroddiadau cynnydd ac uchafbwyntiau rheolaidd i’r cyfarfodydd. Fel rhan o’n trefniadau monitro, byddwn yn llunio adroddiad blynyddol yn manylu’r cynnydd a wnaed gan y BGC i gyflawni a darparu’r Cynllun Lles. Bydd adrodd yn canolbwyntio ar weithgareddau a drafodwyd gan y Bwrdd a chynnydd unrhyw is-grwpiau (i’w benderfynu) wedi’i sefydlu i gyflawni ffrydiau gwaith penodol. Mae’r setiau Asesiad Lles yn gosod y gwaelodlin ar gyfer llwyddiant y cynllun hwn, a byddwn yn defnyddio dangoswyr a amlygwyd eisoes i fesur cynnydd ein gweithgareddau.

Mae Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn bodoli rhwng Conwy a Sir Ddinbych ac mae’n gyfrifol am graffu effeithlonrwydd llywodraethu’r BGC, y penderfyniadau mae’n eu gwneud a’r camau mae’n eu cymryd. Y bwriad yw rhoi cyfrifoldeb am herio ac atebolrwydd yn lleol.

### Sgwrs barhaus

Roedd ymgysylltu drwy Sgwrs y Sir yn rhan bwysig o gasglu barn leol ar les o fewn cymunedau. Rydym eisiau parhau i ymgysylltu gyda phobl a chymunedau ar draws Conwy a Sir Ddinbych mewn ffordd ystyrlon, yn ogystal â gyda’r gweithlu yn ein sefydliadau. Mae’n hanfodol ein bod yn ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl â diddordeb mewn cyflawni’r amcanion lles a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaethau.

Byddwn yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed, ac yn parhau i helpu i gyflawni’r Cynllun Lles symud ymlaen. Mae gan bob sefydliad partner BGC ei ddull ei hun ar gyfer ymgysylltu gan gynnwys ymgysylltu digidol drwy’r cyfryngau cymdeithasol. Mae’r BGC wedi ymrwymo i rannu negeseuon allweddol rhwng sefydliadau BGC ar ddigwyddiadau ymgysylltu, yn ogystal â hybu gweithgareddau BGC. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i ymgysylltu’n gydlynol fel partneriaid o amgylch ein themâu a rennir a galluogi dull mwy cyfannol ar gyfer gweithredu.

Mae ein holl gyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac yn agored i unrhyw un arsylwi. Am restr o ddyddiadau a lleoliadau gallwch ymweld â’n gwefan.

DRAFT

# Ymgynghoriad ar Gynllun Lles Drafft Sir y Fflint a Wrecsam

Tachwedd 2022

**(Scroll down to page 9 for English)**

## Croeso!

Croeso i'r cam diweddaraf ar ein taith i helpu gwella lles lleol ar draws Sir y Fflint a Wrecsam. Ers rhai blynyddoedd bellach, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus ar hyd a lled ein hardal wedi bod yn gweithio'n agosach â'r trydydd sector, busnesau a chymunedau.  Wrth i ni ailennill ein gwytnwch yn dilyn COVID-19 ac wynebu'r argyfwng costau byw gyda'n gilydd, rydym eisiau cyd-gynhyrchu cynllun hirdymor i edrych ar faterion fel newid hinsawdd ac iechyd meddwl a lles.

Rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam gyhoeddi cynllun pum mlynedd yn nodi sut y byddwn yn gweithio i wella lles lleol erbyn 4 Mai 2023. Ni fydd hwn yn derfynol. Gallai amgylchiadau newid, ac wrth i fwy o bobl ddod yn rhan o'r gwaith, gan ddod â'u hangerdd, eu hegni a'u hasbri gyda nhw, fe wnawn ni'n siŵr bod y cynllun yn datblygu.

Fe wnawn ni'n siŵr bod ein diwylliant a'n hiaith wedi'u gwreiddio'n amlwg ym mhopeth a wnawn wrth i ni barhau i ddatblygu cymunedau balch a chadarn.

Rydym yn ystyried yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi rannu eich syniadau am ein sefyllfa hyd yma ac i ba gyfeiriad rydym yn mynd. Rhannwch eich barn â ni cyn 5 Chwefror 2023. Mae manylion am sut i gysylltu â ni i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

FLINTSHIRE PUBLIC SERVICES BOARD
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM
WREXHAM PUBLIC SERVICES BOARD

## Pwy ydym ni?

Y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dod â sefydliadau'r sector cyhoeddus ar hyd a lled Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd. Mae'n bartneriaeth strategol sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddefnyddio dull cydweithredol o gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu. Mae pob un o aelodau'r BGC yn sefydliad angor sy'n gweithio yn ein hardal, ac yn edrych ar sut y maen nhw'n defnyddio eu hadnoddau'n fwy effeithiol i gyflawni gwelliannau o ran lles. Mae'r berthynas gyda'n cymunedau a sut rydym ni'n gweithio gyda nhw i ychwanegu gwerth a thrawsnewid bywydau pobl yn hanfodol i'r gwaith hwn.

Rydym yn falch ein bod ni yng Ngogledd Cymru yn croesawu'r pum ffordd o weithio (atal, tymor hir, cydweithio, integreiddio a chynnwys) ym mhopeth a wnawn.

Rydym eisiau newid pethau er gwell. Bydd y BGC yn gwneud hyn drwy rannu hud cyd-ymrwymiad, gan brofi syniadau, herio effeithiau, chwalu rhwystrau a galluogi cyd-gynhyrchiad gyda'n cymunedau.

Ar sail yr hyn rydym wedi'i ddysgu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn ystod pandemig COVID-19, a gan ddefnyddio tystiolaeth a data i'n harwain, rydym wedi cynhyrchu dau amcan bras y teimlwn a fydd o gymorth i ni oll gydweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lles:

- Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.
- Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau iach ac annibynnol.

I gefnogi'r amcanion bras hyn, rydym wedi nodi tri maes i ganolbwyntio arnyn nhw: plant a phobl ifanc, cymunedau a'n gweithleoedd.

| **Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.** | **Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau iach ac annibynnol.** |
|---|---|
| Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ffynnu drwy wneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu. | Sicrhau dull effeithiol o atal a darparu ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd ar draws y sector cyhoeddus. |
| Paratoi sgiliau a thalentau pawb i fynd i'r afael â newid hinsawdd a datblygu economi leol gadarn, deg a chynaliadwy. | Arloesi gyda chymunedau i ddatblygu iechyd meddwl a lles da drwy deimladau o ddiogelwch cymunedol a pherthyn. |
| Cryfhau'r cyswllt rhwng sefydliadau'r BGC a'u staff sy'n gweithio ac yn byw yn y cymunedau. | Sicrhau bod y BGC wir yn deall anghenion ac adnoddau eu cymunedau. |

## Beth wyddom ni?

Gwyddom fod ein hasesiadau lles yn nodi diwedd cyfnod ac yn cofnodi ein sefyllfa ym mis Ionawr 2022. Mae bywyd eisoes wedi symud ymlaen, gyda phobl yng Nghymru bellach yn wynebu argyfwng costau byw a helbul economaidd ledled y byd. Fel BGC, rydym wedi ymrwymo i asesu anghenion ein poblogaeth yn barhaus. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwella'r data rydym yn ei gasglu am les ein cymunedau a bod y wybodaeth yn adlewyrchu anghenion diweddaraf y dinasyddion.

Mae yna bedwar piler lles – yr amgylchedd, diwylliant, cymdeithas a'r economi. Mae'r rhain wedi'u cydblethu; nid ydynt yn bedair agwedd ar wahân. Ar draws y pedwar piler hyn, mae yna heriau cyffredin o ran anghydraddoldebau a phenderfynyddion iechyd. Oni fyddwn yn ymrwymo fel cymdeithas i fynd i'r afael â'r heriau cyffredin hyn ar draws y pedwar piler, byddwn yn parhau i wynebu dirywiad yn lles y boblogaeth.

Un o agweddau allweddol ein hasesiad lles oedd dod i ddeall y prif dueddiadau a sbardunau sy'n debygol o lunio'r dyfodol yn Sir y Fflint a Wrecsam, a chynnig cipolwg ar sut y gallwn ni baratoi orau ar gyfer y dyfodol, ar gyfer pobl a'r boblogaeth, iechyd y blaned a chyfyngiadau, anghydraddoldebau a thechnoleg. Bu i ni ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i lunio ein ffordd o feddwl, gan gynnwys *Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol* Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, *Adroddiad Llesiant Cymru* ac *Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol* Llywodraeth Cymru a *Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru* Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Dulliau Newydd o ddylunio a chyflawni lles gyda chymunedau

Gan weithio gyda phob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru, rydym yn cynllunio amrywiaeth o ffrydiau gwaith ymgysylltu a chyfranogi rhanbarthol gyda sefydliadau partner a grwpiau cymunedol. Caiff pob ffrwd ei chyllido drwy Grant Cymorth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2022-23, a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cyllid yn ein galluogi i weithio'n agos â grwpiau cymunedol, gan wrando ar yr hyn sydd wir yn bwysig iddyn nhw a dylunio gwasanaethau gyda'n gilydd. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol oes ein Cynllun Lles, a gallai gwasanaethau cymunedol newid wrth i anghenion y gymuned newid.

Gelwir y dull hwn o gynllunio ar y cyd a gwneud penderfyniadau yn gyfartal gyda'r BGC, partneriaid ehangach a chymunedau oll yn cydweithio ar yr un pryd, yn **gyd-gynhyrchu**. Rydym yn dysgu am gyd-gynhyrchu a'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae'n ei wneud i ddylunio a darparu gwasanaethau, drwy fod yn rhan o rwydwaith cyffrous o ymarferwyr, hyfforddwyr a hwyluswyr, sef **Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru**.

Mae BGC Sir y Fflint a Wrecsam wedi ymrwymo i wreiddio cyd-gynhyrchu â chymunedau yn nyluniad a chyflawniad cynllunio lles yn y dyfodol, er mwyn i adnoddau a gwasanaethau fod ar gael yng nghanol ein cymunedau i bawb eu mwynhau.

Dyma enghreifftiau o ymgysylltiad a chyfranogiad rhanbarthol a gyd-gynhyrchwyd yng Ngogledd Cymru, sy'n digwydd ar hyn o bryd neu sydd ar fin cychwyn:

- **Hanesion Cymunedol** – dulliau creadigol fel adrodd straeon i gofnodi lleisiau a phrofiadau cymunedau amrywiol.
- **Sgyrsiau Cymunedol Amrywiol Gyda'n Gilydd** – ymgysylltu gydag ystod amrywiol o grwpiau cymunedol a'r tîm Cydlyniant Cymunedol, gan eu helpu i fynegi eu barn am themâu diogelwch, cydraddoldeb a lles.
- **Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol** – rhoi cyfle i bobl ifanc fod yn 'gyd-gynhyrchwyr' wrth gynllunio lles a phrofi'r cysyniad o Raglen Arweinwyr y Dyfodol, gyda'r potensial i ehangu ar draws Gogledd Cymru gyfan a thu hwnt.

- **Rheithgor Dinasyddion ar gyfer Gogledd Cymru** – Dyma ddull ymholi lle mae grŵp bychan o bobl yn dod ynghyd i asesu tystiolaeth a thrafod materion, gyda'r safbwyntiau hyn yn helpu'r BGC i gyd-gynhyrchu eu Cynlluniau Lles.
- **Cymuned Ymarfer Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (TrACE)** – dod â phobl a sefydliadau ar hyd a lled Gogledd Cymru ynghyd i gymryd rhan mewn 'ymarfer sy'n deall trawma' i ddysgu, rhannu ac arloesi. Bydd hyn yn helpu datblygu capasiti a gallu strategol ar draws y rhanbarth, ac yn galluogi BGC i ddod i ddeall nifer o fathau o brofiadau bywyd a mynd ati i gefnogi gwytnwch cymunedol.

Caiff tystiolaeth ymchwil, straeon cymunedol, technegau a hyfforddiant ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned eu rhannu ym **Mhartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru (PDGC)**, sef man cydweithio ar gyfer y BGC, partneriaid a lleisiau'r gymuned.

## Ein Hamcanion

Mae'r adran hon yn rhoi mwy o fanylion am y ddau amcan a fydd wrth wraidd ein cynllun lles, y dystiolaeth sydd wedi llywio'r ddau a rhai o'r prosiectau y bydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio arnyn nhw mewn partneriaeth â chymunedau a budd-ddeiliaid eraill.

### Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.

### Plant a Phobl Ifanc

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ffynnu drwy wneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu.

Bu i'n hasesiad ganfod bod canlyniadau mewn perthynas â phedwar penderfynydd cymdeithasol allweddol (cyflogaeth, addysg, diogelwch cymunedol ac iechyd) yn waeth ar gyfer unigolion a oedd yn byw mewn ardal incwm isel. Er bod y proffil cymwysterau cyffredinol yn cynyddu, mae yna anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol o hyd, ac mae aelwydydd sy'n cynnwys person anabl a phobl o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn perygl o dlodi incwm. Mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi mewn arloesi a pharatoi pobl ifanc ar gyfer eu dyfodol, a bod amrywiaeth ac ansawdd dda o gyfleoedd gwaith sefydlog â chyflog da ar gael.

Beth y gallem ei wneud…

**Addysg**

- Gwella cyfleoedd dysgu i blant a phobl ifanc drwy Brifysgol Plant Wrecsam a Sir y Fflint.

**Cyflogaeth**

- Cefnogi'r rhaglen Arweinwyr y Dyfodol a chysoni ag Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

## Cymunedau – ffyniant a thegwch

Paratoi sgiliau a thalentau pawb i fynd i'r afael â newid hinsawdd a datblygu economi leol gadarn, deg a chynaliadwy.

Newid hinsawdd **yw'r broblem sy'n diffinio ein cyfnod.** Mae gennym gyfle go iawn i gydweithio er mwyn ymgysylltu â'n hamgylchedd naturiol a datblygu canlyniadau iechyd cadarnhaol, gan gynnwys gwell iechyd corfforol a meddyliol a llai o risg o afiechyd cardiofasgwlaidd a chyflyrau cronig eraill. Rhaid i ni achub ar y cyfle hwn i ddatblygu economi leol gynaliadwy, gan dyfu busnesau lleol a chanolbwyntio ar ddatblygu isadeiledd gwyrdd i helpu lliniaru effeithiau newid hinsawdd a chefnogi gwell canlyniadau lles.

Beth y gallem ei wneud…

**Lle**

- Cydweithio i alluogi mudiad cymdeithasol newid hinsawdd
- Cofrestru ar gyfer Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru
- Sicrhau bod bwyd iach a fforddiadwy o ansawdd dda ar gael
- Cydweithio i ddatblygu cymunedau cadarn a chydlynus, gan leihau gwahaniaethu a chreu cyfleoedd.

**Cyflogaeth**

- Rhoi polisi gwirfoddoli ar waith i gynnig cyfleoedd i'r unigolion hynny sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio o'r gweithle i ddatblygu eu profiad.
- Defnyddio dull cydgysylltiedig o hyfforddi a recriwtio siaradwyr Cymraeg i hyrwyddo manteision siarad a defnyddio ein hiaith yn fwy rheolaidd.
- Mynd ati i ddatblygu llwybrau gyrfa ar bob lefel, gan flaenoriaethu'r unigolion hynny o'r cymunedau mwyaf difreintiedig a chyhoeddi'r cynnydd.

## Gweithleoedd

Cryfhau'r cyswllt rhwng sefydliadau'r BGC a'u staff sy'n gweithio ac yn byw yn y cymunedau.

Bu i'n hasesiad nodi rôl allweddol y sector cyhoeddus o ran datblygu cymunedau cadarn, drwy ei rym gwario a rôl ei aelodau fel sefydliadau angor. Bydd cyd-gynhyrchu prosiectau gyda chymunedau a budd-ddeiliad yn annog amrywiaeth o leisiau yn ein cymunedau. Mae gweithwyr sy'n gweithio i sefydliadau BGC eisoes yn buddsoddi eu hamser yn eu cymunedau, er enghraifft, fel llywodraethwyr ysgol neu drwy drefnu Eisteddfodau lleol. Drwy gydweithio, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud llawer mwy i gydlynu a chefnogi eu cydweithwyr i ddatblygu ymdeimlad o berthyn ar gyfer pob cymuned, gan atgyfnerthu ein diwylliant Cymreig.

Beth y gallem ei wneud…

- Ymrwymo i bolisi gwirfoddoli staff sy’n gadael i unigolion a thimau ymrwymo cyfran o’u hamser gwaith i gefnogi sefydliadau lleol, ac annog secondiadau, swyddi ar y cyd a chydweithredu.
- Nodi lle gall sefydliadau newid systemau er mwyn i arferion recriwtio alluogi gweithleoedd amrywiol a llewyrchus.

## Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau iach, diogel ac annibynnol.

### Plant a Phobl Ifanc

Sicrhau dull effeithiol o atal a darparu ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd ar draws y sector cyhoeddus.

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella lles ein poblogaeth yw drwy atal yr angen i bobl orfod troi at gymorth iechyd a gofal cymdeithasol ac ymyrryd yn gynnar pan fo angen cymorth. Mae’n arbennig o bwysig defnyddio’r ymagwedd hon mewn cyfnod pan fo’r GIG a’r gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi’u llethu gan y galw. Gallwn sicrhau ein bod yn ymateb i broffil newidiol Wrecsam a Sir y Fflint, sef ardaloedd lle mae proffil oedran y boblogaeth yn mynd yn hŷn. Bydd angen i bob un o aelodau BGC weithio gyda’r system ehangach i sicrhau bod atal wedi’i wreiddio ar draws popeth y maen nhw’n ei wneud, gan ganolbwyntio’n gadarn ar y blynyddoedd cynnar, lle gwyddom y bydd buddsoddiad yn cyflawni’r manteision gorau o ran canlyniadau iechyd a lles hirdymor. Bydd hyn hefyd yn cydbwyso anghenion ein poblogaeth hŷn ac yn creu amgylchedd ar gyfer heneiddio’n iach.

Mae Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn brofiadau gofidus a allai effeithio ar blant yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol wrth dyfu i fyny, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â phob un o benderfynyddion cymdeithasol iechyd (lles). Bu i’n hasesiad ganfod bod angen i ni ganolbwyntio ar leihau’r profiadau negyddol hyn, neu byddant yn parhau i effeithio ein poblogaeth ar hyd eu hoes, gan arwain at iechyd gwael, problemau cymdeithasol a marwolaeth gynnar.

### Diogelwch Cymunedol

Mae Diogelwch Cymunedol yn ymwneud â gostwng a mynd i’r afael â throsedd ac anhrefn yn y sir. Mae hyn yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth â’n hasiantaethau a’n cymunedau i wneud yr ardaloedd rydym ni’n byw ynddyn nhw’n fwy diogel. Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym yn gweithio mewn partneriaeth i roi strategaethau ar waith sy’n cyd-fynd â deddfwriaeth a blaenoriaethau ehangach.

Beth y gallem ei wneud…

**Atal ac Ymyrraeth Gynnar**

- Gweithio tuag at ddull system gyfan o atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer plant a theuluoedd.

**Pwysau Iach**

- Ymrwymo i arwain ar y Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach. Mae gordewdra, deiet gwael a segurdod yn rhai o'r ffactorau risg mwyaf i fywydau pobl sy'n byw gydag anableddau yng Nghymru.

## Cymunedau – ffyniant a thegwch

Arloesi gyda chymunedau i ddatblygu iechyd meddwl a lles da.

Mae yna gyfradd uwch o broblemau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru nag yng ngweddill y wlad, a hynny heb i ni ddeall yn llwyr effeithiau COVID-19. Yn benodol, gwyddom o asesiad o anghenion poblogaeth Wrecsam y gallai'r model meddygol presennol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Wrecsam fod yn atal cyfle pellach i gyd-gynhyrchu gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch yn y gymuned. Felly mae yna gyfle go iawn i sicrhau bod mynediad at wasanaethau ar draws Sir y Fflint a Wrecsam yn cael ei ddylunio'n well, er mwyn sicrhau gwasanaethau hygyrch, integredig a di-dor i ddinasyddion.

Beth y gallem ei wneud…

**Iechyd Meddwl a Lles**

- Cefnogi'r mudiad cymdeithasol Iechyd Meddwl Da ar draws Wrecsam a Sir y Fflint, sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r 5 awgrym llesol.

**Iechyd Gwyrdd**

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd iechyd gwyrdd drwy bresgripsiynu cymdeithasol yn Wrecsam a Sir y Fflint.

## Gweithleoedd

Sicrhau bod y BGC wir yn deall anghenion ac adnoddau eu cymunedau.

Bu i'n hasesiad ganfod darlun cymysg o ymgysylltiad â'n cymunedau a'n budd-ddeiliaid. Drwy ymrwymo i sgyrsiau agored gwell a mynd ati i chwilio am leisiau a straeon a phrofiadau bywyd anghyfarwydd, rhaid i BGC weithio gyda chymunedau a defnyddwyr y gwasanaethau ar ddylunio, darparu a pherchenogi'r gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen.

Beth y gallem ei wneud…

- Gweithio gyda chymunedau a'r ganolfan Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod i ddod yn sefydliadau sy'n deall trawma.
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus y mae pobl anabl yn eu hwynebu.

- Ymrwymo i fod yn sefydliadau sy'n Cefnogi Maethu er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal.

## Beth nesaf?

Byddwn yn myfyrio ar y sylwadau, yr heriau a'r syniadau a fydd yn dod i law ar y cam ymgynghori hwn wrth i ni barhau i gyd-gynhyrchu ein cynllun lles. Er mwyn cyflawni newid cynaliadwy ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam, rhaid i ni fod yn fentrus – mae angen i ni feddwl sut beth fydd llwyddiant mewn 5, 10, 15, 20, 25 mlynedd, a sut y gallwn ni gyrraedd hynny.

Rydym yn falch ein bod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio yng Ngogledd Cymru i lunio ein ffordd o wneud pethau. Wrth i ni symud ymlaen, gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fydd gweithio gyda chymunedau, budd-ddeiliaid a busnesau i rannu'r hud.

**Cymryd Rhan**

Mae sefydliadau'r BGC, partneriaid a chymunedau wrthi'n dod ynghyd i newid ein ffyrdd o weithio a chyd-greu gwell canlyniadau gyda chymunedau. Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ddefnyddio a rhannu ein tystiolaeth, ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth i lywio cynllunio lles. Ymunwch â ni.

Os hoffech chi wneud sylwadau am ein hamcanion a rennir a'r camau rydym yn eu llunio gyda chymunedau, cysylltwch â'r tîm cyn 5 Chwefror 2023.

sustainability@wrexham.gov.uk

corporatebusiness@flintshire.gov.uk

*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 April 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur,<br>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Datganiad ar Bolisi Tâl 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Hysbysu Aelodau am gyfrifoldeb yr Awdurdod i lunio datganiad ar bolisi tâl yn flynyddol yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).

2 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn llunio Datganiad ar Bolisi Tâl bob blwyddyn, i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

3 Mae'r papur hwn yn nodi'r Datganiad ar Bolisi Tâl ar gyfer 2023/24.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

4 Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chymeradwyo datganiad ar bolisi tâl yn flynyddol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Rhaid i'r datganiad gydymffurfio hefyd â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar "Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" a gyhoeddwyd yn ystod Mai 2017.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL NEU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Panel Gweithredol ar 20 Mawrth 2023. Cymeradwyodd aelodau'r panel yr adroddiad ac argymell y dylid ei gymeradwyo.

## ARGYMHELLIAD

6 Gofynnir i'r Aelodau:
- (i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth Leol 2011;
- (ii) cymeradwyo'r datganiad ar bolisi tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

## CEFNDIR

7 Rhaid i ddatganiadau ar bolisi tâl gael eu llunio yn unol â Rhan 1; Pennod 8 (Adrannau 38 – 43) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae'r cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yn crynhoi prif elfennau'r datganiad polisi tâl, sy'n cynnwys:

(a) gwybodaeth am dâl ei brif swyddogion,

(b) tâl ei weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf, ac

(c) y berthynas rhwng:

(i) tâl ei brif swyddogion, a
(ii) tâl ei weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

8 Rhaid i'r datganiad nodi'r canlynol:

(a) diffiniad o'r "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf" a fabwysiedir gan yr Awdurdod i ddiben y datganiad, a

(b) rhesymau'r Awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.

9 Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys polisïau'r Awdurdod sy'n ymwneud â'r canlynol:

(i) lefel ac elfennau'r tâl ar gyfer pob prif swyddog;

(ii) tâl prif swyddogion wrth gael eu recriwtio;

(iii) codiadau ac ychwanegiadau i'r taliadau ar gyfer pob prif swyddog;

(iv) y defnydd o dâl yn gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer prif swyddogion;

(v) y defnydd o fonysau ar gyfer prif swyddogion;

(vi) y ffordd o drin taliadau i brif swyddogion pan fyddant yn darfod swydd dan yr awdurdod neu pan fydd eu cyflogaeth dan yr awdurdod yn dod i ben;

(vii) cyhoeddi a mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â thalu prif swyddogion.

**GWYBODAETH**

10 Pwrpas y datganiad ar bolisi tâl yw darparu tryloywder o ran dull yr Awdurdod o bennu cyflogau ei weithwyr, yn enwedig rhai ei brif swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y gyfradd gyflog isaf, a hynny drwy nodi'r dulliau o benderfynu ar y cyflogau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Datganiad ar Bolisi Tâl yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau am gyflogau, ac yn enwedig penderfyniadau am y cyflogau uchaf, gan gyfrannu at y gwaith o sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a'i fod yn gallu dangos ei fod yn dyrannu tâl yn deg a chyfartal. |
| Cyllideb | Mae'r dyfarniadau cyflog a gytunwyd ac a gyhoeddwyd gan y Cyd-Gynghorau Cenedlaethol yn cael eu hystyried wrth osod cyllideb flynyddol yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | O dan adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân i lunio Datganiad ar Bolisi Tâl erbyn 31ain Mawrth cyn blwyddyn y datganiad. |
| Staffio | Mae'r Datganiad ar Bolisi Tâl yn cefnogi egwyddorion tryloywder, cyflog cyfartal a chefnogaeth i'r staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae triniaeth gyfartal mewn perthynas â chyflog yn rhan bwysig o amcanion Cydraddoldeb yr ATA. |
| Risgiau | Mae peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn arwain at risg cyfreithiol a pherygl i enw da. |

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Datganiad ar Bolisi Tâl**
**2023/24**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Prif swyddogaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig *Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004*, a *Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* (a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006), a *Chynllun Cyfuno 1995*;
- cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r cyfraniad gan y cynghorau cyfansoddol, a
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, a delio ag unrhyw amrywiadau mawr, gan gynnwys penderfynu ar unrhyw gyfraniadau atodol.

1.2 Er mwyn cyflawni ei swyddogaeth, mae'r Awdurdod yn penodi staff i gyflawni dyletswyddau ar ei ran, ac wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ar gyflogaeth. Mae'r Awdurdod hefyd yn dilyn nifer o egwyddorion allweddol sy'n sicrhau fforddiadwyedd, cyflog cyfartal, tryloywder a chymorth ar gyfer tâl isel.

1.3 Diben y ddogfen hon yw bodloni ymrwymiadau cyfreithiol yr Awdurdod yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011 a darparu gwybodaeth am ddull yr Awdurdod o bennu taliadau ei weithwyr. Mae'n darparu gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y raddfa gyflog isaf. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dulliau ar gyfer pennu taliadau i'r holl staff.

1.4 Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau, ac yn enwedig penderfyniadau am gyflogau uwch swyddogion.

1.5 Mae'r datganiad ar bolisi tâl yn ddogfen flynyddol a gaiff ei pharatoi a'i chymeradwyo gan yr Awdurdod cyn y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi.

## 2.0 Y fframwaith deddfwriaethol

2.1 Mae adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr lunio datganiad ar bolisi tâl ers 2012/2013 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol wedi hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r canllawiau ym mis Tachwedd 2021, sef "Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru".

2.2 Mae'r Ddeddf yn diffinio tâl yn eang, ac yn cynnwys cyflog, lwfansau, buddion mewn ffyrdd eraill, codiadau/helaethiadau mewn hawliadau pensiwn a thaliadau ar derfyn cyflogaeth.

2.3 Wrth bennu cyflogau a thâl ei weithwyr, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a phan fo'n berthnasol, Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

2.4 Mae'r Awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw gamwahaniaethu o ran cyflogau yn ei strwythur cyflogau i ateb ei rwymedigaethau dan ofynion cyflog cyfartal Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r broses gwerthuso swyddi wedi'u gwreiddio yn y sefydliad i sicrhau bod modd cyfiawnhau'n wrthrychol unrhyw wahaniaethau rhwng cyflogau gweithwyr a bod cyflogau'n ymwneud yn uniongyrchol ag anghenion, gofynion a chyfrifoldebau'r rôl.

## 3.0 Gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ystyried gwerth am arian

3.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl weithwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3.2 Mae'r Awdurdod o blaid trefniadau cyd-fargeinio ac mae'n cefnogi'r darpariaethau presennol ar lefel genedlaethol sy'n llywodraethu tâl ac amodau gwasanaeth y grwpiau canlynol o weithwyr:

- Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd mewn Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Aur)
- Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol; Cyfansoddiad, Amodau Gwasanaeth, Cyflogau (Y Llyfr Glas)
- Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, Cynllun Amodau Gwasanaeth (Y Llyfr Llwyd)
- Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol (Y Llyfr Gwyrdd).

3.3 Caiff lefelau taliadau eu hadolygu bob blwyddyn trwy'r trefniadau cyd-fargeinio hyn, a bydd unrhyw ddyfarniad "costau byw" sy'n gysylltiedig ag amodau contractiol yn cael eu gweithredu pan ddaw hysbysiad gan y corff negodi perthnasol.

3.4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddyfarniad "costau byw" contractiol ar gyfer ei brif swyddogion yng nghyd-destun penderfyniadau tebyg ynghylch gweithwyr sy'n cael llai o gyflog ac yn unol â chanlyniad y cyd-fargeinio a amlinellir uchod.

3.5 Mae pob swydd sydd ar amodau'r Cyd-gyngor ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn agored i gynllun gwerthuso swyddi'r Awdurdod, sy'n mynd ati'n wrthrychol i asesu pob rôl ar adeg creu swydd newydd, newidiadau i swyddi sy'n bodoli eisoes, neu ar adegau cyfnodol i benderfynu ar raddfa gyflog deg sy'n gymharol i'r grŵp hwn o staff. Wrth roi gorau'n wirfoddol i'w dyletswyddau, ni wneir unrh-yw daliadau ychwanegol.

3.6 Yn unol â'r cyfansoddiad, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb ariannol flynyddol gan gynnwys pa mor fforddiadwy yw costau gweithwyr.

## 4.0 Rôl y Prif Swyddog Tân

4.1 Y Prif Swyddog Tân yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth. Mae'r swydd yn benodiad llawn amser; caiff deiliaid y swydd eu penodi yn ôl teilyngdod ac yn erbyn meini prawf gwrthrychol yn dilyn proses gystadleuol. Mae'r broses ddethol dan oruchwyliaeth Panel Penodi sy'n cynnwys aelodau o'r Awdurdod.

4.2 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gweithio'n agos â'r aelodau etholedig i gyflawni nodau strategol yr Awdurdod. Mae gan y sefydliad gyllideb refeniw flynyddol sydd tua £43 miliwn a chyllideb gyfalaf flynyddol sy'n £3 miliwn, ac mae'n gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, gan gyflogi rhyw 900 o staff.

## 5.0 Tâl y Prif Swyddogion

5.1 Mae polisi tâl yr Awdurdod ar dalu prif swyddogion, gan gynnwys y Prif Swyddog Tân, yn cyd-fynd â' threfniadau Cyd-gyngor yr NJC. O dan y trefniadau hyn, caiff cyflog Rheolwr Brigâd ei adolygu bob blwyddyn ar lefel genedlaethol, sy'n darparu isafswm cyflog ar gyfer prif swyddogion tân.

5.2 Wrth gael eu penodi, bydd tâl prif swyddogion ar y cyflog sylfaenol ar bwynt unigol sy'n gysylltiedig â'r farchnad sy'n gyffredin ar adeg penodi, a bydd yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Hefyd, darperir car er mwyn cyflawni'r swydd.

5.3 Mae'r taliadau i brif swyddogion hefyd yn destun adolygiad annibynnol rheolaidd o'r cyflog, a'r farchnad cyflogaeth yn ehangach. Cafodd yr adolygiad o gyflogau ei gynnal gan y Swyddog Monitro yn ystod 2021, a chafodd yr egwyddorion canlynol eu cymeradwyo gan yr Awdurdod:

i. bydd graddfeydd cyflogau'n gysylltiedig â'r cyfraddau cyflog sylfaenol cyfartalog a gesglir ac a gyhoeddir gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigâd mewn Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Leol er mwyn rhoi cymariaethau priodol sy'n benodol i'r sector;

ii. bydd pob lefel o swydd yn cael ei chyflogi ar raddfa â thri phwynt, gan fynd i fyny'r raddfa yn ddibynnol ar werthusiad blynyddol boddhaol. Bydd pob cynyddran yn y raddfa yn seiliedig ar £1,500 i'r PST; a chyfran gymharol i'r swyddi eraill;

iii. bydd yr Awdurdod yn talu, ar waelod y raddfa dri phwynt, y cyflog sylfaenol cyfartalog i awdurdod ym Mhoblogaeth Band 2, a bydd hynny'n cynnwys yr holl ddyletswyddau;

iv. bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol a gaiff eu negodi a'u cytuno yn genedlaethol yn cael eu cymhwyso fel mater o drefn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos gweithwyr "llyfr llwyd" a "llyfr gwyrdd" (yn dibynnu a yw'r gweithiwr yn dewis ildio rhan ohono ai peidio);

v. bydd y perthynoledd cyflogau rhwng swyddi PST, DBST, PSTC a PSC yn cael eu hadfer. Bydd cyflog pob lefel yn cael ei gyfrifo fel cyfran o gyflog y Prif Swyddog Tân, fel a ganlyn:

| | Cyflog mewn perthynas â'r PST |
|---|---|
| Prif Swyddog Tân | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 80% |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 75% |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | 60% |

vi. pennir maint y swyddi yn briodol, yn gymharol i ba mor uchel yw'r swydd, a bydd eu maint yn gyfartal ar draws pob un ar y lefel honno er mwyn sicrhau bod y swyddogion yn derbyn cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal; a

vii. caiff y cyflog ei adolygu'n rheolaidd yn unol â'r gofynion o dan y dull 'dau drywydd' ar gyfer pennu lefelau cyflog Rheolwyr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd- Gyngor Cenedlaethol. Tair blynedd yw'r cyfnod derbyniol.

5.4 Nid yw'r Awdurdod yn talu bonysau, nac ychwanegiadau megis tâl yn gysylltiedig â pherfformiad. Wrth roi gorau i'w dyletswyddau'n wirfoddol, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol i brif swyddogion.

5.5 Yn dilyn ymddiswyddiad neu ymddeoliad o'u dyletswyddau, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r rhai i ddiben cyflogau neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir *in lieu* o gyfnod rhybudd, hawliadau buddion pensiwn a thâl gwyliau.

5.6 Mewn amgylchiadau pan fo pecyn taliad diswyddo yn cael ei ystyried wrth gytuno ar derfynu dyletswyddau heblaw am y rhesymau a amlinellir uchod, bydd yr Awdurdod yn cael cynnig pleidleisio cyn i unrhyw becyn taliad diswyddo gael ei gymeradwyo ar gyfer prif swyddogion.

5.7 Caiff gwybodaeth ar daliadau i'r prif swyddogion ei chyhoeddi fel rhan o Ddatganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Caiff y rhain eu cyhoedd ar wefan yr Awdurdod.

5.8 Caiff treuliau, fel ar gyfer trên, milltiroedd car, llety dros nos a pharcio eu hawlio'n ôl yn unol â pholisi'r sefydliad ar deithio a chynhaliaeth sy'n gymwys i'r holl weithwyr.

5.9 Mae’r prif swyddogion yn aelodau o’r cynllun pensiwn perthnasol. Nid yw’r Awdurdod yn caniatáu unrhyw gynyddiadau neu helaethiadau i’r pensiwn y tu hwnt i’r trefniadau safonol.

5.10 3 mis yw cyfnod rhybudd swyddi prif swyddogion.

## 6.0 Staff Uwch

6.1 I ddibenion y datganiad hwn ar bolisi tâl, nid yw’r term “prif swyddog” wedi’i gyfyngu i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Mae’n cynnwys y rhai sy’n atebol yn uniongyrchol i’r Prif Swyddog Tân. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddogion Cynorthwyol.

6.2 Mae’r swyddi’n dod dan amryw o delerau ac amodau:

| **Grŵp o Weithwyr** | **Telerau ac Amodau** | **Buddion eraill** | **Trefniadau pensiwn** |
|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Car wedi’i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Swyddog Monitro | Yn cael ei ddarparu gan swyddog a enwir o Gyngor Sir y Fflint gan drefniant contract allanol | | |
| Trysorydd (swyddog adran 151) | Contract rhan amser wedi’i negodi y tu allan i delerau ac amodau cenedlaethol. | | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Car wedi’i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | Llyfr Aur | Car wedi’i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol **neu** Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | Llyfr Glas | Car wedi’i ddarparu | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |

## 7.0 Rheoli Talent

7.1 Mae canolbwynt strategaeth yn Awdurdod yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu ansawdd arweinyddiaeth yn y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynyddu galluedd y timau rheoli presennol, cynllunio ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol, hyrwyddo gwerthoedd arweinyddol ledled y sefydliad a denu arweinwyr effeithiol, pan fo’n briodol, o sectorau eraill.

## 8.0 Tâl yn gysylltiedig â pherfformiad

8.1 Nid oes unrhyw gynllun tâl yn gysylltiedig â pherfformiad ar waith ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw swydd yn y Gwasanaeth.

## 9.0 Talu staff eraill ar wahân i'r prif swyddogion

9.1 Mae polisi tâl yr Awdurdod ar gyfer talu gweithwyr and ydynt yn brif swyddogion wedi'i gysoni â chyfraddau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol drwy'r Cyd-gyngor Cenedlaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr cenedlaethol.

| Grŵp o Weithwyr | Telerau ac Amodau | Buddion eraill | Trefniadau Pensiwn |
|---|---|---|---|
| Swyddogion (Rheolwyr Gorsafoedd, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Maes) | Llyfr Llwyd | Car les yn cael ei ddarparu ar gyfer staff sydd ar rota dyletswydd hyblyg | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Pennaeth Adrannau Corfforaethol | Llyfr Glas | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diffoddwyr Tân | Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Diffoddwyr Tân ar brentisiaeth | Llyfr Llwyd | DIM | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Staff yr Ystafell Reoli | Llyfr Llwyd | DIM* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diogelwch Tân ac Atal Tanau | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Prentisiaid | Llyfr Gwyrdd | DIM | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| *Darperir car prydles ar sail ddewisol ar gyfer nifer fach o swyddi os oes rhaid gwneud siwrneiau sylweddol neu deithio'n aml | | | |

9.2 Mae'r gweithiwr sy'n cael y cyflog isaf yn cael ei gyflogi ar bwynt colofn 4 Gwasanaethau Llywodraeth Leol Cyd-gyngor yr NJC (Llyfr Gwyrdd), sy'n cyfateb i £21,189 y flwyddyn o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Bydd yr Awdurdod yn cyflogi prentisiaid weithiau, sydd heb fod yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o'r 'gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf' gan nad ydynt yn cael eu cyflogi dan gontractau cyflogaeth.

9.3 Argymhelliad y canllawiau statudol dan y Ddeddf Lleoliaeth 2011 yw defnyddio lluosrifau cyflogau fel ffordd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflogau ymhlith y gweithlu ac uwch reolwyr, fel sydd yn Adolygiad Hutton o Dâl Teg yn y Sector Cyhoeddus (2010).

9.4 Mae'r lefelau tâl 2022/23 yn yr Awdurdod yn diffinio mai 1:6.59 yw'r lluosrif rhwng cyfartaledd graddau gweithwyr sy'n cael y cyflog isaf (cyflog sylfaenol yn cyfateb i lawn amser) a'r Prif Swyddog Tân a rhwng y gweithiwr sy'n cael y cyflog isaf.

9.5 Gofynnwyd i adroddiad Hutton ar dâl teg yn y sector cyhoeddus ystyried yr achos dros gael terfyn penodol ar wasgariad cyflogau yn y sector cyhoeddus drwy ei gwneud yn ofynnol na all yr un rheolwr yn y sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith y gweithiwr sy'n cael y cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol, ac mae Cod Ymarfer Argymelledig y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a chyflog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod. 1:4.33 yw'r lluosrif rhwng yr enillion canolrifol sy'n cyfateb i lawn amser (ac eithrio RDS), a'r Prif Swyddog Tân. Sylwch fod y ffigwr hwn yn cynnwys cyflogau llawn amser yn unig, a'u bod yn eithrio lwfansau.

9.6 Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi gwybodaeth yn ei ddatganiad ariannol blynyddol ynglŷn â thalu Prif Swyddogion, enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad, a'r gymhareb rhwng y ddau ffigwr hyn, a hynny er mwyn dangos y berthynas rhwng y ddau.

## 10.0 Cymorth i staff sy'n cael cyflogau is

10.1 Mae holl weithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu talu'n uwch na'r cyflog byw. Cynigir amryw o gynlluniau cefnogi eraill, megis y cynllun seiclo i'r gwaith, Rhaglen Cymorth Gweithwyr, cwnsela, gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a thalebau gofal plant.

10.2 Hefyd cynigir cynllun ffisiotherapi i'r holl weithwyr. Mae gweithwyr yn derbyn cymorth ariannol i gyfeirio eu hunain am therapi i'w cynorthwyo i wella o anaf cyhyr ysgerbydol neu anhwylderau eraill.

10.3 Mae'r ystod o fuddion hyblyg hefyd wedi'u cyflwyno megis gostyngiadau corfforaethol. Bydd buddion a gwobrau nad ydynt yn gyflogau yn gymorth i ddatblygu pecyn cyflogaeth effeithiol ac yn defnyddio systemau gwobrwyo lle mae'r gweithwyr yn gallu ystwytho'r gwobrau er mwyn cael mwy o'r elfen sy'n bwysig iddyn nhw ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd.

## 11.0 Ychwanegiadau at Gyflog Gweithwyr Eraill

11.1 Pan fo'n briodol, ac yn unol ag amodau gwasanaeth cenedlaethol neu gytundeb lleol, gall unigolion dderbyn lwfans yn ychwanegol at eu cyflog. Dyma enghreifftiau, ond ni chyfyngir i'r enghreifftiau hyn:

- darpariaeth ar alwad neu'r tu allan i oriau
- argaeledd parhaus
- cyfrifoldeb ychwanegol
- rhent, tanwydd a lwfans golau
- lwfans ffôn
- cyfraniadau pensiwn y cyflogwr
- lwfansau milltiroedd.

## 12.0 Honoraria

12.1 Gall aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau y tu allan i gwmpas ei swydd ei hun dros gyfnod estynedig gael taliad unigol ychwanegol yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos. Dyma enghreifftiau:

- pan fo gweithiwr yn cyflawni gwaith ychwanegol sylweddol dros dro, sydd yn mynd y tu hwnt i'w gyfrifoldebau arferol; neu
- pan fo gweithiwr yn cyflawni gwaith sylweddol dros oriau arferol ei gontract, ond sydd heb fod yn gymwys i daliadau goramser oherwydd ei leoliad ar y raddfa gyflog.

12.2 Byddai unrhyw benderfyniad am honoraria arfaethedig i brif swyddogion angen ei gymeradwyo gan yr Awdurdodi.

12.3 Bydd penderfyniadau ynghylch yr holl staff eraill yn cael ei ystyried gan y Pennaeth Adran priodol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

## 13.0 Polisi Ymadael

13.1 Wrth roi gorau i ddyletswyddau'n wirfoddol, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r rhai i ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol ar adeg ymddeol. Gallai taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir *in lieu* o gyfnod rhybudd, hawliadau i fuddion pensiwn, tâl gwyliau ac unrhyw ffioedd neu lwfansau a delir.

13.2 Gall gweithwyr a amodir i'r Cyd-gyngor ar gyfer Gwasanaeth Llywodraeth Leol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod, gael hawl i bensiwn ychwanegol a/neu daliadau am ddileu swydd pan fo'r Awdurdod yn rhoi cychwyn ar derfynu cyflogaeth yn gynnar mewn perthynas â Rheoliadau Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd) - y cyfeirir atynt fel arfer fel y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn.

13.3 Mae gan y Gwasanaeth bolisi ar gyfer trefniadau diswyddo neu ymadael.

13.4 Mae cyn-weithwyr yn cael eu hailgyflogi weithiau gan y Gwasanaeth Tân ac Achub pan fo meini prawf penodol wedi eu bodloni. Pan fo'r enillion a'r pensiwn gyda'i gilydd yn uwch na'r cyflog terfynol wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant yn y gyflogaeth wreiddiol, mae'r pensiwn yn agored i'w leihau yn unol â rheoliadau'r cynllun.

## 14.0 Trefniadau oddi ar y gyflogres

14.1 Nid yw'r Awdurdod fel arfer yn cyflogi pobl drwy ddefnyddio trefniadau oddi ar y gyflogres. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ystyrir y rhain, a hynny ar gyfer darnau arbenigol o waith pan nad oes galluedd neu arbenigedd ar gael yn fewnol. Mae gan yr Awdurdod drefniadau i sicrhau bod yr offer dangos statws cyflogaeth, a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM, yn cael ei gwblhau ar gyfer pob cyflenwr cyn gwneud unrhyw daliadau.

## 15.0 Atodiadau

Atodiad 1 Matrics cyflogau'r prif swyddogion

Atodiad 2 Cyfraddau cyflog cyd-gyngor yr NJC
- 2.1 Swyddi diffoddwyr tân
- 2.2 Y System Ddyletswydd ar gael yn ôl y galw (RDS)
- 2.3 Swyddi'r Ystafell Reoli

Atodiad 3 Cyd-gyngor yr NJC ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, matris cyflogau

**Atodiad 1**

**Cyfraddau Cyflogau Prif Swyddogion**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**(ym mis Ionawr 2021, trafodaethau cyflog yn weddill)**

| **Swydd** | Cyflog | Cyflog | Cyflog | % o'r PST |
|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | |
| PST* | £138,060 | £139,560 | £141,060 | |
| DBST* | £110,448 | £111,648 | £112,848 | 80% |
| PSTC* | £103,545 | £104,670 | £105,795 | 75% |
| PSC | £82,836 | £83,736 | £84,636 | 60% |

- yn cynnwys tâl am drefniadau dyletswydd barhaus

| **Darparu gwasanaeth yn allanol** | **Gwerth (blynyddol)** |
|---|---|
| Swyddog Monitro | £16,878 (ac eithrio TAW) |
| Swyddog Adran 151 | £7,812 |

# SWYDDI DIFFODDWYR TÂN – CYFRADDAU CYFLOGAU O 1 GORFFENNAF 2023 YMLAEN

| | Cyflog sylfaenol £ | Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £ | Cyfradd goramser £ |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân** | | | |
| Dan hyfforddiant | 27,178 | 12.41 | 18.62 |
| Datblygu | 28,310 | 12.93 | 19.40 |
| Cymwys | 36,226 | 16.54 | 24.81 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw** | | | |
| Datblygu | 38,501 | 17.58 | 26.37 |
| Cymwys | 40,161 | 18.34 | 27.51 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | |
| Datblygu | 41,031 | 18.74 | 28.11 |
| Cymwys A | 42,170 | 19.26 | 28.89 |
| Cymwys B | 44,911 | 20.51 | 30.77 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | |
| Datblygu | 46,712 | 21.33 | 32.00 |
| Cymwys A | 48,116 | 21.97 | 32.96 |
| Cymwys B | 51,525 | 23.53 | 35.30 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp** | | | |
| Datblygu | 53,801 | 24.57 | Not applicable |
| Cymwys A | 55,415 | 25.30 | Not applicable |
| Cymwys B | 59,642 | 27.23 | Not applicable |
| | | | |
| **Rheolwr Maes** | | | |
| Datblygu | 63,163 | 28.84 | Not applicable |
| Cymwys A | 65,056 | 29.71 | Not applicable |
| Cymwys B | 69,283 | 31.64 | Not applicable |

# SWYDDI DIFFODDWYR TÂN – CYFRADDAU CYFLOG O 1 GORFFENNAF 2023 YMLAEN (Y SYSTEM DDYLETSWYDD AR-ALWAD (RDS))

| | (1) £ y flwyddyn | (2) £ y flwyddyn | (3) £ y flwyddyn | (4) £ yr achlysur |
|---|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân** | | | | |
| Dan hyfforddiant | 2,718 | 1,359 | 12.41 | 4.77 |
| Datblygu | 2,831 | 1,416 | 12.93 | 4.77 |
| Cymwys | 3,623 | 1,811 | 16.54 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Criw** | | | | |
| Datblygu | 3,850 | 1,925 | 17.58 | 4.77 |
| Cymwys | 4,016 | 2,008 | 18.34 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Gwylfa** | | | | |
| Datblygu | 4,103 | 2,052 | 18.74 | 4.77 |
| Cymwys A | 4,217 | 2,109 | 19.26 | 4.77 |
| Cymwys B | 4,491 | 2,246 | 20.51 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Gorsaf** | | | | |
| Datblygu | 4,671 | 2,336 | 21.33 | 4.77 |
| Cymwys A | 4,812 | 2,406 | 21.97 | 4.77 |
| Cymwys B | 5,153 | 2,576 | 23.53 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Grŵp** | | | | |
| Datblygu | 5,380 | 2,690 | 24.57 | 4.77 |
| Cymwys A | 5,542 | 2,771 | 25.30 | 4.77 |
| Cymwys B | 5,964 | 2,982 | 27.23 | 4.77 |
| | | | | |
| **Rheolwr Maes** | | | | |
| Datblygu | 6,316 | 3,158 | 28.84 | 4.77 |
| Cymwys A | 6,506 | 3,253 | 29.71 | 4.77 |
| Cymwys B | 6,928 | 3,464 | 31.64 | 4.77 |

Mae Colofn 1 yn dangos y tâl cadw blynyddol llawn (10% o’r cyflog blynyddol sylfaenol llawn amser, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 2 yn dangos y tâl cadw ar gyfer gweithwyr ar y system ddyletswydd criw dydd (5% o’r cyflog blynyddol sylfaenol llawn amser, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 3 yn dangos y gyfradd fesul awr am waith a wneir

Mae Colofn 4 yn dangos y taliad amharu am bob tro maent yn cael eu galw allan

# SWYDDI PENODOL YN YR YSTAFELL REOLI – CYFRADDAU CYFLOGAU O 1 GORFFENNAF 2023 YMLAEN

| | **Cyflog blynyddol sylfaenol £** | **Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £** | **Cyfradd goramser £** |
|---|---|---|---|
| **Diffoddwr Tân (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Dan hyfforddiant | 25,819 | 11.79 | 17.69 |
| Datblygu | 26,895 | 12.28 | 18.42 |
| Cymwys | 34,415 | 15.71 | 23.57 |
| | | | |
| **Rheolwr Criw (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 36,576 | 16.70 | 25.05 |
| Cymwys | 38,153 | 17.42 | 26.13 |
| | | | |
| **Rheolwr Gwylfa (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 38,979 | 17.80 | 26.70 |
| Cymwys A | 40,062 | 18.29 | 27.44 |
| Cymwys B | 42,665 | 19.48 | 29.22 |
| | | | |
| **Rheolwr Gorsaf (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 44,376 | 20.26 | 30.39 |
| Cymwys A | 45,710 | 20.87 | 31.31 |
| Cymwys B | 48,949 | 22.35 | 33.53 |
| | | | |
| **Rheolwr Grŵp (Yr Ystafell Reoli)** | | | |
| Datblygu | 51,111 | 23.34 | **Ddim yn berthnasol** |
| Cymwys A | 52,644 | 24.04 | **Ddim yn berthnasol** |
| Cymwys B | 56,660 | 25.87 | **Ddim yn berthnasol** |

*(95% o gyflog blynyddol sylfaenol swydd diffoddwr tân, fel y nodir yn Atodiad A)

# CYFRADDAU CYFLOGAU O 1 EBRILL 2022 YMLAEN I STAFF A GYFLOGIR AR DELERAU AC AMODAU'R LLYFR GWYRDD

**(trafodaethau cyflog ar gyfer 23/24 yn parhau)**

| SCP | 1 Ebrill 2022 | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | yr awr* |
| 1 | £20,258 | £10.50 |
| 2 | £20,441 | £10.60 |
| 3 | £20,812 | £10.79 |
| 4 | £21,189 | £10.98 |
| 5 | £21,575 | £11.18 |
| 6 | £21,968 | £11.39 |
| 7 | £22,369 | £11.59 |
| 8 | £22,777 | £11.81 |
| 9 | £23,194 | £12.02 |
| 10 | £23,620 | £12.24 |
| 11 | £24,054 | £12.47 |
| 12 | £24,496 | £12.70 |
| 13 | £24,948 | £12.93 |
| 14 | £25,409 | £13.17 |
| 15 | £25,878 | £13.41 |
| 16 | £26,357 | £13.66 |
| 17 | £26,845 | £13.91 |
| 18 | £27,344 | £14.17 |
| 19 | £27,852 | £14.44 |
| 20 | £28,371 | £14.71 |
| 21 | £28,900 | £14.98 |
| 22 | £29,439 | £15.26 |
| 23 | £30,151 | £15.63 |
| 24 | £31,099 | £16.12 |
| 25 | £32,020 | £16.60 |
| 26 | £32,909 | £17.06 |
| 27 | £33,820 | £17.53 |
| 28 | £34,723 | £18.00 |
| 29 | £35,411 | £18.35 |
| 30 | £36,298 | £18.81 |
| 31 | £37,261 | £19.31 |
| 32 | £38,296 | £19.85 |
| 33 | £39,493 | £20.47 |
| 34 | £40,478 | £20.98 |
| 35 | £41,496 | £21.51 |
| 36 | £42,503 | £22.03 |
| 37 | £43,516 | £22.56 |
| 38 | £44,539 | £23.09 |
| 39 | £45,495 | £23.58 |
| 40 | £46,549 | £24.13 |
| 41 | £47,573 | £24.66 |
| 42 | £48,587 | £25.18 |
| 43 | £49,590 | £25.70 |

*cyfrifir y gyfradd yn ôl yr awr drwy rannu'r cyflog blynyddol gyda 52.143 wythnos (sef 365 diwrnod wedi'i rannu â 7) yna ei rannu gyda 37 awr (sef yr wythnos waith safonol yn 'Llyfr Gwrdd' y Cytundeb Cenedlaethol)

**CYFRADDAU CYFLOGAU O 1 EBRILL 2021 YMLAEN I STAFF A GFLOGIR AR DELERAU AC AMODAU'R LLYFR GLAS**

**(trafodaethau cyflog ar gyfer 23/24 yn parhau)**

| SCP | 01-Ebrill-22 | |
|---|---|---|
| | Y flwyddyn | Yr awr |
| 48 | £54,382 | £28.19 |
| 49 | £56,356 | £29.21 |
| 50 | £57,341 | £29.72 |
| 51 | £58,327 | £30.23 |

*This report is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** | |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod** | |
| Swyddog Cyswllt | **Matt Georgiou, Dirprwy Glerc 01745 535286** | |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) fel sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

1 Fel mater o lywodraethiant corfforaethol da, mae'r Pwyllgor Safonau'n darparu adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau i'r Awdurdod ar ei weithgareddau yn ystod pob blwyddyn ariannol. Mae'n ddyletswydd statudol bellach ar y Pwyllgor Safonau i wneud hynny.

2 O ganlyniad, mae deunawfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor wedi'i atodi i'r Aelodau ei ystyried.

**ARGYMHELLION**

3 Dylai'r aelodau:

i) nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r aelodau yn eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb deithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU AR GYFER 2022/23**

**Cefndir**

Dyma ddeunawfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod Pwyllgorau Safonau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, lle mae caniatâd statudol i wneud hynny, mae'n derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu'n goruchwylio ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

**Aelodaeth**

Ni fu unrhyw newid o ran ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Dyma aelodaeth y Pwyllgor Safonau:

Aelodau Annibynnol
Sally Ellis 01/01/22 – 31/12/25 (ail dymor)
Julia Hughes 01/01/22 – 31/12/25 (ail dymor)
Gill Murgatroyd 01/09/19 – 31/08/23 (tymor cyntaf)
Gareth Pritchard 01/09/19 – 31/08/23 (tymor cyntaf)

Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub
Y Cynghorydd Marion Bateman (09/6/22 – tan etholiadau nesaf y Cyngor)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (07/06/22 – tan etholiadau nesaf y Cyngor)

**Presenoldeb**

Cynhaliwyd cyfarfod ar 14 Hydref 2022 trwy Zoom ac eto ar 9 Chwefror 2023. Roedd Julia Hughes, Sally Ellis, Gill Murgatroyd a Gareth Pritchard yn bresennol yn y cyfarfod ar 14 Hydref 2022 ac roedd yr aelodau i gyd, heblaw am Gill Murgatroyd, yn bresennol yn y cyfarfod ar 9 Chwefror 2023.

**Materion a Drafodwyd**

Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2022, bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn trafod:

- Ymweliadau gan aelodau annibynnol y Pwyllgor i arsylwi cyfarfodydd yr Awdurdod a rhoi adborth i'r Pwyllgor
- Adborth ar sesiynau sefydlu Aelodau i'r Awdurdod
- Creu fforwm safonau cenedlaethol

- Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer y flwyddyn 2021/22
- Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2021/22
- Cyhoeddi "Ein Canfyddiadau" gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Blaengynllun gwaith.

Yn ôl yr aelodau hynny o'r Pwyllgor a oedd wedi mynychu'r sesiynau sefydlu, bu'r profiad yn un hynod werthfawr, gan ei fod yn caniatáu iddyn nhw gael cipolwg ar sut mae'r Gwasanaeth yn gweithio a chwrdd ag aelodau allweddol o staff. Daeth cadarnhad hefyd gan y Swyddog Monitro bod holl Aelodau'r Awdurdod Tân wedi cwblhau eu hyfforddiant Cod Ymddygiad (y Cod) gyda'u Cyngor eu hunain. Nododd y Pwyllgor bod 6 aelod o'r Awdurdod heb fynychu'r sesiynau sefydlu.

Croesawodd y Pwyllgor y cam i sefydlu fforwm safonau cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a phenderfynodd y dylai roi adborth o'r fforymau hynny i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai anfon gohebiaeth at Aelodau'r Awdurdod yn nodi'r themâu allweddol a oedd wedi deillio o'r cyhoeddiad "Ein canfyddiadau" gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cafodd hwn ei anfon at holl aelodau'r Awdurdod, yn ogystal â dolen i'r cyhoeddiad.

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor gyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio i drafod rôl y Pwyllgor a rôl aelodau annibynnol yn arsylwi cyfarfodydd yr Awdurdod.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 9 Chwefror 2023. Yn y cyfarfod hwn, bu'r Aelodau'n ystyried y materion canlynol:

- Presenoldeb yr Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod
- Adborth ar bresenoldeb aelodau annibynnol mewn cyfarfodydd
- Ailbenodi aelodau annibynnol
- Blaenraglen waith ar gyfer adolygu polisïau a phrotocolau perthnasol Cyfansoddiad yr Awdurdod
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Cyhoeddi 'Ein Canfyddiadau'
- Adborth ar Gyswllt â Chadeiryddion/Is-gadeiryddion cyfarfodydd yr Awdurdod
- Cylch gorchwyl y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau
- Adborth ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau
- Y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/24

**Materion a drafodwyd**

Cafwyd crynodeb o’r cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr Awdurdod a’r Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal â throsolwg o gylch gwaith y Pwyllgor, cafodd Adolygiad Penn, ymweliadau Aelodau Annibynnol i arsylwi cyfarfodydd yr Awdurdod, Presenoldeb Aelodau ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i gyd eu trafod. Cytunwyd y byddai cyfarfod pellach o'r Cadeiryddion a'r Dirprwy Gadeiryddion yn cael ei gynnal er mwyn trafod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

Cafodd amserlen ei phennu ar gyfer y Pwyllgor i adolygu'r codau a'r protocolau canlynol fel rhan o'i adolygiad treigl o'r protocolau hynny yn ystod tymor llawn yr Awdurdod:

- Cod Ymddygiad yr Aelodau
- Protocol ar gyfer perthnasoedd Aelodau/Gweithwyr
- Gweithdrefn ar gyfer datrys cwynion am Aelodau’n lleol
- Protocol Cyfryngau Cymdeithasol
- Protocol ar Roddion a Lletygarwch Aelodau a Gweithwyr
- Proses rheoli cwynion am Safonau

Cytunwyd ar amserlen i aelodau Annibynnol y Pwyllgor fynychu ac arsylwi cyfarfodydd yr Awdurdod a bwydo eu harsylwadau’n ôl i'r Pwyllgor.

Cafwyd adroddiad ar lafar yn ymwneud ag ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i achosion o aelodau o’r Awdurdodau Tân yng Nghymru yn torri’r Cod. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o Adroddiadau Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dyddio'n ôl i 2006/7. Ni ymchwiliwyd i unrhyw faterion o'r fath, a dim ond tri chwyn a wnaed i'r Ombwdsmon am aelodau'r Awdurdod Tân yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd y cylch gorchwyl y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau eu derbyn a’u cymeradwyo. Rhoddodd y Cadeirydd adborth i'r Pwyllgor ar gyfarfod cyntaf y fforwm.

**Hyfforddiant**

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn cynnal hyfforddiant ym mhob un o'i gyfarfodydd ar faterion sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl. Yn y cyfnod hwn, derbyniodd y Pwyllgor hyfforddiant mewn pryd mae’r Cod yn berthnasol, a Pharch a Chydraddoldeb o dan y Cod. Bydd hyfforddiant yn parhau i gael ei roi ar rannau cyfansoddol y Cod.

## Blaengynllun Gwaith

Mae'r Pwyllgor wedi gosod blaenraglen iddo'i hun er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac yn ystyried yr holl eitemau sydd angen iddo eu cwmpasu o fewn blwyddyn. Ymysg pethau eraill, mae'r eitemau arfaethedig yn cynnwys: y slot hyfforddi rheolaidd (y cyfeirir ato uchod); adroddiadau blynyddol ac adroddiadau achos gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru; adborth gan Aelodau Annibynnol o'u harsylwadau am gyfarfodydd; a pharhau i adolygu presenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad treigl o'r codau a'r protocolau sydd o fewn ei gylch gorchwyl fel bod pob un yn cael ei ystyried o leiaf unwaith yn ystod tymor pob Awdurdod. Ar gyfer 2023/24 bydd adolygiad o'r Protocolau ar berthnasoedd Aelodau/Gweithwyr a Rhoddion a Lletygarwch, a Chod Ymddygiad yr Aelodau.

## Cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub

Doedd dim cwynion am Aelodau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn.

## Goblygiadau ariannol

Caiff y gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau ei rheoli o dan un pennawd cyllideb ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Ers 2012, mae gan aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau hawl i hawlio costau yn ôl ar gyfer mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau. Ar gyfer mynychu cyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol hon, cafodd cyfanswm o £898.00 ei hawlio.

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell y dylai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru nodi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2022/23.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc i'r Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Ailbenodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cynnig ailbenodi dau Aelod Annibynnol i Bwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Pwyllgor Safonau'r Awdurdod yn cynnwys pedwar Aelod Annibynnol a dau Aelod o'r Awdurdod. Bydd tymor swydd dau Aelod yn dod i ben ym mis Awst 2023. Mae'r ddau wedi cadarnhau eu parodrwydd i gael eu hailbenodi am ail dymor o bedair blynedd. Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r ailbenodiadau hyn.

**ARGYMHELLIAD**

3 Dylai'r aelodau:

i) ailbenodi Gill Murgatroyd a Gareth Pritchard am gyfnod o bedair blynedd o 1 Medi 2023.

**CEFNDIR**

4 Yn ystod 2003, yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, sefydlodd yr Awdurdod Bwyllgor Safonau. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe Aelod y mae pedwar ohonyn nhw'n Aelodau Annibynnol a dau'n gynrychiolwyr o'r Awdurdod.

**GWYBODAETH**

5 Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, gellir ailbenodi Aelod Annibynnol am uchafswm o un tymor arall o hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu swydd wag os bwriedir ailbenodi.

6 Yr Aelodau Annibynnol y mae disgwyl i'w cyfnod yn y swydd ddod i ben yw Gill Murgatroyd a Gareth Pritchard. Mae'r ddau aelod wedi dweud eu bod yn fodlon cael eu hailbenodi.

7 Dyma fydd aelodaeth y Pwyllgor a'r cyfnodau y byddant yn eu swydd:

**Aelodau Annibynnol**

| | |
|---|---|
| Sally Ellis | 01/10/22 – 31/12/22 |
| Julia Hughes | 01/10/22 – 31/12/22 |
| Gill Murgatroyd | 01/01/23 – 31/03/23 |
| Gareth Pritchard | 01/01/23 – 31/03/23 |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub tan fis Mai 2027**

Y Cynghorydd Marion Bateman
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r aelodau yn eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb deithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Richard Fairhead** |
| Pwnc | **Adroddiad cynnydd ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi trosolwg i'r aelodau o bwrpas cynnal yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r fethodoleg fydd yn cael ei defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd i weithgor Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gyfarfu ar 14 Mawrth 2023 a 04 Ebrill 2023.

**ARGYMHELLIAD**

2 Dylai'r aelodau:
 i) nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**CEFNDIR**

3 Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o "Gydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru" ym mis Ebrill 2021 a gwneud y Cynigion canlynol ar gyfer gwelliant – "I gefnogi cydnerthedd, dylai'r awdurdod adolygu lleoliadau ei orsafoedd i nodi cyfleoedd i optimeiddio'r trefniadau ymateb brys."

4 Yn ogystal, roedd yr asesiad o'r sefyllfa gan y Prif Swyddog Tân, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, yn dangos nifer o risgiau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn gryno, roedd y rhain yn gysylltiedig â sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau'r diffoddwyr tân; a chael digon o allu corfforaethol i ddiwallu'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol.

5 Mewn ymateb i asesiad y Prif Swyddog Tân cytunodd aelodau'r Awdurdod i gychwyn rhaglen o adolygiadau i feysydd hanfodol allweddol gan gynnwys y ddarpariaeth ymateb brys.

6 Mae'r Gwasanaeth wedi ymgysylltu â chwmni annibynnol sydd â phrofiad helaeth o archwilio darpariaeth frys i'w helpu i roi opsiynau i'r Awdurdod ar gyfer sut i ddarparu darpariaeth frys sy'n deg a chynaliadwy ledled Gogledd Cymru, gan ystyried y galw yn y dyfodol a'r peryglon.

**GWYBODAETH**

7 Fel gwasanaeth ar-alwad (rhan amser) yn bennaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn dibynnu'n sylweddol ar gyflenwad digonnol o ddiffoddwyr tân ar-alwad i weithredu peiriannau tân gydol y dydd a'r nos. Dim ond wyth allan o'r 44 gorsaf dân sy'n perthyn i'r Gwasanaeth sydd â chriwiau amser cyflawn, felly diffoddwyr tân ar-alwad sy'n gweithredu dros 80% o beiriannau tân y Gwasanaeth.

8 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod yna lawer o heriau a gwendidau'n gysylltiedig â'r system dyletswydd ar-alwad (rhan amser) yn genedlaethol. Yn bennaf, mae'n anodd recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar-alwad, gan arwain at bwysau parhaus ar y Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r diffyg.

9 Yn 2016, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, fe wnaeth yr Awdurdod ystyried sut i aildrefnu ei adnoddau i gyfateb i'r risg. Mabwysiadodd fodel oedd yn cynnwys sicrhau y byddai o leiaf 20 o griwiau tân ar gael mewn lleoliadau strategol ledled Gogledd Cymru. Mae hyn wedi mynd yn fwyfwy anodd i'w gyflawni heb arwain at gostau uchel, ac yn 2023/24 bydd y Gwasanaeth yn treialu targed o 18 injan dân mewn ymateb i'r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

10 Mae'n ddoeth felly i'r Awdurdod gomisiynu gwaith i ddatblygu cynnig ar gyfer darpariaeth ymateb brys yn y tymor canolig er mwyn rhoi opsiynau i'r Awdurdod ar sut i sicrhau darpariaeth tân ac achub fwy cynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.

11 Cafodd y cwmni annibynnol ORH eu comisiynu i weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth er mwyn rhoi opsiynau i'r Aelodau eu hystyried. Maen nhw wedi casglu llawer iawn o ddata, gan gynnwys gwybodaeth flaenorol am ddigwyddiadau, niferoedd poblogaeth, data demograffig, gwybodaeth am y rhwydwaith ffyrdd, risgiau cyfredol a risgiau yn y dyfodol, ynghyd â setiau data eraill. Maen nhw wedi defnyddio'r rhain i fodelu nifer o opsiynau ar sut y gellid cyflwyno darpariaeth frys yng Ngogledd Cymru a gafodd eu cyflwyno i'r gweithgor Aelodau ar 04 Ebrill 2023.

12 Roedd y gyfres o opsiynau a gyflwynwyd yn cynnwys:

a. Model sy'n cynnal ein proffil gorsafoedd presennol gyda chynnydd o hyd at 3 gorsaf staff dydd ychwanegol a fyddai'n golygu cynnydd o ran costau;

b. Model sy'n cadw lleoliadau presennol ein gorsafoedd ond yn ailddosbarthu'r staff, sy'n caniatáu cynnydd o 5 gorsaf staff dydd ac na fyddai'n achosi cost ychwanegol;

c. Model arall sy'n cadw lleoliadau ein gorsafoedd ac yn ailddosbarthu'r staff, sy'n caniatáu cynnydd o 3 gorsaf staff dydd;

d. Model sy'n cadw lleoliadau ein gorsafoedd amser cyflawn ac yn cynnwys 1 gorsaf staff dydd ychwanegol ond yn cau 5 gorsaf ar-alwad.

13 Cafodd yr aelodau wybod am y costau a'r risgiau oedd ynghlwm wrth bob opsiwn a chafodd pob cynnig ei drafod yn helaeth. Y bwriad yw cyflwyno argymhelliad fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus i gyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Gorffennaf 2023.

14 **GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Cyllideb** | Ni fydd unrhyw oblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd gan unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth frys oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn y blynyddoedd i ddod. |
| **Cyfreithiol** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer Darpariaeth Frys. |
| **Risgiau** | Lleihau'r peryglon o beidio â gallu gosod cyllideb gytbwys a chynllunio'n briodol mewn blynyddoedd i ddod. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Yr Amgylchedd)** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newi Hinsawdd** |
| Pwnc | **Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn y gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd tuag at gwblhau Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol. Wedi iddi gael ei chwblhau, bydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'w chymeradwyo.

**ARGYMHELLIAD**

2 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gwblhau Strategaeth Amgylcheddol ddrafft ar gyfer y cyfnod 2023-2030.

**CEFNDIR**

3 Cyflwynwyd y meysydd i'w cynnwys mewn Strategaeth Amgylcheddol ddrafft i'r aelodau mewn Gweithgor ar 4 Ebrill 2023.

4 Ar ôl ei chwblhau, bydd y strategaeth hon yn cadarnhau'r ymrwymiadau deddfwriaethol a pholisi presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau mewn sawl ffordd. Mae'r dyletswyddau perthnasol i baratoi strategaeth amgylcheddol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn dod o dan y pennawd 'Cymru Gydnerth':

a) **Bioamrywiaeth a Phridd** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.

b) **Lle Gwyrdd Naturiol** Cefnogi cydnerthedd cymdeithasol a lles cymunedol.

c) **Gwybodaeth am Natur** Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.

d) **Ansawdd Dŵr ac Aer** Cefnogi cydnerthedd ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl.

6 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru (LlC) i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero net erbyn y flwyddyn 2050.

7 Yn unol â'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi cyfres o gyllidebau carbon dros dro, gan gynnwys o dan Gyllideb Garbon 3 (CB3), uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon sero-net erbyn 2030. Mae hyn yn rhwymo Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, nid cyrff cyhoeddus penodol.

8 Mae'r Gwasanaeth yn llofnodwr i Siarter Cynaliadwyedd Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Gwasanaethau Brys (ESESG), sy'n nodi'r ymrwymiadau perthnasol canlynol:

i. Gweithio tuag at allyriadau carbon sero-net drwy wella effeithlonrwydd ynni ein hystâd a theithio busnes a phersonol cynaliadwy.

ii. Gwella effeithlonrwydd adnoddau a mabwysiadu dulliau economi gylchol o leihau gwastraff ac arbed arian.

iii. Adfer a gwella bioamrywiaeth leol drwy reoli ein hystadau mewn modd ystyriol.

iv. Addasu i'r newid anochel yn yr hinsawdd drwy fynd ati'n rhagweithiol i reoli ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau i'r galw am wasanaethau.

v. Cymryd camau i osgoi neu liniaru llygredd mewn cyrsiau dŵr.

vi. Lleihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil drwy fynd ati i geisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ein safleoedd, a thrwy fabwysiadu technolegau a thanwyddau mwy gwyrdd ar gyfer ein fflyd.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r mater amgylcheddol mwyaf dybryd sy'n wynebu'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â gofyniad i leihau allyriadau carbon, ac mae hyn yr un mor berthnasol i'r Gwasanaeth. I wneud hyn, mae angen mesur allyriadau, yna cymryd mesurau priodol i'w lleihau yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

10 Yn unol â safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol, rydym yn adrodd ar ein hallyriadau carbon o dan dri chwmpas:

**Cwmpas 1: Allyriadau Uniongyrchol**
Dyma ein 'hallyriadau egsôst' lle rydym yn allyrru nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol trwy losgi tanwydd hydrocarbon ein hunain

**Cwmpas 2: Allyriadau Anuniongyrchol**
Mae'r rhain yn allyriadau a wneir gan eraill ar ein rhan, lle mae'r cyflenwad o dan ein rheolaeth ni ac mae graddfa'r allyriadau i raddau helaeth mewn cyfrannedd uniongyrchol â'r galw. Yr unig beth rydyn ni'n adrodd arno ar hyn o bryd o dan Gwmpas 2 yw ein cyflenwadau trydan.

**Cwmpas 3: Allyriadau Anuniongyrchol**
Dyma ein cadwyn gyflenwi yn bennaf, lle gall dwyster carbon cynhyrchion neu wasanaethau fod yn aneglur a lle nad yw bob amser yn llinol mewn perthynas â'r galw.

11 Bydd y Strategaeth Amgylcheddol yn nodi sut byddwn ni'n mesur ein hallyriadau carbon o dan bob un o'r cwmpasau hyn. Bydd angen datblygu llinell sylfaen allyriadau er mwyn olrhain ein cynnydd wrth eu lleihau.

12 Yna bydd yn mandadu datblygu dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Amgylcheddol at ddibenion monitro mewnol. Bydd hefyd yn mandadu'r angen am ymgysylltu â chyflenwyr i leihau allyriadau Cwmpas 3, datblygu pecyn hyfforddi Ymwybyddiaeth Caffael, a mabwysiadu System Rheoli Amgylcheddol gydnabyddedig.

13 Yn olaf, bydd yn nodi'r gofyniad i ddatblygu a gweithredu nifer o is-gynlluniau neu strategaethau sy'n nodi sut y bydd allyriadau'n cael eu lleihau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy
- Cynllun Datgarboneiddio Fflyd
- Strategaeth Lleihau Gwastraff
- Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi
- Cynllun Datgarboneiddio Pŵer

14 Bydd y gwaith o gwblhau'r Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol, a datblygu'r is-ddogfennau hyn, yn cael ei gynnal mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Awdurdod mewn nifer o Weithgorau yn y dyfodol. Mae dyddiadau eisoes yn y dyddiadur ar eu cyfer:

Dydd Mawrth 2 Mai 2023 am 14:00 o'r gloch
Dydd Mercher 31 Mai 2023 am 14:00 o'r gloch
Dydd Iau 22 Mehefin 2023 am 09:00 o'r gloch

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiad uniongyrchol i gyflawni un o amcanion gwelliant a llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| **Cyllideb** | Mae gan y Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn ystod pob blwyddyn ariannol hyd at flwyddyn galendr 2030. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth cynllunio gwelliant, llesiant ac amgylcheddol. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau risgiau diffyg cydymffurfio cyfreithiol a methu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Ebrill 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Y Diweddaraf am y Ganolfan Hyfforddi Newydd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf am y gwaith a wnaed ar gynhyrchu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu tân ac achub newydd yng Ngogledd Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gweithredol hanfodol i'w staff i gefnogi gyda darparu gwasanaethau a diogelwch diffoddwyr tân. Nododd asesiad o'r sefyllfa gan y Prif Swyddog Tân a gynhaliwyd yn 2021 fod hyfforddiant yn faes blaenoriaeth a chafwyd cymeradwyaeth yr Awdurdod i gynnal adolygiad llawn ar ddarparu hyfforddiant gweithredol a datblygiad o fewn y Gwasanaeth yn y dyfodol.

3 Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol presennol, gan gynnwys y rhai yng ngorsafoedd tân Dolgellau a'r Rhyl. Nododd yr adolygiad hwn fod angen buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi a datblygu newydd er mwyn sicrhau parodrwydd a diogelwch gweithredol diffoddwyr tân. Yn benodol, mae angen darparu profiadau hyfforddiant ymarferol a throchi ar draws ystod o senarios.

4 Mae'r adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) hefyd yn cefnogi canfyddiadau adolygiad thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub o hyfforddiant gweithredol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae hwn yn cydnabod bod angen buddsoddi cyfalaf sylweddol er mwyn efelychu amodau go iawn i ddiffoddwyr tân allu datblygu a diweddaru eu sgiliau gweithredol.

5 Ar ôl cael cymeradwyaeth yr Awdurdod ar 17 Hydref 2022 i ddyrannu cyllideb i ddatblygu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd, cafodd nifer o opsiynau eu harchwilio gan dîm y prosiect.

6 Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys nodi darn o dir addas ar gyfer y ganolfan hyfforddi a datblygu newydd yn Sir Ddinbych.

7 Mae’r Awdurdod bellach wedi ymrwymo i gytundeb cyfyngedig o chwe mis gyda pherchennog y tir, er mwyn cynnal yr arolygon, asesiadau addasrwydd a thrafodaethau perthnasol gyda swyddogion cynllunio lleol cyn cyflwyno cais cynllunio amlinellol.

8 Bydd gweithgor sy'n cynnwys chwe Aelod o'r Awdurdod, un o bob cyngor cyfansoddol, hefyd yn cael ei sefydlu gyda'r nod o ddatblygu a chraffu ar gynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru.

9 Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn cymryd tua chwe mis. Bydd yn dod i ben pan fydd yr achos busnes ar gyfer prynu'r tir a'r opsiynau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod ar 23 Hydref 2023.

10 Mae cyllideb ar gyfer prynu tir wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2023/24 yr Awdurdod, gyda'i defnydd yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yn dilyn achos busnes cadarn gan Swyddogion.

**ARGYMHELLIAD**

11 Argymhellir bod yr Aelodau’n:

(i) nodi’r cefndir ar gyfer adolygu’r cyfleusterau hyfforddiant tân ac achub yng Ngogledd Cymru;
(ii) nodi bod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer hyfforddiant yn cyrraedd diwedd ei hoes;
(iii) nodi bod cam nesaf y prosiect wedi dechrau i gadarnhau addasrwydd y tir a nodwyd; a
(iv) nodi'r amserlenni sydd wedi cael eu nodi yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu achos busnes manwl i’r Aelodau ei ystyried.

**CEFNDIR**

12 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, cafodd y tair prif flaenoriaeth i'r Gwasanaeth eu nodi gan y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad o’r sefyllfa. Roedden nhw'n cynnwys gwella argaeledd, gwella hyfforddiant a chryfhau'r strwythur corfforaethol. Cymeradwyodd yr aelodau’r blaenoriaethau hyn a dyrannu cyllid cychwynnol i gefnogi'r meysydd hyn.

13 Mae hyfforddiant wedi cael ei adolygu a'i wella drwy ddatblygu strategaeth hyfforddi newydd. Cafodd cyllid ei ddyrannu i dalu am fwy o hyfforddwyr a chyfleusterau hyfforddi gweithredol newydd yn Nolgellau yn lle’r hen rai.

14 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022 yn argymell y dylid dyrannu cyllideb gychwynnol er mwyn ddatblygu'r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd.

15 Mae tîm prosiect y ganolfan hyfforddi newydd wedi ymgynghori â staff, gweithwyr adeiladu proffesiynol, arbenigwyr cynaliadwyedd a phensaer i ddatblygu dyluniad lefel uchel ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru. Mae hyn hefyd wedi cynnwys nodi darn o dir yr aseswyd ei fod yn addas oherwydd ei leoliad daearyddol a'i faint.

**GWYBODAETH**

16 Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad manwl o'i gyfleusterau hyfforddi gweithredol yng ngorsafoedd tân y Rhyl a Dolgellau. O ganlyniad, daeth i'r amlwg nad ydyn nhw'n darparu'r cyfleusterau sy'n ofynnol i hyfforddi diffoddwyr tân sy'n gweithio o fewn gwasanaeth tân ac achub modern.

17 Er bod cyfleuster hyfforddi'r tŷ tân yng ngorsaf dân Dolgellau yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gweithredol, mae gofyn buddsoddiad sylweddol ynddo i ymestyn ei oes yn y tymor canolig ar gyfer darparu hyfforddiant offer anadlu risg critigol a thactegau diffodd tân. Ni ellir ei ystyried fel opsiwn tymor hir. Mae hefyd mewn ardal yng Ngogledd Cymru sy'n gryn bellter i'r mwyafrif o'n staff deithio iddi er mwyn mynychu cyrsiau offer anadlu yno.

18 Yn ystod y degawd diwethaf bydd yr Awdurdod wedi sylwi bod nifer y tanau a digwyddiadau brys eraill wedi gostwng yn sylweddol. Er bod hyn yn arwydd o lwyddiant y gwaith atal tân a wnaed yn ein cymunedau dros y cyfnod hwn, mae wedi arwain at y risg y bydd diffoddwyr tân yn cael llai o gysylltiad â'r ystod eang o beryglon a sefyllfaoedd cymhleth maen nhw'n debygol o'u hwynebu mewn digwyddiadau o'r fath.

19 Mae halogyddion tân hefyd yn risg sy'n bresennol yn y nwyon fflamadwy gwenwynig a'r mwg a ryddheir yn ystod tanau, a gallent gyfrannu at ganser a chyflyrau iechyd eraill mewn diffoddwyr tân. Felly, mae angen cynnwys rheoli halogyddion tân yn y dyluniad ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd. Er bod mesurau dros dro wedi'u rhoi ar waith, mae rheoli halogyddion tân yn y tymor hir yn bryder iechyd a diogelwch yn y cyfleusterau hyfforddiant offer anadlu presennol yn Nolgellau.

20 Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae angen i ni roi blaenoriaeth i hyfforddiant a datblygiad gweithredol ar gyfer staff mewn amgylchedd hyfforddi trochol a realistig, sy'n cynnwys mesurau iechyd a diogelwch digonol, wrth ddylunio canolfannau hyfforddi a datblygu. Bydd hyn yn darparu cyfleusterau hanfodol ar gyfer y 25 mlynedd nesaf o leiaf yng Ngogledd Cymru.

21 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022, cymeradwywyd yr argymhelliad i ddyrannu cyllideb gychwynnol i'r prosiect, a oedd yn cynnwys yr opsiwn i ymrwymo i gytundeb cyfyngedig gyda pherchennog tir safle yr aseswyd ei fod yn addas o ran maint a lleoliad.

22 Ers cyfarfod yr Awdurdod Tân, nodwyd tir addas ar gyfer lleoli canolfan hyfforddi a datblygu yn Sir Ddinbych. Yn dilyn sgyrsiau adeiladol gyda'r asiant tir a'r swyddfa gynllunio leol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb cyfyngedig gyda pherchennog y tir i gynnal yr arolygon a'r asesiadau addasrwydd tir angenrheidiol. Nid yw'r cytundeb hwn yn rhwymo'r Awdurdod i'r pryniant ond mae'n caniatáu i bob diwydrwydd dyladwy gael ei wneud.

23 Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn cymryd tua chwe mis. Bydd yn cynnwys cynnal yr arolygon tir a'r asesiadau perthnasol a thrafodaethau pellach gyda swyddfa gynllunio Awdurdod Lleol Sir Ddinbych i fodloni ei gofynion cyn cyflwyno cais cyn cynllunio.

24 Bydd gweithgor sy'n cynnwys chwe Aelod o'r Awdurdod, un o bob cyngor cyfansoddol, hefyd yn cael ei sefydlu gyda'r nod o ddatblygu a chraffu ar syniadau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfarfodydd rheolaidd â'r Aelodau a thîm y prosiect, ac ymweliadau â chanolfannau hyfforddi a datblygu Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Deyrnas Unedig.

25 Bydd canlyniadau'r gweithgor, yr arolygon safle a'r cais cyn cynllunio yn cael eu hadolygu, a gellir cyflwyno argymhellion ar gyfer prynu safle i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 23 Hydref 2023, yn dibynnu ar y canlyniadau.

26 Mae cyllideb ar gyfer prynu tir wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2023/24 yr Awdurdod, gyda'i defnydd yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau yn dilyn achos busnes cadarn gan Swyddogion.

27 Ar wahân i brynu tir, disgwylir i'r achos busnes manwl ar gyfer y ganolfan hyfforddi a datblygu newydd fod wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau i graffu ymhellach arno a'i gymeradwyo bryd hynny.

28 Os caiff ei gymeradwyo bydd amserlen yn cael ei datblygu, ond rhagwelir y gallai'r gwaith adeiladu gychwyn yn gynnar yn 2025 yn dilyn cais cynllunio, datblygu briff dylunio manwl a chaffael prif gontractwr.

29 Bydd aelodau'n cael eu diweddaru a'u hysbysu am gynnydd y prosiect wrth iddo ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'r holl Amcanion Llesiant a Chorfforaethol 2022/23 a bydd yn hyrwyddo diogelwch diffoddwyr tân, yn cefnogi parodrwydd gweithredol ac yn sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hwy |
| Cyllideb | Cymeradwyodd yr Aelodau ddefnyddio £250,000 o gronfeydd wrth gefn er mwyn datblygu achos busnes manwl yn nodi'r opsiynau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd yn GTAGC. Bydd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer prynu tir a'r costau adeiladu, pe bai'r achos busnes yn cael ei gymeradwyo. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau hyfforddiant digonol i'w staff, a rheoli risgiau megis halogyddion. Aeth y prosiect hefyd i'r afael â'r rhwymedigaeth gyfreithiol ehangach i leihau allyriadau carbon. |
| Staffio | Mae tîm a rhanddeiliaid y prosiect wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) i'w chymeradwyo yng nghyfarfod Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r project yn cefnogi iechyd a diogelwch a lles staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r goblygiadau ar gyfer y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn Asesiad Effaith Integredig y PID. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yng nghofrestr risg y PID. |